# Adroddiad rhanddeiliaid ar y Polisi Trwydded Deledu ar sail Oed
Mawrth 2019

# Gair am yr adroddiad hwn

Cafodd Populus ei gomisiynu gan y BBC i wneud gwaith ymchwil ansoddol manwl gyda chroestoriad eang o randdeiliaid a grwpiau mewn cymdeithas i asesu agweddau at y BBC, gan ganolbwyntio ar Bolisi Ffi'r Drwydded Deledu ar sail Oed.

Roedd strwythur y sgyrsiau'n dilyn strwythur y ddogfen ymgynghori, hyd y bo modd. Doedd y templed trafod ddim yn dewis a dethol pwyntiau, nac yn gofyn cwestiynau a oedd heb godi yn y ddogfen ymgynghori. Pan oedd angen anogaeth er mwyn cael ymateb, byddai hynny'n digwydd mewn ffordd niwtral pan fo'n bosib.

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am yr ymgysylltu â rhanddeiliaid o ddiwydiant y cyfryngau neu sydd â chefndir ym maes polisi cyfryngau, ac o sefydliadau sy'n cynrychioli anghenion a buddiannau pobl hŷn neu'n canolbwyntio ar broblemau rhwng y cenedlaethau – gyda phob un o'r rhain wedi'u dewis gan y BBC, gan ddefnyddio templed penodol. Mae'n deillio o'r hyn ddywedodd y BBC yn y ddogfen ymgynghori, sef y byddai "ymgysylltu â sefydliadau a rhai yr ydym yn eu hystyried fel rhanddeiliaid (yn cynnwys sefydliadau â buddiant, academyddion a chynrychiolwyr y diwydiant)".

# Tabl Cynnwys


Gair am yr adroddiad hwn........................................................................................2
Methodoleg ......................................................................................................4
Crynodeb Gweithredol...........................................................................................5
Ymgynghoriad y BBC ar ffioedd trwydded deledu ar sail oed ....................................6
Agwedd at gonsesiynau ffi trwydded deledu.............................................................14
Copïo’r consesiwn presennol.......................................................................................14
Adfer y ffi gynhwysol .................................................................................................23
Diwygio’r consesiwn ..................................................................................................31
Opsiynau ac ystyriaethau eraill ...................................................................................40
Toriadau i wasanaethau a rhaglenni ............................................................................43
Pwyso a mesur setliad ffi'r drwydded yn 2015 ............................................................46
Atodiad 1: canllaw trafod ...........................................................................................51

# Methodoleg

Cafodd 115 o randdeiliaid allweddol y BBC eu cyfweld dros y ffôn gan Populus rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2019.

Roedd y rhanddeiliaid yn perthyn i bedwar categori gwahanol – pob un â gwybodaeth berthnasol neu ddiddordeb ym mholisi consesiwn ffi'r drwydded ar sail oed, sef:

- 37 o ymatebwyr â chefndir ym maes polisi cyfryngau ("Polisi Cyfryngau"), gan gynnwys: cyfarwyddwyr melinau trafod cenedlaethol; academyddion blaenllaw sydd â diddordeb yn y cyfryngau; ac uwch gynrychiolwyr undebau'r cyfryngau.
- 42 o ymatebwyr â chefndir yn niwydiant y cyfryngau ("Diwydiant y Cyfryngau"), gan gynnwys: uwch ffigyrau mewn cwmnïau cynhyrchu ym myd y cyfryngau yn y DU, a chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gefnogi diwydiannau creadigol y DU.
- 25 o ymatebwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli anghenion a buddiannau pobl hŷn ("Grwpiau Pobl Hŷn"), gan gynnwys: cynrychiolwyr o elusennau sy'n cefnogi pobl hŷn; academyddion sydd â diddordeb mewn materion heneiddio; a'r rheini sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i fywydau pobl hŷn.
- 11 o ymatebwyr sy'n canolbwyntio ar broblemau rhwng y cenedlaethau ("Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau"), gan gynnwys: academyddion sy'n canolbwyntio ar degwch rhwng y cenedlaethau; cynrychiolwyr o elusennau sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau rhwng y cenedlaethau; a chynrychiolwyr o felinau trafod cenedlaethol sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb rhwng y cenedlaethau.

Bu rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn cyfweliadau manwl dros y ffôn, gyda phob un yn para rhwng 20 munud ac awr.

Roedd pob cyfweliad yn dilyn canllaw trafod yr oedd y BBC wedi cytuno arno (edrychwch ar yr Atodiad), ac roedd enwau pawb a gymerodd ran wedi'u tynnu o restrau hir a gytunwyd gan y BBC. Mae strwythur yr adroddiad hwn yn dilyn strwythur y canllaw trafod yn fras.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r hyn y dylid ei wneud gyda chonsesiwn Ffi'r Drwydded Deledu ar sail Oed yn arwain at drafodaethau tanllyd a safbwyntiau croes i'w gilydd ymysg rhanddeiliaid, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n ystyried y mater yn un allweddol i gymeriad a chyllid y BBC yn y dyfodol. Mae pawb yn deall cyd-destun yr ymgynghoriad a'i oblygiadau ehangach posib, hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw bob amser wybodaeth fanwl am rai o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried.

Mae rhanddeiliaid yn deall nad oes ateb 'delfrydol' i'r ffordd y dylid delio â chonsesiwn trwydded am ddim i bobl dros 75 oed: os bydd y BBC yn ysgwyddo'r baich ariannol hwn, bydd yn peryglu llawer o wasanaethau a chynnwys poblogaidd; os bydd yn ceisio addasu neu gael gwared ar y consesiwn, bydd yn peryglu gallu rhai pobl dros 75 oed, sy'n methu fforddio trwydded deledu, i ddefnyddio ei wasanaethau. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r BBC mewn sefyllfa anodd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r opsiwn gorau o'r gwaethaf o ran dyfodol y consesiwn yn amrywio o'r naill grŵp o randdeiliaid i'r llall.

Mae'r rheini o grwpiau pontio'r cenedlaethau, diwydiant y cyfryngau a pholisi cyfryngau yn tueddu i gael yr un agwedd: maen nhw'n ffafrio diwygio'r consesiwn cynhwysol, drwy ddefnyddio prawf modd yn yr un modd â Chredyd Pensiwn ar ei gyfer. Maen nhw o'r farn mai dyma'r ffordd decaf a mwyaf rhesymegol, sy'n golygu bod modd i'r consesiwn barhau i'r rheini sydd ei angen fwyaf, gan orfodi'r rheini sydd dros 75 oed, ac yn gallu fforddio, i dalu am y drwydded. Mae'r ddau syniad diwygio arall a gyflwynwyd – codi'r oed pan fydd gan bobl hawl i'r consesiwn neu leihau'r consesiwn – yn cael eu hystyried yn opsiynau rhesymol, ond yn fwy mympwyol ac yn llai effeithiol na phrawf modd. Mae llawer o bobl yn cael eu denu at y syniad o adfer ffi'r drwydded gynhwysol fel ffordd o gadw costau'r BBC yn isel, ond mae'r rhan fwyaf yn gwrthwynebu'r syniad gan ddweud nad yw'n realistig, o ystyried yr adwaith cysylltiadau cyhoeddus y byddai hynny'n debygol o'i achosi. Yr opsiwn sy'n ennyn y gwrthwynebiad mwyaf chwyrn gan y grŵp hwn o randdeiliaid yw copïo'r consesiwn presennol – cam a fyddai'n cael ei ystyried yn chwalfa ariannol i'r BBC ac yn annheg ar grwpiau tlawd eraill mewn cymdeithas, a chyfrifoldeb na ddylai'r Llywodraeth byth fod wedi'i wthio ar y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae gan randdeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau pobl hŷn agwedd gwbl wahanol. Yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio fwyaf gan y grŵp hwn oedd bod y BBC yn copïo'r consesiwn. Gwrthsefyll unigrwydd a helpu pobl dros 75 oed sy'n byw mewn caledi yw prif fanteision yr opsiwn hwn. Mae rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn yn gwrthwynebu adfer ffi gynhwysol yn chwyrn, gan eu bod yn credu bod llawer o bensiynwyr yn methu fforddio talu am drwydded deledu, ac felly na fyddai ganddyn nhw deledu. Yn yr un modd, mae'r opsiwn prawf modd yn cael ei feirniadu'n hallt gan randdeiliaid y grŵp pobl hŷn, gan y byddai'n ddrud i'w weinyddu a'i bod yn debygol na fyddai pensiynwyr bregus yn mynd ati i wneud y prawf.

# Ymgynghoriad y BBC ar ffioedd trwydded deledu ar sail oed

## Cefndir yr ymgynghoriad

Roedd gan randdeiliaid o bob grŵp wybodaeth gadarn a manwl am hanes y consesiwn presennol ar gyfer ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed. Heb gael eu cymell, cyfeiriodd llawer o bobl at yr adeg pan gafodd y polisi ei gyflwyno yn y flwyddyn 2000 gan Lywodraeth Tony Blair, a gallent sôn yn fanwl am setliad ffi'r drwydded yn 2015, a oedd yn golygu mai'r BBC fyddai'n gyfrifol am gost y consesiwn hwn o fis Mehefin 2020 ymlaen. Er mai dim ond rhai rhanddeiliaid oedd yn gallu dyfynnu'r gost ragamcanol i'r BBC yn sgil polisi ffioedd y drwydded i bobl dros 75 oed, roedd y rhan fwyaf yn gwybod ei bod yn gyfran sylweddol o gyllideb gyffredinol y BBC.

> *"Dwi'n gwybod nad yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n ariannu hynny mwyach, ac mai'r BBC sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yma bellach. Mae'r diffyg hwnnw yn sicr yn cael effaith ar gyllidebau'r BBC. Dwi'n meddwl mai yn 2020, pan fydd y mater yn dod o dan gylch gwaith y BBC yn llwyr, y bydd y BBC yn penderfynu a fydd yn parhau i gynnig trwydded am ddim i bobl dros 75 oed. Mae'n swm sylweddol o arian – yn gannoedd o filiynau – a byddai'n effeithio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y BBC, a hynny'n bur ddifrifol." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Dwi'n gwybod bod y Llywodraeth yn gwneud toriadau. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi help ariannol ar gyfer hyn yn y gorffennol, neu wedi talu amdano. Fydd y Llywodraeth ddim yn gwneud hynny mwyach, felly mae'n creu twll mawr yng nghyllideb y BBC. Felly mae'r BBC yn meddwl, 'wel, allwn ni gael gwared ar hyn?', a gydag unrhyw beth sy'n ymwneud â phobl hŷn ac arian, o safbwynt y Llywodraeth ac o safbwynt y BBC hefyd, mae'r polisi yma wedi bod ar waith erioed, felly mae'n fater eithaf anodd." Grwpiau Pobl Hŷn*

> *"Pan gafodd y setliad diweddaraf yma ar gyfer ffi'r drwydded ei sefydlu gan y Canghellor George Osborne, y cytundeb oedd y byddai'r BBC yn ysgwyddo'r £750 miliwn ar gyfer taliadau ffi'r drwydded ymhen amser. Dyna sy'n gwneud hyn yn anodd i'r BBC. Wnaeth y BBC ddim cwyno ar y pryd, felly mae wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa bur anodd. Dwi'n meddwl bod pobl yn cydymdeimlo'n fawr â'r BBC, ond ar y llaw arall, nid taro bargen oedd hyn. Dydych chi ddim yn ceisio bargeinio â'r Trysorlys, rydych chi'n ceisio dod i gonsensws." Polisi Cyfryngau*

> *"Dwi'n gwybod ychydig bach mwy am sut mae hyn wedi digwydd – cymdeithas yn heneiddio, a mwy o bobl yn byw yn hŷn na 75 oed ac yn cael trwyddedau am ddim. Mae'n rhaid i rywun dalu am hynny. Mae'r Llywodraeth yn rhoi'r baich ar y BBC. Os bydd yn parhau i wneud hynny, mae'r BBC yn dweud y bydd ansawdd rhaglenni neu nifer y rhaglenni neu wasanaethau eraill yn lleihau." Grwpiau Pobl Hŷn*

## Ymgynghoriad y BBC ar ffioedd trwydded deledu ar sail oed

Er bod y rhanddeiliaid yn wybodus iawn am hanes ffi'r drwydded, roedd eu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ei hun yn fwy amrywiol.

Doedd y mwyafrif ddim yn gwybod llawer am yr ymgynghoriad, gan nad oedden nhw ond wedi cymryd cip sydyn ar y dogfennau ymgynghori neu weld y penawdau yn y cyfryngau. Roedden nhw'n gwybod bod yr ymgynghoriad yn ystyried llawer o opsiynau, ond roedden nhw'n cael trafferth rhoi manylion heb anogaeth.

Roedd lleiafrif yn ymgysylltu llawer â'r BBC ynghylch y materion a oedd yn codi yn yr ymgynghoriad, drwy fynd i ddigwyddiadau trafod a chyfarfodydd a sesiynau briffio'r BBC, a briffio cyrff eraill sy'n

ymwneud â'r mater. Roedd llawer o'r rhanddeiliaid hyn wedi cyflwyno ymateb ffurfiol, neu wedi cyfrannu at ymatebion eu sefydliadau. Roedd y rhan fwyaf wedi siarad yn fanwl am yr opsiynau a gynigwyd, ar ôl ystyried manteision ac anfanteision pob un yn ofalus ac yn ddifrifol.

> *"Dwi'n gwybod bod y BBC yn mynd ati, yn ymgynghori ag arbenigwyr, a dwi'n siŵr ei fod yn ymgynghori â phobl eraill gan fod y Llywodraeth wedi newid y ffordd mae ffi'r drwydded yn cael ei hariannu. Felly, cafodd yr elfen am ddim i bobl dros 75 oed ei throsglwyddo i'r BBC. Mae'r BBC yn dweud nawr nad yw'n gallu fforddio hyn, ac felly mae'n gorfod gwneud rhai penderfyniadau." Grwpiau Pobl Hŷn*

> *"Dwi'n meddwl fy mod i'n ymwybodol o'r tri opsiwn mae'r BBC yn ymgynghori yn ei gylch. Ond, petaech chi'n gofyn i mi nawr beth ydy'r opsiynau hynny, byddwn i'n cael trafferth. Ond dwi'n meddwl fy mod i'n gwybod beth ydy'r tri opsiwn yn gyffredinol, ond dyna ydy pen draw fy ngwybodaeth i. Dydw i ddim wedi darllen y ddogfen ymgynghori a dweud y gwir." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Dwi'n bur gyfarwydd â'r mater; rydyn ni'n darllen y Daily Telegraph bob dydd – y papur newydd a'r wefan, ac yn gweld y sylw yn y cyfryngau'n gyffredinol. Dwi'n ymwybodol o'r ymgynghoriad ar y cynigion." Grwpiau Pobl Hŷn*

> *"Dim llawer, a bod yn onest gyda chi. Dydw i ddim yn ymwybodol iawn o'r diweddaraf." Grwpiau Pobl Hŷn*

> *"Cryn dipyn. Dwi wedi bod mewn un cyfarfod gyda Purnell ac wedi darllen y ddogfen. Yn wir, mae gen i'r ddogfen yn y fan yma gan fy mod i ar fin ymateb fy hun. Dwi wedi darllen am safbwynt Enders Analysis hefyd, ac yn cytuno â'r safbwynt hwnnw." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Dim rhyw lawer. Dwi wedi darllen y datganiadau, ond dydw i ddim wedi ystyried y mater yn fanwl o gwbl. Dydw i ddim wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau na dim byd felly." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Cryn dipyn. Yr unig beth dydw i ddim wedi'i wneud ydy darllen ymgynghoriad y BBC yn fanwl iawn – y dogfennau – ond dwi'n ymwybodol iawn o'r cefndir." Polisi Cyfryngau*

Cyn asesu pob opsiwn a gynigwyd ar wahân, dywedodd y mwyafrif nad oedd 'ateb delfrydol'. Ni waeth pa opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod y penderfyniad yn un anodd ei wneud, ac na fyddai neb yn ennill. Ar y naill law, roedden nhw'n gweld y byddai'r BBC yn ysgwyddo baich ariannol mawr, a allai olygu bod defnyddwyr gwasanaeth (gyda chyfran fawr ohonyn nhw dros 75 oed) yn colli gwasanaethau pwysig ac maen nhw'n eu mwynhau. Ar y llaw arall, roedd y garfan o bobl dros 75 oed a fyddai'n methu fforddio trwydded deledu, ac a fyddai'n colli mynediad at lawer o wasanaethau'r BBC gan eu bod yn methu talu.

> *"Mae'n amlwg bod y BBC yn wynebu dewis eithaf anodd. Bydd naill ai'n gorfod tynnu rhywbeth oddi wrth ei gwsmeriaid mwyaf ffyddlon fel petai, neu pe byddai'n cadw'r drwydded deledu am ddim byddai hynny'n gofalu am eu buddiannau nhw, ond byddai'n golygu bod gwasanaethau'r BBC yn dirywio mewn rhyw ffordd. Mae'n siŵr y byddai hynny'n gwneud y BBC hyd yn oed yn llai deniadol i'r gynulleidfa iau, sy'n llai ffyddlon i un darlledwr ac sy'n defnyddio mwy o amrywiaeth o gyfryngau yn sgil Netflix a'r gwasanaethau eraill newydd hyn sydd ar gael. Mae'n amlwg bod angen i'r BBC ddenu'r gynulleidfa yma os am barhau i fod yn hyfyw yn y dyfodol, yn fwy felly na darlledwyr eraill." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Dydy hyn ddim yn mynd i fod yn boblogaidd, ni waeth beth, fel unrhyw beth. Os byddwch chi'n tynnu rhywbeth oddi wrth bobl, na ydy'r ateb gewch chi fel arfer. Ac eto bydd rhai pobl – fel gyda phensiwn y wladwriaeth a rhai budd-daliadau, fel gaeaf caled, wyddoch chi, lwfans tanwydd gaeaf – a fyddai'n dweud, 'Ylwch, mae gen i dipyn o arian. Does dim angen y pethau hyn arna i'. Felly mae hi'n anodd iawn." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae'r cwestiwn ynghylch beth ddylai'r BBC ei wneud yn wahanol i'r cwestiwn ynghylch beth y dylid ei wneud o ran consesiynau ffi'r drwydded. Fy marn sylfaenol i ydy bod hyn yn fater o bolisi cymdeithasol, a'r Llywodraeth sy'n tueddu i ddelio â hynny. Ond, mae rhywun yn cydnabod mai'r rheswm y mae'r BBC yn gofyn y cwestiwn ydy oherwydd bod y BBC wedi cytuno â'r Llywodraeth yn ôl ym mha bynnag flwyddyn – 2017 – y byddai hyn yn un o elfennau'r cytundeb ar gyfer ariannu ffi'r drwydded wrth symud ymlaen. Mae'n rhywbeth mae'n rhaid i'r BBC ddelio ag ef, ac mae'n rhaid iddo ddod o hyd i ateb ar ei gyfer. Petai'r Llywodraeth yn delio â'r mater yma ei hun, fel y byddai'n fwy priodol, byddai'n gwestiwn gwahanol." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae'n siŵr ei fod yn anodd, oherwydd beth ydy'r opsiwn iawn? Mae 'na opsiwn sy'n synhwyrol o safbwynt gwleidyddol. Yn fy marn bersonol i – a dwi wedi meddwl hyn erioed – mae'n bolisi annoeth. Felly, a chymryd y bydd popeth arall yr un fath, byddwn i'n dweud mai dod o hyd i ffordd o gael gwared ar y consesiwn ydy'r opsiwn iawn a dweud y gwir. Dwi'n gallu gweld bod hynny'n eithaf anodd yn wleidyddol. Dwi'n meddwl bod y BBC mewn sefyllfa anodd." Polisi Cyfryngau*

*"Dwi'n sylweddoli bod y BBC, yn y bôn, yn y canol rhwng dau ddewis amhoblogaidd. Mae ganddo benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud ynghylch hyn, ond yn y pen draw, mae hi'n dasg ddiddiolch. Dydw i ddim yn gweld sut gall y BBC ennill o gwbl yn y sefyllfa yma. Os meddyliwch chi pwy ydy cynulleidfa'r BBC – fwy a mwy, cynulleidfa hŷn sydd wedi aros yn driw i'r BBC gydol eu hoes a dweud y gwir – a bydd hi'n gynulleidfa arall sydd wedi cael cam. Felly mae hi'n sefyllfa anodd." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Yn eithaf ymwybodol. Dwi'n ymwybodol o'r goblygiadau ariannol. Dwi'n ymwybodol y gellid dadlau bod y Llywodraeth wedi rhoi tipyn o her i'r BBC yn hyn o beth. Dwi'n deall y sefyllfa ar y cyfan, ond hefyd yn deall ei bod yn her anodd i'r BBC." Grwpiau Pobl Hŷn*

O ystyried consensws y rhanddeiliaid na ddylid byth fod wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu ffioedd y drwydded ar gyfer pobl dros 75 oed i'r BBC, yr opsiwn gorau i'r rhan fwyaf o randdeiliaid ymysg yr holl grwpiau rhanddeiliaid – ac i rai, yr *unig* ateb – oedd rhoi'r ddyletswydd hon yn ôl yn nwylo'r Llywodraeth, ei phriod le yn eu barn nhw. Roedd llawer yn cofio addewid y Prif Weinidog, Theresa May, yn y maniffesto yn 2017 y byddai pensiynwyr yn dal i gael trwydded deledu am ddim – ac yn credu mai cyfrifoldeb ei Llywodraeth hi, yn hytrach na'r BBC, yw cadw'r addewid neu dorri'r ymrwymiad hwnnw. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn derbyn y byddai'r BBC yn wynebu adwaith sylweddol o ran cysylltiadau cyhoeddus am gael ei weld yn tynnu'r cytundeb yn ôl, a bod perygl iddo wylltio a chodi cywilydd ar y Llywodraeth o bosib. Ond roedden nhw'n dal i fynnu mai dyma'r peth iawn i'w wneud, i'r BBC ac i'r wlad. Roedd y rhanddeiliaid hyn o blaid cam o'r fath yn sylfaenol, ac roedd y rheini yn niwydiant y cyfryngau a oedd â'r farn hon yn teimlo y byddai'r diwydiant yn cefnogi'r BBC.

Er hynny, roedd llawer o'r rhanddeiliaid a oedd wedi galw am roi'r cyfrifoldeb dros gonsesiwn ffi'r drwydded yn ôl yn nwylo'r Llywodraeth hefyd yn teimlo nad oedd yr opsiwn hwn yn realistig. Roedden nhw'n teimlo nad oedd y BBC, ar ôl cytuno ar setliad ffi'r drwydded yn 2015, mewn sefyllfa i fynnu nawr bod y Llywodraeth yn ailysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y polisi. I'r rhanddeiliaid hyn, roedd y cytundeb wedi'i wneud ac roedd y BBC yn gaeth i'w gyfrifoldebau. Roedden nhw'n amau a fyddai'r Llywodraeth, bedair blynedd yn ddiweddarach, yn ailystyried y cytundeb ac yn ailysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gonsesiwn ffi'r drwydded.

*"Mae ein safbwynt ni yn glir iawn – all y BBC ddim talu am y cymhorthdal hwnnw, sy'n golygu y bydd yr esemptiad i bobl dros 75 oed yn diflannu. Ond yn bwysicach o lawer, mae'n golygu bod y BBC yn gwrthod ei ariannu ac yn trosglwyddo'r mater yn ôl i'r Llywodraeth. Dwi'n credu'n gryf y dylai cynaliadwyedd y budd-dal lles hwnnw fod yn flaenoriaeth i bleidiau gwleidyddol, ac mai nhw ddylai ei ariannu. Ni ddylai ddod o arian y cyhoedd sy'n talu ffi'r*

*drwydded. Er gwaethaf y cytundeb mae'r BBC wedi ymrwymo iddo, dydw i ddim yn teimlo y dylai gyflawni'r ddyletswydd honno a rhoi ei hun mewn sefyllfa lle mae'n cael gwared ar y consesiwn neu'n newid y trothwy oed ac yn potsian ag ef. Bydd yn wynebu adwaith enfawr os bydd yn gwneud hynny. Dylai'r BBC fod yn onest iawn a dweud na all fforddio gwneud hyn a dweud y gwir, heb gael effaith aruthrol ar yr hyn mae'n ei ddarparu o ran ei gylch gwaith. Felly, yn anffodus, dydy'r BBC ddim yn gallu cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, ac mae angen iddo drosglwyddo'r mater yn ôl i'r Llywodraeth er mwyn datrys y sefyllfa. Dyna beth ddylai wneud, a dylai fod yn ddigyfaddawd yn wleidyddol wrth wneud hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Y peth iawn i'w wneud ydy dweud wrth y Llywodraeth am dderbyn ei chyfrifoldebau yn ôl. Nid rôl y BBC, fel sefydliad adloniant os mynnwch chi, ydy delio â lles ariannol pobl na'u lles fel arall. Ers blynyddoedd lawer, mae'r drwydded deledu wedi bod yn rhan o'r hyn rydym yn ei alw'n fuddion cyffredinol i bensiynwyr, ynghyd â phethau fel Lwfans Tanwydd Gaeaf, pàs bws a phresgripsiynau am ddim. Y rheswm am hynny ydy bod y naill lywodraeth ar ôl y llall wedi methu delio â'r ffaith mai Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth yn y DU ydy'r un lleiaf digonol yn y byd datblygedig. Rydyn ni yn safle rhif 37 ar hyn o bryd, ar waelod y tabl, o blith 37 o wledydd OECD. Mae'r Llywodraeth wedi chwarae tric budr. Fe addawodd Theresa May y byddai'r drwydded deledu am ddim yn ddiogel yn ei dwylo hi, a deufis yn ddiweddarach rydyn ni'n cael gwybod bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i gwthio ar y BBC fel rhan o'i Siarter newydd. Nid y BBC sydd ar fai, y Llywodraeth sydd ar fai. Yn anffodus, mae gan y BBC y dasg anodd o geisio gweld beth mae'n gallu ei fforddio a beth nad yw'n gallu ei fforddio. Ond mewn gwirionedd, mae angen i'r cyfrifoldeb fynd yn ôl i'r Llywodraeth yn llwyr. Dyna ydy ein hymgyrch ni, fel y bu o'r dechrau." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n cael fy nhemtio i ddefnyddio iaith anniplomataidd, a bod y BBC yn dweud wrth y Llywodraeth am fynd i'r diawl. Yn ymarferol, dwi'n meddwl bod y BBC wedi cael ei roi mewn sefyllfa amhosibl gan y Llywodraeth yn fwriadol. Mae'n gwbl amhriodol bod y BBC yn cael ei roi mewn sefyllfa lle mae, i bob pwrpas, yn gwneud penderfyniadau am bolisi lles. Y cwestiwn ydy, sut gall y BBC ddelio â hyn heb ddenu adwaith o ran cysylltiadau cyhoeddus, a heb roi'r argraff mai'r BBC sydd ar fai am gael gwared ar rodd, i bob pwrpas, i bobl dros 75 oed." Polisi Cyfryngau*

*"Mae'r cwestiwn a ddylai pobl dros 75 oed dalu ffi'r drwydded ai peidio yn fater sy'n ymwneud â pholisi cymdeithasol a ddylai gael ei osod a'i bennu gan y Senedd a'r Llywodraeth, nid y BBC. Dydy hwn ddim yn fater y dylai'r BBC fod yn llwyr gyfrifol amdano." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Ein safbwynt ni ydy na ddylai'r BBC fod yn gyfrifol am y consesiwn yma o gwbl. Y Llywodraeth ddylai fod yn gyfrifol amdano, ac rydyn ni eisiau i'r cyfrifoldeb hwnnw gael ei drosglwyddo'n ôl i'r Llywodraeth. Dydy hi ddim yn deg iawn bod y BBC yn ymwneud â rhywbeth sydd, i bob pwrpas, yn bolisi cymdeithasol. Nid dyna ydy cylch gwaith y BBC mewn gwirionedd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Yn y pen draw, yn ein barn ni, naill ai [diwygio] neu drosglwyddo'r gost gyfan, yn llythrennol, yn ôl i'r Llywodraeth! Un o'r ddau opsiwn hynny, yn syml iawn. Y sefyllfa orau bosib fyddai bod y Llywodraeth yn ailysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y mater. Ar lefel ymarferol, mae hynny'n teimlo'n annhebygol." Polisi Cyfryngau*

## Pryderon am ymgynghoriad y BBC

Rhannodd rhai o'r rhanddeiliaid amheuon am y ffordd roedd y BBC wedi mynd ati i gynnal a delio â'r ymgynghoriad ar y polisi ffi drwydded deledu ar sail oed. Roedd y feirniadaeth yn tueddu i berthyn i ddwy thema eang.

Yn gyntaf, roedd nifer o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau yn credu nad oedd y BBC, er mwyn ceisio cael ei weld yn ddiduedd am ganlyniad yr ymgynghoriad, wedi cyfleu ei 'safbwynt' ei hun

yn ddigon da. Roedd y rhanddeiliaid hyn wedi gweld yr ymgynghoriad yn gyfle i ailddatgan gwerth y BBC, i ddathlu ansawdd ei wasanaethau ac i gychwyn trafodaeth yn fwy eang â'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded. Roedden nhw'n meddwl bod gan y BBC gyfrifoldeb i fod yn onest ac yn agored gyda'i gynulleidfaoedd am yr heriau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r consesiwn a'i effaith ymarferol ar wasanaethau a rhaglenni – ac roedden nhw'n argyhoeddedig y byddai hyn yn arwain at brotestiadau gan y cyhoedd yn erbyn consesiwn ffi'r drwydded sy'n cael ei ariannu gan y BBC.

Felly roedd y rhanddeiliaid hyn yn siomedig nad oedd y BBC wedi mynd ati i ymgyrchu yn erbyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y consesiwn, nac wedi cyfleu'r goblygiadau 'echrydus' ymddangosiadol iddo yn sgil ysgwyddo cost y consesiwn yn llawn. Roedden nhw'n poeni nad oedd y cyhoedd yn sylweddoli bod dyfodol y BBC yn y fantol, ac mai dim ond y rheini sydd â budd yn y mater, fel cynulleidfaoedd sydd dros 75 oed a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli, oedd wedi cyflwyno ymateb, gan wyro canlyniadau'r ymgynghoriad o bosib.

> *"Yr hyn sy'n fy mhoeni i dwi'n credu ydy'r cydbwysedd syml iawn, iawn hwnnw – os ydych chi'n mynd i roi rhywbeth am ddim i gyfran o gartrefi, po fwyaf ydy'r gyfran honno y lleiaf o arian fydd ar gael i dalu am raglenni ar y teledu a'r radio. Gan ein bod ni'n gwybod bod teledu a radio yn bwysig i bobl hŷn, yn arbennig o bwysig i bobl hŷn, mewn gwirionedd pobl hŷn fydd yn dioddef fwyaf. Dydw i ddim yn meddwl bod y cydbwysedd syml hwnnw wedi cael ei gyfleu'n ddigon da." Polisi Cyfryngau*

> *"Dwi'n teimlo'n gryf bod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi colli cyfle mewn ffordd i gael trafodaeth ehangach ac i ymgysylltu â'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded am ddyfodol y BBC ac, yn benodol, cynaliadwyedd y dull o'i ariannu. Mae'n ymgynghoriad cynnil iawn ynghylch rhoi trwyddedau i bobl dros 75 oed. Er bod y cyd-destun yn egluro sefyllfa'r BBC yn eithaf da – dwi'n gwybod ei fod yn eithaf clir yn yr ymgynghoriad hwnnw – nid yw'n rhoi cyfle i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded roi eu barn am y ffordd y bydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gynnal, ac y bydd ansawdd ac ehangder y gwasanaethau yn cael eu sicrhau yn y dyfodol. Dwi'n teimlo'n gryf iawn y byddai rhan sylweddol o'r boblogaeth sy'n talu ffi'r drwydded yn fodlon talu mwy, neu a fyddai'n fodlon cefnogi'n gryf y ffaith y dylid cynyddu setliad ffi'r drwydded y BBC yn sylweddol. Dwi'n meddwl y byddai hynny wedi rhoi'r BBC mewn sefyllfa gryfach o lawer o ran ei drafodaethau a'i negodiadau parhaus pan fydd y siarter yn cael ei hadnewyddu." Polisi Cyfryngau*

> *"Dwi'n meddwl ei fod yn gyfnod peryglus iawn i wneud hyn, ac i'r wlad gyfan, oherwydd gwerth y BBC i bob un ohonom – gwae ni os byddwn ni'n tanbrisio hynny. Dwi'n meddwl bod y BBC yn gwneud drwg iddo'i hun o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus weithiau, o ran sut mae'n gwerthu ei hun yn hynny o beth." Diwydiant y Cyfryngau*

> *Fy mhryder i am yr ymgynghoriad ydy bod y ddogfen ymgynghori braidd yn gymhleth, gan fod y BBC – yn gwbl briodol – yn ofalus dros ben ac yn mynd i lawer o drafferth i egluro'r cefndir ac ati. Mae'n rhaid i rywun sydd ar frys ddarllen 12 tudalen o eglurhad cyn gweld yr holiadur, ac wedyn maen nhw i fod i ddarllen llawer mwy o dudalennau. Dwi'n meddwl bod gen i'r ymgynghoriad yma o fy mlaen i, oes; maen nhw i fod i ddarllen 50 tudalen i gyd cyn cyrraedd yr holiadur, ac wedyn mae'r ymgynghoriad yn argymell eu bod yn darllen adroddiad 88 tudalen gan Frontier a hefyd, yn ddelfrydol, y papur trafod 26 tudalen gan Frontier. Wel, wyddoch chi, mae hynny'n amlwg yn mynd i gyfyngu'r ymatebion i'r bobl hynny sy'n teimlo fwyaf cryf am y mater yma, neu sydd ag achos i deimlo'n gryf – sef rhai o'r bobl a fydd yn elwa o'r consesiwn." Polisi Cyfryngau*

> *"Dwi'n gwybod llawer am hyn, a dwi wedi bod yn annog pawb dwi'n eu hadnabod i fynd ar-lein, llenwi'r ffurflen a gwneud eu rhan. Fy mhryder i ydy – sy'n anochel braidd o ystyried natur pethau fel hyn – mai'r mwyafrif helaeth o bobl a fydd yn mynd ar-lein ac yn gwneud eu rhan fydd y bobl sydd, yn gyntaf, â budd personol yn y sefyllfa, ac yn ail, sydd dros 75 oed eu hunain.*

*Dwi'n ofni y bydd yr atebion wedi'u gwyro ychydig yn sgil hynny, ond does dim llawer y gellir ei wneud am hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

Mewn cyferbyniad llwyr, roedd nifer o randdeiliaid o'r grŵp pobl hŷn yn credu bod yr ymgynghoriad wedi'i wyro yn isymwybodol mewn ffordd a oedd yn gwrthwynebu bod y BBC yn copïo'r consesiwn presennol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn amau asesiad Frontier Economics bod safon byw aelwydydd hŷn wedi gwella'n sylweddol yn gyffredinol. Roedden nhw hefyd yn ddig â'i naratif a oedd yn anwybyddu'r nifer fawr o bobl dros 75 oed sy'n dal i fyw mewn tlodi ac sy'n ddibynnol ar eu trwyddedau teledu, ac yn chwarae ar y tensiynau rhwng pobl hŷn a phobl ifanc drwy gyfleu hyn fel mater o degwch rhwng y cenedlaethau. Roedden nhw'n teimlo na ddylid beio pobl dros 75 oed am amgylchiadau'r BBC, nac amgylchiadau pobl iau.

Roedd rhai hefyd yn meddwl bod yr ymgynghoriad ei hun wedi'i gynllunio mewn ffordd a fyddai'n anghyfleus i bobl dros 75 oed, drwy ddefnyddio holiadur a oedd yn cael ei ystyried yn hir a chymhleth ac a oedd ar gael ar-lein yn unig.

*"Mae'r ymgynghoriad yn sôn yn rhywle am degwch, ac mae'n cyfeirio at annhegwch rhwng y cenedlaethau. Dydy creu'r math hwnnw o densiwn mewn rhywbeth amherthnasol ddim yn help o gwbl, a dwi'n meddwl tybed ar beth roedd hynny wedi'i seilio; a oedd hwn wir yn bwnc lle dylid sôn am hynny. Eto, mae'n ymddangos ei fod yn mynd yn gwbl groes i gynlluniau eraill y Llywodraeth a pholisïau eraill y Llywodraeth: fel hyrwyddo cydweithio rhwng y cenedlaethau, a chyfnewid a chyfathrebu rhwng y cenedlaethau – am bob math o resymau – gan gynnwys gwrthsefyll unigrwydd. Mae sôn am annhegwch rhwng y cenedlaethau yn ymddangos yn gwbl ddiangen a dweud y gwir, ar gyfer rhywbeth fel trwydded deledu. Pam fyddech chi'n gwneud hynny? Felly doeddwn i ddim yn teimlo'n gyfforddus â hynny o gwbl." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y ddogfen, yn yr holiadur ei hun, yn nogfen yr arolwg, yn eithaf cymhleth. Byddai'n eithaf hawdd camddehongli'r cwestiwn cyntaf yn arbennig, sy'n bur allweddol ac yn gofyn a ddylid gwneud hyn yn gynhwysol? Petaech chi'n ei ddarllen yn gyflym fe allech chi feddwl, o, rydyn ni'n cadw'r consesiwn yma i bawb. Ond, mae'n golygu na fydd y consesiwn ar gael i neb. Dwi'n meddwl bod pethau felly braidd yn anffodus a dweud y gwir, byddai'n ddiddorol gweld a ydy pobl wedi llwyddo i ateb y cwestiwn hwnnw ai peidio. Fe wnes i siarad â rhywun yn ystod y ddwy awr ddiwethaf a oedd yn dweud ei fod yn meddwl bod yr ymgynghoriad yn ddiffygiol, gan nad oedd yn cynnwys darpariaeth a oedd yn dweud na ddylai'r BBC fod yn ymwneud â'r peth o gwbl. Yn syml iawn dylai wrthod gwneud hyn, a rhoi'r mater yn ôl yn nwylo'r Llywodraeth. Felly, o'r safbwynt hwnnw, mae'n bosib bod opsiynau eraill ar gael." Grwpiau Pobl Hŷn*

## Tegwch rhwng y cenedlaethau

O'u cymharu â rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn, roedd rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a llawer o'r rhanddeiliaid o ddiwydiant y cyfryngau o'r farn bod y dadleuon a wnaed am degwch rhwng y cenedlaethau yn adroddiadau Frontier Economics yn gadarn ac yn gywir. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn honni bod tystiolaeth wedi dangos bod safon byw cenedlaethau hŷn yn gyffredinol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd blaenorol, a bod tlodi ymysg pensiynwyr wedi lleihau yn y DU. Ar y llaw arall, roedden nhw'n mynnu bod gennym yn awr genhedlaeth o aelwydydd sy'n gweithio ac sydd ar gyflogau is, sydd â safon byw is ac sydd â rhagolygon heriol o ran tai. Yn eu barn nhw, mae'r cenedlaethau iau hyn yn dioddef llawer mwy o galedi na'r genhedlaeth hŷn gyfatebol sydd, erbyn hyn, yn cael ei hystyried fel y genhedlaeth hŷn gyfoethocaf mewn hanes.

Roedd y safbwynt hwnnw am gymdeithas wedi gwneud i lawer o'r rhanddeiliaid hyn gwestiynu rhesymeg rhoi trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed. Er bod y grŵp hwn yn deall bod pocedi o bobl dros 75 oed yn dal i fyw mewn tlodi, ar y cyfan, y farn oedd y gallai pobl dros 75 oed fforddio

cost trwydded deledu. Doedd hi ddim yn ymddangos yn rhesymegol i'r grŵp hwn mai cenedlaethau iau, tlotach sydd prin yn gallu fforddio cost trwydded, ac sydd ddim yn defnyddio rhyw lawer ar gynnwys y BBC (os ydyn nhw'n ei ddefnyddio o gwbl), ddylai fod yn 'talu'r bil' ar gyfer y genhedlaeth hŷn, gyfoethocach sy'n defnyddio llawer ar y BBC.

I'r rhan fwyaf, roedd y teimlad hwn yn eu cymell i gefnogi adfer y ffi gynhwysol neu brawf modd ar gyfer pobl dros 75 oed. Roedd gan nifer lai safbwynt ehangach ac yn galw am brawf modd sy'n seiliedig ar amgylchiadau economaidd pob aelwyd, nid dim ond ar gyfer y rheini sydd dros 75 oed – o ystyried y caledi economaidd ymddangosiadol y mae grwpiau iau yn ei wynebu.

> *"Mae gennym dystiolaeth dda sy'n dangos bwlch sylweddol a chynyddol rhwng statws economaidd-gymdeithasol pobl ifanc o'i gymharu â phobl hŷn. Er bod anghydraddoldebau sylweddol ym mhob cenhedlaeth, fel grŵp mae pobl hŷn yn dod yn fwy cyfoethog, ac yn llawer mwy cyfoethog na phobl iau sy'n cael trafferth cyrraedd lefelau cenedlaethau blaenorol o ran naill ai incwm ar yr un adeg mewn bywyd, neu gronni cyfoeth yn gyffredinol." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Dwi'n ymwybodol o'r gwaith ymchwil sydd wedi cael ei wneud ar ran y BBC am annhegwch cymdeithasol y polisi hwnnw, a'r ffaith bod tlodi'n bodoli ar bob lefel ac ym mhob grŵp oed mewn cymdeithas. Mae dewis dim ond yr henoed i'w weld braidd yn annheg. Yn enwedig gan fod y grŵp yma o bobl dros 75 oed – y genhedlaeth gyfoethocaf o bensiynwyr mewn cof mae'n siŵr, os nad erioed – sef cenhedlaeth y cynnydd wedi gwneud yn eithriadol o dda. Efallai nad felly fydd hi yn y dyfodol, gan nad oes gan bobl ddarpariaethau pensiwn cystal ag y dylent eu cael. Ond, dwi ddim yn meddwl y dylid ystyried mynediad at deledu yn yr un ffordd â mynediad at fwyd a lloches a gwres. Dydy hyn ddim yn hawl dynol sylfaenol. Moethusrwydd ydy hynny yn fy marn i. Dwi'n derbyn y pwynt y gallai fod, mewn gwirionedd, y llais unig olaf yng nghornel yr ystafell i rai pobl, ond dwi yn meddwl ei bod yn rhaid i ni edrych ar y mater. Dydy hyn ddim yn rhywbeth hanfodol. Dwi'n meddwl bod angen i ni edrych ar ffyrdd o ddefnyddio prawf modd i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei dargedu'n briodol ar gyfer y bobl hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Dydyn ni ddim yn meddwl bod newid yr oed yn gwneud dim mewn gwirionedd. Ond rydyn ni'n credu bod cydbwysedd budd economaidd, am y tro cyntaf ers amser maith, wedi symud i'r genhedlaeth hŷn. Ddim yn llwyr, ond yn amlwg byddai nifer o bobl dros 75 oed sy'n elwa o'r consesiwn yn gallu fforddio talu ffi'r drwydded yn hawdd a nhw, mewn gwirionedd, ydy rhai o brif ddefnyddwyr, os mynnwch chi, y defnyddwyr mwyaf o wasanaethau'r BBC. Rydyn ni'n cydnabod hynny. Rydyn ni'n cydnabod ei bod yn rhaid i'r BBC wario mwy ar gynnwys a buddsoddi mwy mewn cynnwys. Os ydy'r arian yn mynd i gael ei godi, ein safbwynt ni ydy y dylai'r arian gael ei wario ar gynnwys ar gyfer categorïau demograffig eraill sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol – sef pobl o dan 35 oed, neu yn wir, pobl o dan 50 oed hyd yn oed – ac nad yw'n arian sydd ond yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cronfeydd pensiwn neu gynnal mentrau eraill." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Pam dewis pobl dros 75 oed yn unig fel pobl sydd ar incwm isel? Dyna fyddai'r cwestiwn, pam fyddech chi'n rhoi'r £740 miliwn hwnnw i bobl dros 75 oed? Mae cryn newid wedi digwydd, ac mae buddion pensiwn wedi cynyddu'n gyflymach o lawer na buddion eraill. Mae'r ganran o bensiynwyr sydd o dan y ffin tlodi yn is o lawer erbyn hyn." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Dwi'n meddwl bod deall sefyllfa ariannol pobl hŷn yn broblem sylfaenol, yn enwedig ar hyn o bryd. Mae gennym rai pobl hŷn sy'n byw'n gyfforddus iawn ac yn elwa o'r hen fath o bensiwn, sef y pensiwn buddion diffiniedig." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Pan rydyn ni'n edrych ar dlodi nawr, dwi'n gwybod bod teimlad penodol – dwi wedi'i weld yn yr erthyglau hynny – nad y genhedlaeth hŷn ydy'r genhedlaeth dlawd mewn gwirionedd, ac felly y byddai rhoi trwydded deledu am ddim i bobl hŷn yn gallu cael ei ystyried yn annheg. Mae teimlad cyffredinol am hynny. Beth ydy fy nheimladau i? Wel, £150 ydy'r swm. Felly dydw i ddim yn meddwl bod sôn am ailddosbarthu rhwng y cenedlaethau yn gwneud llawer o*

*wahaniaeth, oherwydd pan rydyn ni'n sôn am ailddosbarthu rhwng y cenedlaethau, rydyn ni'n sôn am symiau enfawr o arian yn sgil prisiau tai a phensiynau. Cynnydd yng ngwerth tai, rydyn ni'n sôn am symiau sylweddol o arian. Mae'r drwydded deledu yn ddibwys o'i chymharu â'r trosglwyddiadau enfawr hynny. Dyna fyddai un sylw, mae'r problemau rhwng y cenedlaethau yn eithaf pitw. Dau, mae'n ymddangos yn syniad da, ond pam dewis pobl dros 75 oed yn unig... Mae gwneud rhyw eithriad gyda ffi'r drwydded deledu i bobl ar incwm isel i'w weld yn bolisi rhesymol. I bob pwrpas, dylid ailddosbarthu drwy ddidynnu o drethi. Mae trethi'n gallu cael eu hailddosbarthu, ond mae'r drwydded deledu yn cael ei neilltuo'n benodol iawn, felly mae hynny'n broblem braidd. Mae'n well o lawer ailddosbarthu drwy'r system drethi na drwy'r drwydded deledu." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dwi'n meddwl bod consesiynau i bobl sy'n cael mwy o drafferth talu yn ddefnyddiol yn gyffredinol, oherwydd dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth, beth bynnag ydy eu hincwm.  Ond, dydw i ddim mor argyhoeddedig y dylid gwneud hynny ar sail oed, yn hytrach na rhyw ffordd o fesur incwm. Dwi'n deall y cymhlethdodau o wneud hynny ac o geisio ei wneud mewn ffyrdd gwahanol, ond mae llawer o bobl dros 75 oed sydd â digonedd o arian, a llawer o bobl o dan 25 oed sydd heb lawer o arian ac y gellid dadlau sydd angen yr help llawn cymaint." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Os ydyn nhw'n cael eu rhoi o gwbl, dylid eu rhoi ar sail angen, yn hytrach nag ar sail oed. Felly ni ddylai pobl gyfoethog, fel fy rhieni i, gael rhodd o £150 y flwyddyn yn ddi-dreth." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Mae'n gwneud rhagdybiaeth gyffredinol am bobl dros 75 oed. Fydden ni ddim yn cefnogi hynny, oherwydd mae rhai ohonyn nhw'n perthyn i'r categori hwnnw, a dydy rhai ohonyn nhw ddim. Mae amrywiaeth fawr o bobl yn perthyn i'r categori o fod ag angen teledu neu radio fel cwmni iddynt, neu fel gwasanaeth neu fel rhywbeth sy'n bwysig i'w bywyd, ac sy'n methu fforddio hynny o bosib. Dwi'n meddwl y dylen nhw gysylltu'r drwydded deledu â budd-dal anabledd o bosib, er enghraifft. Os ydych chi'n cael budd-dal anabledd, byddech chi'n cael trwydded deledu am ddim, yr holl bethau hynny. Os ydych chi'n cael Lwfans Gofalwr, neu os ydych chi'n cael Lwfans Gweini, er enghraifft. Efallai fod rhagdybiaeth yn hynny o beth eich bod chi wedi cyrraedd cam mewn bywyd lle nad ydych chi'n gallu gadael y tŷ ar eich pen eich hun. Yna rydych chi yn y sefyllfa unig honno. Yn hytrach na seilio hyn ar oed, sydd ddim yn ddangosydd da iawn o beth mae pobl yn gallu ei wneud, neu beth sydd ei angen arnyn nhw." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Byddwn i wedi meddwl y dylid cael consesiynau, ond bod rhyw ffordd o gael hynny'n ôl ar ffurf treth incwm ar gyfer y rheini sy'n dal i dalu treth incwm. Dyma'r pethau sy'n newid o ran treth incwm pan rydych chi'n 75 oed, ac efallai na fydd hyn yn effeithio ar nifer fawr o bobl. Ond os byddai rhyw ffordd o ychwanegu hyn at dreth incwm ar gyfer pobl sydd uwchben rhyw drothwy eithaf isel, dwi'n meddwl y byddai hynny'n deg." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

# Agwedd at gonsesiynau ffi trwydded deledu

Cafodd yr holl randdeiliaid eu holi yn eu tro am y tri opsiwn cyffredinol yn nogfen ymgynghori'r BBC: 1) copïo'r consesiwn presennol, 2) adfer ffi'r drwydded gynhwysol, a 3) diwygio'r consesiwn.

O ran yr opsiynau consesiwn, roedd safbwyntiau rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau yn wahanol iawn i safbwyntiau rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn. Felly, mae pob opsiwn isod wedi'i rannu yn ôl y ddau gategori ehangach hyn o randdeiliaid.

## Copïo'r consesiwn presennol

### Rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau

#### Ymateb cyffredinol

Copïo'r consesiwn presennol oedd yr opsiwn lleiaf poblogaidd ymysg rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau, a'r un a ddenodd yr ymateb cryfaf. Rhoddodd rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau nifer o resymau dros wrthwynebu'r opsiwn o gopïo'r consesiwn presennol. Yn wir, rhoddodd llawer o bobl ddau neu dri o'r rhesymau isod, ac0000 roedden nhw'n teimlo bod pob un o'r rhesymau yn ddigon cryf ar eu pen eu hunain i ddiystyru copïo'r consesiwn fel ateb ymarferol.

#### Gwrthwynebu: y gost i'r BBC

Y rheswm mwyaf cyffredin ymysg rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau dros wrthwynebu copïo'r consesiwn presennol oedd y gost i'r BBC. Roedd nifer ohonyn nhw'n ymwybodol o'r gost a gyfrifwyd gan Frontier Economics (£745m, sy'n cyfateb i tua un rhan o bump o gyllideb bresennol y BBC), ond roedd y rheini nad oedden nhw'n ymwybodol o hynny yn tybio y byddai'r gost yn ormod i'r BBC ei hysgwyddo, heb fod ansawdd ei wasanaethau yn dirywio'n sylweddol. Roedden nhw'n dadlau bod hyn yn golygu bod yr opsiwn yn annheg wrth ystyried pawb sy'n talu ffi'r drwydded – ac nid dim ond y rheini sydd dros 75 oed – oherwydd yr effaith y byddai'n ei chael ar ansawdd ac amrywiaeth y rhaglenni, y cynnwys a'r gwasanaethau, ac y byddai holl ddefnyddwyr y BBC yn teimlo'r effaith honno. Ychwanegodd rhai hefyd y byddai'r baich ariannol ar y BBC yn parhau i gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.

> *"Os bydd yn rhaid iddo wneud hynny, yr hyn sy'n annheg ydy y byddai'r gwasanaeth a fyddai'n cael ei ddarparu yn lleihau. Mae problemau gyda'r consesiwn ei hun, o ystyried ein bod mewn byd lle nad ydy hi'n wir mwyach bod pawb dros 75 oed yn dlawd ac yn brin o adnoddau. Dwi'n siarad fel aelod o aelwyd sy'n cynnwys rhywun dros 75 oed. Rydyn ni wedi mynd ati'n fwriadol i beidio â hawlio ein gostyngiad gyda ffi'r drwydded, oherwydd rydyn ni'n credu bod angen yr arian ar y BBC ac rydyn ni'n bersonol yn gallu ei fforddio." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Dwi'n gwrthwynebu gan nad ydy'r consesiwn yn gwahaniaethu o blaid y bobl sydd ei angen mewn gwirionedd. Rydych chi'n trosglwyddo'r costau i bawb." Polisi Cyfryngau*

> *"Dydw i ddim yn meddwl bod hynny'n syniad da o gwbl. Dwi'n meddwl y dylid rhoi'r gorau i wneud hynny ar unwaith. Mae'r BBC yn colli symiau enfawr o arian gan yr aelwydydd sy'n gwbl abl i dalu am hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

> *"Petai'n rhaid i chi eistedd i lawr a dweud, 'Ar beth fyddech chi eisiau gwario X can miliwn?' Cryfhau BBC World Service er enghraifft, er mwyn ceisio gwrthsefyll gwybodaeth ffug yn rhyngwladol, neu ydych chi'n meddwl bod gan y BBC rôl i gryfhau cynyrchiadau diwylliannol rhanbarthol, er mwyn rhoi gwybodaeth ddibynadwy yn y DU? Yn amlwg, wrth ddewis rhwng*

*hynny a rhoi rhodd i bobl dros 75 oed gyda'r drwydded deledu, mae'n anodd dadlau y dylid rhoi'r rhodd. I mi, mae'r opsiwn hwnnw'n gyfaddefiad ein bod wedi methu." Polisi Cyfryngau*

*"Mae'n siŵr y byddwn i'n dweud ei bod hi'n bur annheg ar y rheini sy'n talu ffi'r drwydded yn gyffredinol bod angen gwneud toriadau ar y raddfa honno er mwyn ariannu'r budd yma." Polisi Cyfryngau*

*"Mae'r ergyd ariannol yn enfawr. Dwi'n gefnogol o'r BBC, ac mae hi'n annerbyniol yn fy marn i bod y Llywodraeth, ar ddim, wedi trosglwyddo cost mor enfawr i'r gorfforaeth. Yr unig beth alla i ei ddweud mewn ymateb i'ch cwestiwn ydy y bydd yr ergyd yn enfawr, ac y dylai'r BBC ddilyn trywydd gwleidyddol, sef codi stŵr am y peth a chynnwys yr wrthblaid a dadlau ei fod yn annerbyniol." Polisi Cyfryngau*

Fe aeth rhai rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau mor bell â darogan y byddai'r gost o gopïo'r consesiwn presennol yn "beryg bywyd" ac yn "drychinebus" i'r BBC, ac y gallai leihau ei allu i gystadlu i'r graddau na fyddai'n gallu bodoli ar ei ffurf bresennol mwyach. Roedd y rhanddeiliaid yn aml yn cyfeirio at gyd-destun amseriad yr ymgynghoriad, gan ychwanegu bod y BBC wedi torri costau sawl tro dros y blynyddoedd diwethaf wrth frwydro i gystadlu â gwasanaethau adloniant sy'n datblygu ac yn cael eu hariannu'n well, fel Netflix ac Amazon. Roedd hyn, meddent, yn golygu bod yr opsiwn o gopïo'r consesiwn yn fwy peryglus byth i'r BBC, a chymaint â hynny'n fwy annheg i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded. Yn benodol, roedden nhw'n pwysleisio pwysigrwydd y BBC o ran rhannu newyddion yn gywir a mynd i'r afael â gwybodaeth ffug, gan awgrymu na fyddai ei gystadleuwyr ffrydio byd-eang mewn sefyllfa dda, ac na fyddai ganddyn nhw lawer o gymhelliant, i gyflawni'r rôl hon yn absenoldeb BBC sy'n cael ei ariannu'n dda. Yn eu barn nhw, petai'r BBC yn ysgwyddo cost lawn y consesiwn presennol, ni fyddai'n gallu cynnal ei gynyrchiadau newydd i'r graddau angenrheidiol er mwyn parhau i addysgu'r cyhoedd ar lefel foddhaol.

*"[Copïo'r consesiwn] ydy'r senario gwaethaf posib, ac fe allai fod yn beryg bywyd yn fy marn i. Dwi'n meddwl bod angen i'r BBC fod o'r maint ac ar y raddfa bresennol i weithredu yn nhirwedd newidiol y cyfryngau er mwyn cystadlu â chwmnïau fel Netflix ac Amazon, a byddwn i'n poeni'n arw am doriadau ar y raddfa honno. Alla i ddim dychmygu sut gallai'r BBC barhau ar ei ffurf bresennol. Petawn i'n gwneud y penderfyniad hwnnw, does gen i ddim syniad lle byddwn i'n gwneud toriadau. Mae'n gyfran mor fawr i sefydliad sydd wedi gorfod gwneud cryn dipyn o doriadau'n barod." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae hynny'n drychineb. Mae'r BBC wedi gwneud tua 20% o doriadau mewn termau real dros y deng mlynedd diwethaf yn barod, a byddai hyn yn doriad enfawr arall, 20% eto ar ben hynny. A byddai'n gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn. Felly, os ydych chi wir eisiau i ni gael rhywbeth tebyg i ddarlledu cyhoeddus yn America, sy'n amherthnasol i bopeth, dewiswch yr opsiwn hwnnw. Ond bydd yr opsiwn hwnnw'n ergyd farwol i'r BBC." Polisi Cyfryngau*

*"Mae'n annerbyniol ar sawl lefel. 1) Mae trwydded am ddim yn bolisi gan y llywodraeth, fel cymorthdaliadau tanwydd. A dydy'r Llywodraeth ddim yn gofyn i'r cwmni tanwydd eu talu. 2) Mae hi'n fain ar y BBC. Mae cystadleuwyr mwy ac sy'n cael eu hariannu'n well yn cynnig digon o her ariannol. 3) Mae'n trosglwyddo swm enfawr o arian o'r genhedlaeth iau i'r genhedlaeth hŷn, a dydw i ddim yn meddwl bod modd cyfiawnhau hynny chwaith. Ar sail y tri rheswm hynny, dwi'n gwrthwynebu." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Dwi'n meddwl bod hwn yn opsiwn gwael iawn oherwydd yr effeithiau ariannol ar y BBC. Byddai'n arwain at gylch cythreulig, wrth iddo orfod dod â gwasanaethau i ben a chynnig llai o gynnwys. Fan leiaf, mae risg y byddai'n gwneud y BBC yn llai deniadol i gynulleidfaoedd, ac felly mae'n siŵr y byddai'n cyflymu rhyw fath o gylch cythreulig o ddirywiad. Dwi'n meddwl bod angen i'r BBC fuddsoddi hyn a hyn mewn cynnwys o ansawdd uchel, ac mae angen iddo gael ei ariannu'n ddigonol er mwyn gwneud hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

*“Dwi’n meddwl ei bod yn ffordd dwp o fwrw ymlaen. Dwi’n gadarn o blaid, fel pawb arall, gwneud y BBC yn fwy effeithlon, a bod y BBC yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut mae'n gwario arian. Er nad oes llawer o amser wedi mynd heibio ers i’r BBC gael y cyfrifoldeb hwnnw, gallwn weld yn gliriach byth pam mae angen BBC sy’n cael ei ariannu’n iawn, sy’n dal yn gallu bod yn gynhwysol – os nad yn gwbl gynhwysol – er mwyn cael amrywiaeth o ddibenion a swyddogaethau. Gallwn weld hynny’n gyffredinol – o addysg i boeni am wybodaeth ffug ac ati. Mae rôl addysgiadol y BBC [yn bwysig], o ran gwybodaeth, mewn byd lle mae Netflix ac ati [yn dod yn fwy amlwg]. Mae’n dod yn gliriach byth bod angen i’r BBC, fel ased cenedlaethol, allu gweithredu ar raddfa fawr, ac mae angen adnoddau arno er mwyn iddo allu cystadlu â’r cyfryngau hynny. Yn y DU, mae ganddo rôl hollbwysig o ran seilwaith sy’n cynnig mwy a mwy o fudd i sefydliadau eraill yn y cyfryngau, a bod yn onest, ond hefyd fel budd cymdeithasol. Tra bo’r BBC o dan y pwysau hynny, mae hyn yn faich cwbl ddiangen i’w ychwanegu.” Polisi Cyfryngau*

*“Byddai’n anffodus iawn petai’n rhaid i’r BBC wneud toriadau mawr, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol lle mae cymaint o newyddion honedig nad yw’n cael ei reoleiddio, a lle nad ydy’r ansawdd yn cael ei reoli, yn cael ei ledaenu ar y rhyngrwyd a drwy system cyfryngau cymdeithasol. Mae’n anochel y byddai hyn yn lleihau beth fyddai’r BBC yn gallu ei wneud, gan gynnwys ei allu i ymateb i bob rhan o'r boblogaeth, ac i ymgysylltu ar-lein fel y mae’n ei wneud ar hyn o bryd.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

### Gwrthwynebu: cyfrifoldeb y Llywodraeth

Roedd pryder ynghylch y goblygiadau ariannol i'r BBC petai’n copïo'r consesiwn presennol yn aml yn mynd law yn llaw â gwrthwynebiad chwyrn – ymysg rhanddeiliaid y cyfryngau yn bennaf – i’r syniad y dylai’r BBC fod yn gweinyddu unrhyw gonsesiynau o gwbl. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn ailddatgan eu cred mai gwaith y Llywodraeth, “nid gwaith y BBC”, yw helpu grwpiau penodol o'r boblogaeth, yn enwedig os mai lleddfu caledi yw’r nod yn ôl pob golwg. Roedden nhw’n teimlo bod hyn yn arbennig o wir wrth ystyried mai’r Llywodraeth, yn hytrach na’r BBC, oedd wedi cyflwyno’r consesiwn ar gyfer pobl dros 75 oed yn wreiddiol ac wedi parhau i dalu am hynny. Fel arfer, roedd y rhanddeiliaid hynny’n feirniadol o’r BBC am beidio â gwrthwynebu’n gyhoeddus benderfyniad y Llywodraeth i roi’r gorau i ariannu’r consesiwn, ac yn dweud y dylai barhau i wneud mwy i ddangos yn glir y dylai consesiwn â tharged cymdeithasol ddod o dan gylch gwaith y Llywodraeth, nid y BBC.

*“Byddai’n amhriodol iawn dyblygu’r consesiynau gafodd eu cyflwyno gan Gordon Brown. Cafodd y penderfyniad hwnnw ei wneud gan Ganghellor y Trysorlys, a’i roi ar waith drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Felly hyd y gwn i, a dwi’n fodlon cael fy nghywiro, nid oedd deddfwriaeth ar gyfer cyflwyno’r budd. Y Llywodraeth wnaeth y penderfyniad, a pham ddylai’r BBC efelychu penderfyniad mewnol Llywodraeth a oedd, fel mae’n digwydd, yn Llywodraeth Lafur? […] Y Llywodraeth ddylai fod yn gofyn y cwestiwn hwnnw mewn gwirionedd, nid y BBC. Dydy’r BBC erioed wedi cael cais o’r blaen i fynd ati i gael gwybod a ydy pobl yn meddwl bod y drwydded yn deg ai peidio. Y Llywodraeth sy’n gosod [consesiwn] ffi’r drwydded. Nid y BBC sy’n gosod y ffi, felly lle’r Llywodraeth ydy penderfynu a ydy hi’n deg.” Polisi Cyfryngau*

*“Dwi’n gwrthwynebu hynny. Nid cyfrifoldeb y BBC ydy darparu rhywbeth sy’n gyfystyr â thaliadau lles i’r henoed.” Polisi Cyfryngau*

*“Dwi’n meddwl ei fod yn gwbl annheg, ac mae’n annheg bod y BBC wedi cael ei roi yn y sefyllfa yma. Ni ddylai’r BBC byth fod wedi cytuno i hyn fod yn rhan o setliad ffi'r drwydded. Roedd hwnnw’n gamgymeriad difrifol i’w wneud. Dwi’n meddwl bod y BBC mewn sefyllfa anodd; pa bynnag opsiwn y bydd yn ei ddewis, bydd yn cael ei feirniadu. Does dim canlyniad da, a pharhau â’r sefyllfa bresennol ydy’r senario gwaethaf posib.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“O safbwynt gwleidyddol, mae hi’n anodd iawn tynnu rhywbeth yn ôl. Felly, os ydy’r Llywodraeth yn credu bod y polisi yma’n briodol, dylai ei ariannu’n llawn ei hun. Ni ddylai ddisgwyl i’r BBC orfod gwneud penderfyniadau anodd iawn rhwng amrywiaeth ac ansawdd cyffredinol ei wasanaethau a chonsesiynau ar gyfer grŵp penodol.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Yn fy marn i, dylai’r gorfforaeth fod wedi dal ei thir, ac ni ddylai byth fod wedi cytuno i ysgwyddo’r cyfrifoldeb hwnnw. Nid gwaith y BBC ydy gweinyddu budd-daliadau lles. Yn sicr ddim. Dyna fyddai fy man cychwyn i, ond dwi’n gwybod eich bod chi’n gofyn cwestiynau sydd ddim yn cychwyn o’r fan honno.” Polisi Cyfryngau*

*“Mae’r Llywodraeth wedi rhoi’r BBC mewn sefyllfa arnodd iawn gyda’i pholisi, ac mae’n siŵr y byddwn i’n cefnogi’r BBC i geisio lleihau cost y budd hwnnw. Lle’r Llywodraeth ydy ceisio helpu pobl dros 75 oed mewn ffyrdd eraill gyda’u hamgylchiadau ariannol, os ydy’r Llywodraeth o'r farn bod angen gwneud hynny. Dydw i ddim o reidrwydd yn cytuno â’r polisi o roi trwydded deledu am ddim i bobl dros 75 oed yn y lle cyntaf. Ond, beth bynnag am hynny, dydw i ddim yn meddwl y dylai’r BBC orfod ariannu hynny.” Polisi Cyfryngau*

### Gwrthwynebu: targed y consesiwn

Y trydydd prif wrthwynebiad i gopïo'r consesiwn presennol ymysg rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau oedd y dybiaeth bod pobl dros 75 oed angen consesiwn fwy nag eraill. Er bod y rhan fwyaf yn ffafrio byd delfrydol lle nad oes angen unrhyw gonsesiwn gan y BBC ar unrhyw grwpiau mewn cymdeithas, petai un yn cael ei roi, roedd y bobl hyn yn dadlau nad oedd llawer o resymeg dros ei roi i bobl dros 75 oed. Dadl gyffredin oedd bod pensiynwyr wedi dod yn fwy a mwy cyfoethog o’u cymharu â gweddill y boblogaeth yn ystod y cyfnod rhwng cyflwyno consesiwn ffi’r drwydded yn y flwyddyn 2000 a heddiw. Felly, roedden nhw’n teimlo bod y consesiwn yn annheg ar grwpiau eraill mewn cymdeithas a allai fod yn fwy tebygol o fod mewn tlodi, ac a oedd hefyd yn llai tebygol o gael yr un gwerth o ffi’r drwydded gan eu bod yn defnyddio mwy o amrywiaeth o gyfryngau. Yn fwy cyffredinol, teimlai’r rhanddeiliaid hyn na ddylai unrhyw gonsesiwn sy’n ceisio lleddfu tlodi fod yn seiliedig yn uniongyrchol ar gategorïau demograffig ehangach fel oed gan fod hyn, yn eu barn nhw, yn golygu y byddai llawer o bobl yn cael consesiynau yn ddiangen.

Roedd rhanddeiliaid pontio’r cenedlaethau yn arbennig o debygol o gyfeirio at y gwrthwynebiad hwn i gopïo'r consesiwn, ond roedd hefyd yn farn gyffredin ymysg rhanddeiliaid y cyfryngau.

*“Rydyn ni’n ymwybodol iawn o anghydraddoldebau rhwng y cenedlaethau. Os rhywbeth, dylai'r cymhorthdal hwnnw fynd at ymdrechion presennol y BBC i newid ei ffocws er mwyn gwasanaethu grwpiau oed iau a gwahanol”. Polisi Cyfryngau*

*“Os ydy pobl yn gallu fforddio talu, fe ddylen nhw wneud hynny. Mae llawer ohonom yn teimlo bod pethau wedi mynd yn rhy bell tuag at helpu’r henoed, a dim digon tuag at helpu’r ifanc. Felly gallaf ddeall pam mae rhoi rhywbeth am ddim i bawb dros 75 oed yn syniad amhoblogaidd pan fo pobl â phlant ifanc yn cael mwy o drafferth cael dau ben llinyn ynghyd, a dydyn nhw ddim yn cael unrhyw gonsesiwn.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“O ran yr henoed, maen nhw’n cael gormod o gonsesiynau’n barod o ran cael eu trin yn arbennig. Mae hynny’n amrywio o’r lwfans tanwydd gaeaf i deithio am ddim ar drenau tanddaearol, heb ystyried o gwbl a oes gan yr henoed hyn incwm sylweddol ai peidio. Mae hynny’n berthnasol i roi trwydded deledu am ddim i bobl gefnog. Pam fyddech chi’n gwneud hynny?” Polisi Cyfryngau*

*“Ar sail athronyddol, dydyn ni ddim yn credu bod dadl bendant dros roi budd cyffredinol – ni waeth pwy sy’n talu amdano – i bob aelwyd â phobl dros 75 oed, sydd ddim yn ystyried eu gallu i dalu amdano. [...]. I ddechrau, mae’r drwydded deledu yn peri anfantais gan ei bod yn ddrytach i bobl dlawd nag i bobl gyfoethog. Ac wedyn mae rhoi un am ddim i bobl hŷn, dim*

*ond oherwydd eu bod yn hŷn, yn achosi hyd yn oed mwy o anfantais i bobl eraill. Mae'n bosib y byddai dadl fwy pendant dros wneud hyn pan gafodd ei gyflwyno bron i 20 mlynedd yn ôl, oherwydd roedd perthynas agosach o lawer rhwng oed a thlodi gan fod mwy o bobl hŷn yn byw mewn tlodi. Dydy'r berthynas honno ddim yn darbwyllo o gwbl yn awr, gan fod canran lai o lawer o bobl dros 75 oed o dan y trothwy tlodi, a rhagwelir y byddan nhw'n parhau i fynd yn fwy cyfoethog fel carfan ddemograffig wrth symud ymlaen." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dwi ddim yn siŵr am roi consesiynau i bobl hŷn. O ran iechyd, mae'n beth da yn gyffredinol, oherwydd mae'r holl dystiolaeth yn dweud bod angen llawer mwy o gefnogaeth arnoch chi wrth heneiddio ac mae gennych chi lai o arian. Ond o safbwynt cymdeithasol, dydw i ddim yn siŵr mewn egwyddor a oes angen i'n cymdeithas gydnabod hynny. Mae'r consesiynau bach rydych chi'n eu cael pan fyddwch chi'n 60 neu'n 65 oed ar gyfer mynd i'r sinema a phethau felly yn help. Maen nhw'n cydnabod nad ydych chi'n cael cyflog mwyach, ac na allwch chi ennill arian mwyach." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Byddai hynny'n ofnadwy, yn gywilyddus. Oherwydd mae'n dal i roi grant di-dreth i nifer fawr o bobl gyfoethog. Mae'r byd wedi newid mewn o leiaf dair ffordd bwysig. 1) Mae llawer mwy o bobl hŷn, oherwydd bod pobl yn byw'n hirach; 2) mae llawer ohonyn nhw'n llawer gwell eu byd nag oedden nhw, oherwydd beth sydd wedi digwydd gyda phensiynau ac asedau eraill, yn enwedig asedau tai; a 3) mae gennych chi sefyllfa lle mae'n rhaid i bobl ifanc dalu hyn, ond maen nhw'n gwylio llawer llai o deledu. Felly, mae hynny'n annhegwch ychwanegol o ran demograffeg." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Mae'n golygu bod rhai cartrefi yn gwbl abl i dalu ffi'r drwydded, ond nad ydyn nhw'n gorfod gwneud hynny gan fod person hŷn yn byw yno." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Ni ddylem gymryd yn ganiataol fod yr holl bensiynwyr yn well eu byd, ond mae nifer yr achosion o dlodi ymysg pensiynwyr draean yn llai erbyn hyn. Mae incwm canolrifol pensiynwyr yn uwch nag incwm canolrifol oed gweithio erbyn hyn, ar ôl ystyried costau tai. Mae'r rhain yn newidiadau mawr yn ein cymdeithas. Mae cyfoeth yn cynyddu yn y DU, ond yn cael ei ganoli fwy a mwy ymysg cenedlaethau hŷn, ac ar yr un pryd yn dal yn cael ei ddosbarthu'n anghyson yn eu mysg."  Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Mae'n golygu eich bod yn neilltuo adnoddau mewn ffordd anghymesur i bobl hŷn, er bod cylch gwaith y BBC yn cynnwys y boblogaeth gyfan, gan gynnwys pobl ifanc." Polisi Cyfryngau*

*"Byddai cynnal y consesiwn presennol fel y mae ar hyn o bryd yn bur annheg. Nod y polisi cymdeithasol ydy lleddfu neu liniaru effeithiau gwaethaf tlodi, ond mae tlodi'n bodoli ym mhob carfan ddemograffig, nid dim ond ymysg grwpiau o bobl dros 75 oed. Felly, mae 'dros 75 oed' yn lle eithaf mympwyol i dynnu llinell. Felly, o safbwynt tlodi, dydy hi ddim yn iawn i'r BBC fynd ati'n wirfoddol i leddfu tlodi mewn carfan ddemograffig benodol. Os bydd y BBC yn dewis gwneud y mathau hynny o ymyriadau ar gyfer pobl sydd o dan bwysau ariannol er mwyn iddyn nhw allu defnyddio gwasanaethau'r BBC, dylid targedu hynny'n well ar draws yr holl garfannau demograffig." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae'n annerbyniol ar sawl lefel. 1) Mae trwydded am ddim yn bolisi gan y llywodraeth, fel cymorthdaliadau tanwydd. A dydy'r Llywodraeth ddim yn gofyn i'r cwmni tanwydd eu talu. 2) Mae hi'n fain ar y BBC. Mae cystadleuwyr mwy ac sy'n cael eu hariannu'n well yn cynnig digon o her ariannol. 3) Mae'n trosglwyddo swm enfawr o arian o'r genhedlaeth iau i'r genhedlaeth hŷn, a dydw i ddim yn meddwl bod modd cyfiawnhau hynny chwaith. Ar sail y tri rheswm hynny, dwi'n gwrthwynebu." Diwydiant y Cyfryngau*

## O blaid copïo’r consesiwn presennol

Roedd nifer fach iawn o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau o blaid copïo’r consesiwn presennol. Roedden nhw’n cynnig tri rheswm: a) mae llawer o bobl dros 75 oed nid yn unig mewn tlodi, maen nhw hefyd wedi’u hynysu ac yn unig, ac mae teledu a radio yn help mawr i wrthsefyll hyn; b) mae pobl hŷn yn tueddu i ddefnyddio gwasanaethau'r BBC yn fwy na grwpiau eraill, ac felly mae trwydded deledu am ddim yn bwysicach iddyn nhw nag y byddai i bobl eraill; ac c) roedd pobl hŷn wedi bod yn cyfrannu at y BBC ers cyfnod hirach, ac felly mae hi’n deg eu bod yn cael eu gwobrwyo am hyn yn nes ymlaen mewn bywyd. Roedden nhw hefyd yn siomedig â'r Llywodraeth am dynnu’r consesiwn yn ôl a cheisio trosglwyddo’r cyfrifoldeb i’r BBC.

> *“Dydy hyn ddim yn fater o degwch. Dwi dros 75 oed. Cafodd pobl hŷn y consesiwn yma gan lywodraeth a oedd yn ceisio gwneud bywyd yn haws i bensiynwyr oherwydd bod ganddyn nhw fywydau tlawd, unig a thruenus yn aml iawn. Roedd hwnnw’n bolisi cymdeithasol da. Ond mae’r syniad y byddai [y Llywodraeth] yn rhoi’r BBC mewn sefyllfa lle bydd yn dioddef pan fydd yn cael ei dynnu’n ôl, yn annoeth [...].” Diwydiant y Cyfryngau*

> *“Dwi’n meddwl bod llawer o dystiolaeth o’r ffaith bod y grŵp oed hwnnw’n dibynnu mwy ar rai o wasanaethau’r BBC, a bod teimlo’n ynysig yn gallu bod yn fater pwysig iawn gyda henaint. Mae’n anoddach nawr gan fod y mater wedi cael ei drosglwyddo gan y wladwriaeth i'r BBC. Os ydych chi’n edrych ar y mater fel rhan o gontract rhwng y cenedlaethau yn ein gwladwriaeth les, lle mae pobl yn cyfrannu yn ystod oed gweithio ac wedyn yn cael budd-daliadau a phethau fel pensiwn y wladwriaeth ac ymddeoliad, dwi’n meddwl bod hynny’n eithaf pwysig.” Polisi Cyfryngau*

## Ymarferoldeb copïo’r consesiwn presennol

Pan ofynnwyd pa mor ymarferol fyddai copïo'r consesiwn presennol, dywedodd rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a’r cyfryngau y gallai fod yn ymarferol bosib o safbwynt technegol i’r BBC ei roi ar waith, ond nad oedd yn ymarferol o safbwynt ariannol. Fe wnaethon nhw gyfeirio dro ar ôl tro at y niwed y byddai hynny’n ei wneud i ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau’r BBC yn eu barn nhw, gan awgrymu y byddai ysgwyddo cost y consesiwn yn arwain at ddirywiad parhaol ac arwyddocaol yng ngwasanaethau’r BBC. Ond roedd rhai o randdeiliaid y cyfryngau yn poeni na fyddai gan y cyhoedd yn gyffredinol lawer o gydymdeimlad â’r safbwynt hwn, a oedd yn dweud eu bod yn gweld y BBC fel “sefydliad cyfoethog, chwyddedig” sy’n talu cyflogau uchel iawn i dalentau ar y sgrin.

> *“Mae’n ymarferol bosib, ond byddai’r BBC yn mynd i’r wal.” Diwydiant y Cyfryngau*

> *“Os byddai’n gwneud hynny, byddai’n cael effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd ac amrywiaeth yr arlwy y gallai’r BBC ei darparu. Felly byddai’n bosib ei wneud ond byddai hynny ar draul yr holl waith y mae’r BBC yn ei wneud, sy’n cyfeirio’n ôl at y pwynt sylfaenol bod hwn yn benderfyniad gwleidyddol na ddylai’r BBC fod yn ei wneud.” Diwydiant y Cyfryngau*

> *“Yn wleidyddol, mae’n eithaf posib yn ymarferol. [...] Ond mae’n digwydd ar adeg dyngedfennol, a dwi’n meddwl bod hynny’n niweidiol dros ben i’r BÎB.” Polisi Cyfryngau*

> *“Mae’n ymarferol bosib, ond bydd yn cael effaith go iawn ar faint o gynnwys mae’r BBC yn gallu ei greu, ac ar ansawdd y cynnwys hwnnw. Felly fe allwch chi wneud hynny, ond mae’n rhaid i chi gydnabod y bydd yn arwain at ganlyniadau negyddol a sylweddol o ran ansawdd a nifer y gwasanaethau rydych chi’n eu cael gan y BBC.” Diwydiant y Cyfryngau*

> *“Y broblem ydy, dim rhywbeth a fydd ond yn digwydd unwaith ydy hyn. Mae’n ymrwymiad ariannol parhaus, sy’n debygol o gynyddu. Dydw i ddim yn gwybod beth ydy’r ffigurau. Dydw i ddim yn gwybod faint mae’r costau’n cynyddu bob blwyddyn. Ond mae pobl yn edrych ar y BBC ac yn gweld sefydliad eithaf cyfoethog a chwyddedig sy’n talu cyflogau uchel iawn i lawer o*

*bobl, ac weithiau dydy'r math hwnnw o gwyno ddim yn ennyn llawr o gydymdeimlad." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn ymarferol o gwbl oherwydd y swm o arian sydd dan sylw, ac mae hwnnw'n siŵr o gynyddu." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Byddai wir yn eithaf niweidiol i'r BBC petai'n cwtogi ei gyllideb gymaint â hynny dros gyfnod cymharol fyr. [Bydd yn cael] effaith niweidiol amlwg iawn ar ei gynnwys a'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded yn gyffredinol." Polisi Cyfryngau*

*"Dydy hyn yn dda i ddim. Dwi ddim yn meddwl y gallwch chi wneud hynny. Waeth i chi gael gwared ar y BBC nawr fel y mae. Byddai'n arwain at galedi enbyd i'r BBC, ac mae'n rhaid i ni benderfynu a ydyn ni'n poeni am hynny ai peidio. Dwi yn poeni am hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Byddai'n niweidiol iawn i'r hyn y gallai'r BBC ei wneud. Dwi'n sylweddoli nad ydy newid y polisi o reidrwydd yn creu sefyllfa gyfeillgar iawn mewn rhai mannau, ond os bydd y BBC yn ei fabwysiadu i ddechrau arni, dim ond ceisio osgoi'r anochel fyddai hynny te? Bydd yn rhaid iddo wneud rhai toriadau er mwyn gallu gwneud hyn yn y tymor byr, a allai olygu colli gwasanaethau neu rywbeth. Felly hyd yn oed os bydd yn ei leihau yn y dyfodol, bydd yn rhaid i chi ddechrau o'r dechrau gyda'r gwasanaethau hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

## Rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn

### Ymateb cyffredinol

O blith y tri phrif opsiwn, copïo'r consesiwn presennol oedd yr un mwyaf poblogaidd ymysg rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn.

### O blaid: tegwch ac osgoi teimlo'n ynysig

Roedd rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn a oedd o blaid yr opsiwn bod y BBC yn copïo'r consesiwn presennol yn teimlo'n gryf y byddai'n annheg ar bobl dros 75 oed petaent yn colli consesiwn ffi'r drwydded. Roedden nhw'n dweud bod pobl hŷn yn teimlo'n unig ac yn ynysig yn aml, yn enwedig os nad oes ganddyn nhw lawer o berthnasau'n byw gerllaw neu os ydyn nhw'n gaeth i'r tŷ oherwydd salwch. Roedden nhw'n dadlau bod teledu a radio yn bwysig iawn i bobl hŷn er mwyn osgoi teimlo'n ynysig, gan fod hynny'n eu galluogi i deimlo cysylltiad â'r byd ehangach, ac felly bod risg y byddai cael gwared ar y consesiwn yn tanseilio lles cenedlaethau hŷn. Dywedodd eraill fod y ffaith bod pobl hŷn wedi cyfrannu at y BBC drwy gydol eu bywyd, ac felly'n haeddu cael help ariannol yn nes ymlaen mewn bywyd, yn gwneud yr opsiwn o gael gwaed ar y consesiwn yn fwy annheg byth.

*"Rydyn ni'n credu mai dyna'r opsiwn tecaf. Mae'n sicrhau bod pobl hŷn sydd ar incwm isel, incwm sefydlog isel, a'r rheini sydd ddim yn hawlio'r budd-daliadau sydd eu hangen arnyn nhw yn gallu defnyddio gwasanaethau'r BBC. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac yn ynysig. I lawer ohonyn nhw, y teledu ydy'r prif beth sy'n rhoi cysur iddyn nhw, ac maen nhw'n gweld y bydd hynny'n mynd i'r afael â'r teimlad o fod yn unig ac yn ynysig. Dydy llawer o bobl hŷn ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, felly mae'n ffenestr i'r byd y tu allan, a dyna fydd eu prif ffynhonnell o wybodaeth. Dyma sydd decaf er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl hŷn fwyaf bregus yn dal yn gallu defnyddio gwasanaethau'r BBC, a bydd yn help i wrthsefyll teimladau o fod yn unig ac yn ynysig lle bo modd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae dros hanner yr holl bobl sydd dros 75 oed yn anabl. Mae un o bob pedwar yn teimlo mai'r teledu ydy eu prif gwmnïaeth. Dwi'n mynd i gael y rhif yn anghywir, ond mae cyfran sylweddol iawn naill ai'n byw mewn tlodi neu fymryn uwchben y ffin tlodi. Mae gan un o bob dau fwy nag un cyflwr iechyd hirdymor, ac maen nhw'n methu mynd a dod fel y bydden nhw'n dymuno. Felly mae teledu yn ffenestr bwysig iawn i'r byd i bobl dros 75 oed, a byddai nifer*

*sylweddol ar eu colled yn ariannol a/neu yn cael trafferth talu petai'n rhaid iddyn nhw wneud hynny." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Wrth i ni fynd yn hŷn, mae ein pensiynau yn talu am lai. Felly, yn 75 oed, a finnau wedi bod yn talu ffi'r drwydded am 55 mlynedd yn barod, byddwn yn cael trafferth talu am fy nhrwydded deledu. Bydd pob un ohonom yn dyheu am gael mynd yn hŷn rhyw ddiwrnod." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae pobl dros 75 oed yn fwy tebygol o lawer o gael cyflyrau iechyd cronig sy'n cyfyngu eu gallu i symud mewn rhyw ffordd neu'r llall. Felly maen nhw'n fwy tebygol o lawer o fod yn ddibynnol ar adloniant yn y cartref er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn y byd – i gynnal eu diddordeb a'u cysylltiad. Felly, fel poblogaeth, mae'n siŵr bod ganddyn nhw lai o ddewisiadau o bethau eraill i'w gwneud, a'u bod yn ffynnu mwy drwy gael mynediad at gyfryngau prif ffrwd na pherson prysur a sionc 35 mlwydd oed." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl bod hyn yn deg, oherwydd mae'n rhaid i ni roi blaenoriaeth i'r hyn rydyn ni'n meddwl sy'n bwysig i gymdeithas. Mae unigrwydd yn broblem enfawr, ac mae'r ffaith bod cymaint o bobl hŷn yn dibynnu ar y teledu fel eu hunig gwmnïaeth yn golygu bod hyn yn deg yn fy marn i." Grwpiau Pobl Hŷn*

Serch hynny, roedd rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn a oedd o blaid yr opsiwn bod y BBC yn copïo'r consesiwn yn pwysleisio eu barn mai'r Llywodraeth, ac nid y BBC, ddylai dalu am hynny yn ddelfrydol. Yn yr un modd â rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau, roedden nhw'n teimlo mai'r Llywodraeth ddylai barhau i ariannu'r consesiwn gan fod targed cymdeithasol i'r consesiwn, a gan mai'r Llywodraeth oedd wedi'i gyflwyno'n wreiddiol.

*"Bydden ni'n cefnogi hynny, ond dydyn ni ddim yn meddwl ei bod hi'n deg ei bod yn rhaid i'r BBC dalu amdano." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Yr opsiwn dwi'n ei ffafrio ydy bod y mater yn aros yn nwylo'r Llywodraeth. Dwi'n meddwl mai cyfrifoldeb y Llywodraeth, yn hytrach na'r BBC, ydy helpu pobl hŷn. Dwi'n meddwl y dylai'r BBC fod wedi gwrthwynebu hyn; dwi'n meddwl y dylai'r Llywodraeth anrhydeddu'r ymrwymiad y mae wedi'i wneud, ac na ddylid trosglwyddo hyn. Mae hyn yn cefnogi pobl hŷn, yn cefnogi polisïau eraill y Llywodraeth, fel gwrthsefyll unigrwydd ymysg pobl hŷn. Nid cyfrifoldeb y BBC ydy hyn, ac nid lle'r BBC ydy penderfynu pwy sy'n haeddu beth a phwy sy'n gallu fforddio beth." Grwpiau Pobl Hŷn*

*I ni, yr unig opsiwn y bydden ni'n ei gefnogi fyddai cadw'r cynllun fel y mae. Dyna ydy opsiwn 1 dwi'n credu, copïo'r cynllun. Bydden ni'n dal i gefnogi hynny, ond ein prif uchelgais fyddai cael yr un cynllun â'r un presennol ond mai'r Llywodraeth sy'n gyfrifol amdano, nid y BBC." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dylai pethau aros fel y maen nhw. Dydw i ddim o blaid newid y system bresennol o gwbl. Dwi'n meddwl y bydd yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn fregus sydd wedi cael budd o'r polisi yma a gafodd ei gyflwyno – nid ar gais y BBC, hyd y gwn i, ond gan y Llywodraeth – bron i 20 mlynedd yn ôl. Mae'n un o'r buddion cyffredinol prin iawn sy'n dal ar gael i bobl hŷn. Yn eironig, dwi'n meddwl bod pobl hŷn wir yn gweld gwerth i'r BBC a'r hyn y mae'r BBC yn ei wneud, a bod y consesiwn yma'n golygu llawer mwy iddyn nhw – yn anghymesur felly – nag i bobl eraill. Felly, ar sail y gwaith dwi wedi bod yn ei wneud, mae hyn yn cael ei ystyried yn gam negyddol iawn gan y Llywodraeth; mai cyfrifoldeb y Llywodraeth ydy hyn, yn hytrach na chyfrifoldeb y BBC, ac na ddylid ei dynnu oddi wrth bobl hŷn ar hyn o bryd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl ei bod hi'n iawn cael consesiynau ar gyfer pobl dros 75 oed... dylid cadw'r consesiynau. Wrth edrych ar y ddogfen ymgynghori, dwi'n gallu deall dadleuon y BBC yn llwyr o ran economeg y sefyllfa. I ni, nid problem i'r BBC ydy hon. I ni, y Llywodraeth ddylai fod yn*

*delio â hyn. Y Llywodraeth drosglwyddodd y mater i'r BBC dair blynedd yn ôl, ac i ni, dylai'r disgownt a'r sefyllfa o roi trwydded am ddim i bobl dros 75 oed barhau, a'r Llywodraeth ddylai ysgwyddo cost hynny." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Yn fy marn i, yn gryno, mae'n rhaid i'r BBC - fel awdurdod darlledu - fantoli'r cyfrifon, casglu arian a chreu rhaglenni o safon mewn marchnad gystadleuol. Felly, ni ddylai fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddo ysgwyddo cost y trwyddedau am ddim yma i grŵp o'r boblogaeth: naill ai mae'n rhaid i rai o'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei ariannu, neu mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud hynny. Mae hynny'n gofyn llawer gan drethdalwyr." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n deall y dadleuon am arbedion maint a'r dewis y byddai'n rhaid i'r BBC ei wneud o ran cadw neu gael gwared ar rai rhaglenni neu wasanaethau er mwyn talu am y consesiwn. Felly, dyma lle rydyn ni'n teimlo nad problem y BBC ydy hyn, a dydyn ni ddim yn credu o reidrwydd y dylai'r BBC orfod gwneud y newidiadau mae'n sôn amdanyn nhw, h.y. torri rhai gwasanaethau, er mwyn cadw'r consesiwn." Grwpiau Pobl Hŷn*

### Gwrthwynebu: mae'r consesiwn wedi'i dargedu'n wael ac yn niweidiol i wasanaethau'r BBC

Roedd lleiafrif o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn yn gwrthwynebu copïo'r consesiwn presennol. Yn eu barn nhw, roedd y consesiwn wedi'i dargedu'n wael a byddai'n rhy ddrud i'r BBC. Roedden nhw'n dweud y byddai pobl dros 75 oed sy'n fwy cyfoethog yn gallu fforddio talu am drwydded deledu lawn, ac y byddai'n well ganddyn nhw hynny yn hytrach na bod y BBC yn ysgwyddo'r gost – yn enwedig os byddai'n rhaid iddo wneud toriadau i'w wasanaethau yn sgil hynny.

*"Fel dwi'n dweud, dwi'n meddwl y gallai hynny fod yn wastraff enfawr o arian, oherwydd dwi'n meddwl bod digonedd o bobl dros 75 oed a fyddai'n gallu fforddio talu ffi'r drwydded. Dydw i ddim wedi cael fy argyhoeddi." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi ddim yn meddwl bod hyn yn gynaliadwy yn y tymor hirach oherwydd, yn y pen draw, mae ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau'r BBC yn mynd i leihau. Yn fy marn i, dylai'r rheini sy'n defnyddio'r drwydded dalu'r ffi amdani – os ydyn nhw mewn sefyllfa ariannol i wneud hynny. A ddylen nhw ddim disgwyl i'r Llywodraeth na threthdalwyr eraill – nac, yn wir, i'r BBC leihau ei wasanaeth yn sgil hynny." Grwpiau Pobl Hŷn*

### Ymarferoldeb copïo'r consesiwn presennol

O blith y rheini a oedd o blaid yr opsiwn bod y BBC yn copïo'r consesiwn presennol, dywedodd llawer yn ddigymell wrth egluro eu cefnogaeth i hynny nad oedden nhw'n meddwl bod y toriadau i wasanaethau'r BBC yn angenrheidiol er mwyn ariannu'r consesiwn.  Roedd rhai o'r rhanddeiliaid hyn o'r grŵp pobl hŷn yn teimlo y dylai'r BBC fod yn talu cyflogau llai i dalentau ar y sgrin er mwyn ariannu'r consesiwn. Roedd eraill yn awgrymu y gallai'r BBC gynyddu ffi'r drwydded ar gyfer eraill neu gynyddu ei werthiannau dramor er mwyn talu am y gost (darllenwch yr adran Toriadau i raglenni a gwasanaethau, tudalen 43).

*"Rydyn ni hefyd eisiau i'r BBC edrych yn fwy gofalus arno'i hun, oherwydd dydyn ni ddim yn credu bod angen cael gwared ar raglenni o gwbl. Mae angen iddo edrych yn feirniadol iawn ar elfennau gwariant, fel y cyflogau sy'n cael eu talu i rai o'i uwch weithwyr a rhai o'r talentau ar y sgrin. Barn bersonol: dydw i ddim yn meddwl y dylai'r BBC fod yn gwario dros £1,000,000 i gael rhywun i siarad am bêl-droed. Mae ymdeimlad dwfn – nid dim ond yn y boblogaeth hŷn, ond ymysg teuluoedd mewn grwpiau oed eraill hefyd – bod angen i'r BBC gymryd cyfrifoldeb dros fod yn atebol oherwydd mae'r BBC yn cael arian y cyhoedd, a chymryd ei atebolrwydd i'w gwsmeriaid fwy o ddifri, ac edrych i weld sut gall aildrefnu ar gyfer yr oes fodern." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Mae 'na gwestiwn mwy i'w ofyn am y BBC a'r ffordd mae'n defnyddio arian. Felly yn hytrach na gwneud toriadau i wasanaethau, edrych ar y cyflogau mae'n eu talu i'r bobl ar y top. Mae'r cyflogau mae pobl yn gallu eu cael yn y BBC i'w weld yn ormodol. Ac wrth gael gwared ar wasanaeth gwerthfawr i bobl hŷn, mae'n ymddangos ei fod yn edrych yn yr adran anghywir i wneud y toriadau." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl bod cadw'r drwydded am ddim yn bwysig iawn, a dwi'n meddwl y byddai'r BBC yn gallu ei hariannu mewn sawl ffordd, ac nid drwy wneud toriadau o reidrwydd. Dwi'n meddwl mai bygythiad ydy hwnnw, sy'n eithaf anffodus. Byddai'n gallu cynyddu pris y drwydded deledu, byddai'n gallu cael mwy o arian drwy werthu dramor, neu byddai'n gallu mynd yn ôl at y Llywodraeth a gofyn eto. Dwi'n meddwl bod nifer o opsiynau, nid dim ond toriadau." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae'n bosib y bydd yn golygu ei bod yn rhaid cynyddu pris y drwydded i bawb. Byddai hynny'n opsiwn mwy caredig." Grwpiau Pobl Hŷn*

Roedd y rheini a oedd yn cydymdeimlo mwy â'r baich ariannol ar y BBC yn awgrymu y dylai'r BBC wneud mwy i wrthwynebu penderfyniad y Llywodraeth, a mynnu mai'r Llywodraeth sy'n talu am gonsesiwn ffi'r drwydded yn hytrach na'r BBC (darllenwch yr adran Opsiynau ac ystyriaethau eraill, tudalen 40).

*"Dylai'r Llywodraeth ddylai ddelio â´r mater ei hun, yn hytrach na rhoi'r baich ar ysgwyddau'r BBC. Dylai'r Llywodraeth ddelio â'r peth a chadw'r cyfrifoldeb." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Byddai'n amlwg yn achosi trafferth enfawr i'r BBC petai'n rhaid iddo ariannu hun o'i goffrau ei hun. Felly, o'r safbwynt hwnnw, rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n annheg disgwyl i'r BBC wneud hynny. Lle'r Llywodraeth ydy gwneud hynny. Neu, os yw'n dymuno newid y consesiwn, dylai'r Llywodraeth gael trafodaeth gyhoeddus briodol am y mater – nid ceisio ei sleifio i mewn drwy ryw fargen ystafell gefn breifat." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dylai'r BBC barhau i ddadlau yn erbyn y Llywodraeth. Bydd gennym Lywodraeth newydd gobeithio, a fydd â llawer mwy o gydymdeimlad at yr holl fater. Dydw i ddim yn dweud ei bod hi'n debygol y bydd etholiad cyffredinol cyn 2020, pan fydd hyn i gyd yn digwydd mae'n debyg. Ond pwy a ŵyr. Fel mae pethau'n mynd gyda Brexit, pwy a ŵyr beth sy'n mynd i ddigwydd yn ystod y cyfnod sydd i ddod. Hyd yn oed os na fydd etholiad cyffredinol cyn 2020, dwi'n gwybod y bydd llawer o bobl fel fi yn ymgyrchu." Grwpiau Pobl Hŷn*

## Adfer y ffi gynhwysol

### Rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau

#### Ymateb cyffredinol

Er bod o leiaf ryw lefel o gefnogaeth i'r ffi gynhwysol ymysg y rhan fwyaf o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau, dim ond lleiafrif ddewisodd hyn fel yr opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio.

#### O blaid: cost, cyfrifoldeb a thegwch

Roedd y lleiafrif a ddewisodd adfer ffi'r drwydded gynhwysol fel yr opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio wedi gwneud hynny am resymau a oedd yn adlewyrchu eu rhesymau dros wrthwynebu'r opsiwn cyntaf (copïo'r consesiwn): cost, cyfrifoldeb a thegwch. Roedden nhw'n dweud dro ar ôl tro y byddai cost y consesiwn yn niweidiol iawn i'r BBC ac mai'r Llywodraeth, nid y BBC, ddylai fod yn ysgwyddo cost unrhyw gonsesiynau â tharged cymdeithasol – yn enwedig gan nad oedd y BBC wedi talu am y consesiwn hyd yma.

Roedd y grŵp hwn hefyd yn teimlo mai adfer y ffi gynhwysol oedd yr opsiwn tecaf o blith y rheini a gafodd eu cynnig, gan ei fod yn cynnig 'pris' cyson am wasanaethau'r BBC i bawb, heb i unrhyw dybiaethau sylfaenol gael eu gwneud am allu gwahanol grwpiau oed i gyfrannu at y BBC. Roedd rhai hefyd yn awgrymu nad oedd ffi'r drwydded yn ddigon uchel fel bod angen consesiynau cymdeithasol ar yr unigolyn, yn enwedig wrth ystyried bod pobl hŷn yn gallu cael amryw o fathau eraill o fudd-daliadau lles. Roedden nhw'n dweud y byddai ffi'r drwydded yn cynnig gwerth da iawn am arian i bobl hŷn, gan eu bod ymysg y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau'r BBC fwyaf, ac felly y dylent dalu ffi'r drwydded yn llawn fel aelwydydd eraill.

Er bod y grŵp penodol hwn o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau o blaid y ffi gynhwysol, doedden nhw ddim yn meddwl y byddai'r BBC yn dewis yr opsiwn hwn oherwydd y canlyniadau gwleidyddol y byddai'n eu hwynebu o bosib (darllenwch yr adran 'Ymarferoldeb adfer y ffi gynhwysol', tudalen 27).

> *"Dwi'n meddwl yn sicr y dylai'r BBC gael yr arian. O ran yr arian, dwi'n meddwl y dylai pawb sydd dros 18 oed – ac yn derbyn gwasanaethau gan y BBC – dalu ffi'r drwydded. Dyna fy marn i." Diwydiant y Cyfryngau*
>
> *"Oes unrhyw reswm dros beidio â gwneud hynny? Ydy pobl wir yn methu fforddio? Ai £11 y mis neu rywbeth mae'n ei gostio? Dydy hynny ddim yn swm enfawr bob mis." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*
>
> *"Mae fy nghalon i'n dweud nad ydy hynny'n iawn, ond mae fy mhen i'n gofyn pam nad ydy hynny'n iawn? Rydyn ni'n talu am yr hyn rydyn ni'n ei gael. [...] Mae'n seiliedig ar dybiaeth nad oes gennych chi unrhyw arian os ydych chi'n hen, a dydy hynny ddim yn wir erbyn hyn. Dwi ddim yn meddwl y gall neb ddweud ei fod yn annheg [adfer y ffi gynhwysol]. Mae digonedd o bobl o dan 75 oed sy'n methu fforddio'r drwydded deledu. Mae digonedd o bobl iau yn byw mewn tlodi, sy'n methu ei fforddio. Dwi'n meddwl bod 'na rywbeth ychydig bach yn nawddoglyd am wneud y tybiaethau hynny." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*
>
> *"Mae'n syniad eithaf da. Mae [pobl hŷn] yn tueddu i wylio llawer o deledu, ac maen nhw'n dal i gael budd-daliadau sy'n helpu i dalu amdano, lwfans tanwydd gaeaf. Ac mae'r rheini sy'n brin iawn o arian yn cael credyd pensiwn. Mae'n bosib cael gwared arno'n llwyr. Dylai'r BBC fod yn ddewr a gwneud hynny. Ond does dim siawns y bydd hynny'n digwydd." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*
>
> *"Dyna'n union y byddwn i'n dymuno gweld y BBC yn dewis ei wneud, ond dwi'n besimistaidd iawn mai dyna fydd y canlyniad. Dwi'n meddwl bod y BBC yn ceisio osgoi gwrthdaro â gwleidyddion a'r Llywodraeth wrth reddf, ac mae ymgyrch lobïo wleidyddol fawr sy'n gwthio'r BBC oddi wrth hyn. Greddf naturiol arweinwyr y BBC fydd cyfaddawdu, dod o hyd i ryw dir canol – dim yr opsiwn gwaethaf na'r opsiwn gorau. Dwi'n meddwl bod angen i'r BBC fod yn ddigon dewr i ddewis yr opsiwn yma, ond dydw i ddim yn gwybod a oes gan arweinwyr y BBC y dewrder hwnnw. Gobeithio y byddan nhw'n profi fy mod i'n anghywir. Mae'n deg yn fy marn i. Dwi'n deall bod rhai pobl yn cael trafferth talu ffi'r drwydded, fel mae rhai pobl yn cael trafferth talu biliau tanwydd y gaeaf, a dylai polisi'r Llywodraeth ystyried hynny. Mae iawndal am unrhyw galedi mae pobl yn ei wynebu, ar wahân i'r un eithriad yma, yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth bob amser." Diwydiant y Cyfryngau*
>
> *"Dwi'n meddwl bod hynny'n swnio'n deg iawn. Mae pobl dros 75 oed yn treulio mwy o oriau yn gwylio'r teledu nag unrhyw boblogaeth ddemograffig arall, felly mae'n ymddangos ei bod hi'n iawn iddyn nhw dalu am hynny. Mae'n gynnig eithriadol o dda iddyn nhw o'i gymharu ag unrhyw danysgrifiadau." Diwydiant y Cyfryngau*
>
> *"Mewn byd delfrydol, dyna fyddwn i'n ei ddewis. Fel y dywedais i o'r dechrau, dwi ddim yn meddwl y dylai'r BBC orfod ariannu'r budd yma, ac mae'n ymddangos yn gwbl resymol i mi fod y BBC yn dweud fel darlledwr, 'Mae gennym ffi ar gyfer y drwydded, ac mae'n rhaid i bawb*

*sydd am ddefnyddio gwasanaethau'r BBC dalu'r ffi'. Lle'r Llywodraeth fydd helpu gyda sefyllfaoedd ariannol rhai grwpiau bregus wedyn, os bydd yn dewis gwneud hynny." Polisi Cyfryngau*

### O blaid: mewn egwyddor, ond nid ar unwaith

Roedd ail grŵp o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau o blaid ffi'r drwydded gynhwysol mewn egwyddor, ond yn teimlo – wrth ystyried hanes y broses o'i darparu – nad ei rhoi ar waith yn syth fyddai'r ffordd fwyaf ymarferol, teg na doeth i'r BBC fwrw ymlaen. Byddent o blaid y BBC yn symud tuag at ffi trwydded gynhwysol yn y pen draw, ond roedden nhw'n teimlo y byddai angen cyflwyno hyn yn raddol dros gyfnod hir, er mwyn sicrhau nad yw'n annheg ar y bobl hynny dros 75 oed sydd heb orfod cyllidebu ar gyfer hyn hyd yma. Pe na bai'r consesiwn wedi bod ar waith yn barod ers 2000, roedden nhw'n dweud y byddent o blaid system gynhwysol lle mae pob grŵp oed yn talu ffi'r drwydded yn llawn. Fodd bynnag, gan fod y rheini sydd dros 75 oed ar hyn o bryd wedi dod i arfer â'r consesiwn, roedden nhw'n poeni am adfer system gynhwysol ar unwaith.

*"Wel, dwi'n meddwl mai [adfer y ffi gynhwysol] ddylai fod y nod yn y pen draw, ond dwi'n meddwl y byddai'n gamgymeriad trychinebus i'r BBC wneud beth mae'r dogfennau ymgynghori yn awgrymu y mae'n mynd i'w wneud o bosib, sef cael gwared ar y consesiwn yn llwyr yn syth." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Dwi'n meddwl bod hynny'n opsiwn teg. Ond petai, wn i ddim, y Budd-dal Plant neu rywbeth yn cael ei leihau, mae'n fater o gynllunio ymlaen llaw, rhoi rhybudd i bobl. Os byddech chi'n newid yn ôl i'r hen drefn, byddech chi'n dweud rhywbeth fel, 'ymhen pum mlynedd, bydd hyn yn dod i ben', neu ymhen tair blynedd neu beth bynnag." Polisi Cyfryngau*

*"Mewn theori, mae'n deg gan fod pawb yn yr un sefyllfa. Yn ymarferol, rydych chi'n mynd i fod yn gofyn i bobl sy'n cael y consesiwn ar hyn o bryd i ddod o hyd i £150 y flwyddyn, felly mae tegwch hynny'n dibynnu ar y gallu i dalu. Yn amlwg, byddai'n cael mwy o effaith ar rai pobl na'i gilydd." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Y newid mwyaf posib i'r polisi hwnnw ydy cael gwared arno. Er gwaethaf popeth dwi wedi'i ddweud, dwi'n meddwl bod cael gwared arno'n llwyr yn gam disymwth iawn. Mae rhywbeth i'w ddweud dros hynny, os ydy'r dadleuon yn ddigon cryf. Ond mae'n newid mawr a disymwth iawn, a dwi wedi gweld y sylwadau gan bobl fel Age UK ac ati. Byddai'n bosib dadlau nad ydyn nhw'n ddefnyddiol iawn, gan eu bod yn ceisio dweud y dylai'r Llywodraeth dalu amdano eto. Gwleidyddiaeth ydy hyn i gyd. Byddai'r BBC yn gallu herio'r Llywodraeth i ddangos ei chardiau petai'n gwneud hynny. Ond byddai [adfer y ffi gynhwysol] yn sicr yn newid disymwth." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Os na fyddwn i'n gallu gwneud unrhyw beth arall, byddwn i'n cynyddu'r terfyn oed bob blwyddyn. Felly fyddech chi ddim yn ei dynnu oddi wrth bobl sy'n elwa'n barod, ond rydych chi'n ei newid i 76 y flwyddyn nesaf, a 77 y flwyddyn wedyn. Felly fyddai neb arall byth yn cael y consesiwn, ond fyddech chi ddim yn ei dynnu oddi wrth y rheini sydd eisoes yn elwa. Yn amlwg, bydd yn cymryd amser hir i'r refeniw hwnnw ddod i'r coffrau, o'i gymharu â chael gwared arno'n awtomatig. Ond byddai'n cael gwared ar wenwyn gwleidyddol y mater." Diwydiant y Cyfryngau*

Dywedodd rhai o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau hefyd y byddai'n well ganddyn nhw'r system gynhwysol mewn byd delfrydol, ond o ystyried hanes y consesiwn, y byddai'n well ei ddiwygio mewn ffordd sy'n targedu'r rheini sydd ei angen fwyaf. Roedden nhw'n tueddu i awgrymu opsiwn prawf modd a fyddai, yn eu barn nhw, yn sicrhau na fyddai'n rhaid i'r BBC dalu am swmp o ffi'r

consesiwn ac y byddai'n gallu ei roi yn fwy uniongyrchol i'r rheini ar incwm is (darllenwch yr adran Diwygio'r consesiwn, tudalen 31).

> *"O safbwynt athronyddol yn unig, dyna fyddai'r opsiwn gorau – hynny yw, o fewn cylch gwaith cyfreithiol presennol y BBC. Dwi'n meddwl mai'r opsiwn gorau'n gyffredinol fyddai gwneud y drwydded deledu yn fwy graddol, fel bod pawb sydd o dan drothwy polisi penodol yn cael un am ddim." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Mae'n well o lawer ailddosbarthu drwy'r system drethi, felly mae cael ffi gynhwysol yn ymddangos yn lanach. [Ond], mae rhai pobl yn llithro drwy'r rhwyd ac mae budd-daliadau'n isel iawn i wahanol bobl. Felly, mae'n bosib y byddai dadl dros gael rhyw fath o eithriad ar gyfer pobl ar incwm isel." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Mae'n siŵr bob dadl dros wneud rhywbeth fel prawf modd, neu godi'r trothwy oed yn raddol. Yn y bôn, dydw i ddim yn meddwl bod neidio oddi ar ymyl y dibyn hwnnw'n realistig. Yn y tymor hir, mae hyn i gyd yn dibynnu ar beth ydych chi'n meddwl ydy rôl darlledwr cyhoeddus. [...] Mae'n wirion gwneud newid mor eithafol â hynny i bolisi cyhoeddus dros nos. Byddwn yn gallu gweld mai dyna fyddai'r nod hirdymor, ond nid yw'n ymddangos mai dyna ydy'r opsiwn cyntaf heddiw." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

> *"Mewn byd delfrydol, dwi'n meddwl y byddwn i'n cael consesiwn sy'n seiliedig ar brawf modd, neu daliad sy'n seiliedig ar drethi graddoledig, oherwydd mae'r gallu i dalu yn amlwg yn wahanol iawn mewn gwahanol fathau o aelwydydd. Mae problem ddamcaniaethol gyda thaliad cynhwysol â chyfradd safonol. Mae'n debyg i dreth y pen, ond dwi ddim yn meddwl bod cyfiawnhad pendant dros drin pobl dros 75 oed yn wahanol i bobl eraill. Felly, fe allwch chi ddadlau dros gonsesiwn sy'n seiliedig ar brawf modd i bawb o bob oed. Ond mae hi'n anoddach o lawer dadlau dros gonsesiwn cyffredinol 100% i bobl dros 75 oed." Diwydiant y Cyfryngau*

## Gwrthwynebu adfer ffi gynhwysol

Roedd tua chwarter rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau yn gwrthwynebu adfer ffi gynhwysol. Roedd eu hymatebion yn canolbwyntio ar anghenion pobl dros 75 oed sy'n fwy bregus a thlawd; roedden nhw'n awgrymu y byddai adfer ffi gynhwysol yn dadwneud gwaith da'r consesiwn gwreiddiol. Roedden nhw'n pwysleisio pwysigrwydd y BBC wrth gadw cwmni i bobl hŷn ynysig a bregus, yn ogystal â rhoi cymorth ariannol i'r bobl dlotaf. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn gwrthwynebu adfer y consesiwn o blaid diwygio'r consesiwn presennol er mwyn targedu'r rheini sydd ei angen fwyaf, yn hytrach na dim ond copïo'r consesiwn presennol.

> *"Dwi'n meddwl y byddai hynny'n warthus. Yn gyntaf oll, oherwydd yr effaith y byddai'n ei chael ar bobl dlawd a bregus iawn. Pwrpas cael budd cyffredinol sy'n targedu carfan ddemograffig benodol ydy bod tystiolaeth yn dangos bod cyfran gymharol uchel o bobl yn y grŵp poblogaeth hwnnw mewn sefyllfa fregus. Os byddai achos yn cael ei wneud dros gyfyngu ffocws y consesiwn, mae 'na achos ar sail tystiolaeth ar gyfer pobl dros 85 oed, ond dydw i ddim yn mynd i wneud yr achos hwnnw. Petai'r consesiwn yn diflannu'n llwyr, byddai llawer o bobl ar eu colled ac yn rhy dlawd i brynu trwydded deledu, sy'n mynd i gynyddu dro ar ôl tro. Dwi ddim yn meddwl y byddai'r BBC eisiau ystyried yr olygfa o bobl hŷn, fregus yn gorfod mynd i'r llys i dalu ffioedd y drwydded. Byddai ergyd hynny i'r BBC o ran cysylltiadau cyhoeddus yn enfawr. Byddai'r papurau'n llawn storïau am bobl fregus sydd ddim yn gallu cael trwydded deledu. Dywedwch wrth y BBC am beidio â dilyn y trywydd hwnnw! Byddai hynny'n ffôl iawn." Polisi Cyfryngau*

> *"Wel, dwi'n meddwl, mae hi wastad yn anodd iawn tynnu braint oddi wrth bobl, yn enwedig pan fo'r fraint yn bwysig iawn iddyn nhw. Mae ein dinasyddion hynaf yn dibynnu ar deledu. Mae llawer ohonyn nhw'n fusgrell, yn methu mynd a dod fel yr oedden nhw'n arfer ei wneud,*

*fel mae pobl ifanc yn ei wneud ac fel y bydden nhw'n hoffi gallu ei wneud. Mae teledu yn dod â'r byd atyn nhw. Hefyd, mae'r bobl maen nhw'n eu gweld ar y teledu yn dod yn ffrindiau. Wrth iddyn nhw golli ffrindiau, colli teulu a mynd yn hŷn, mae'r bobl ar y teledu yn dod yn fwy a mwy allweddol i ansawdd eu bywyd. Dwi wedi dweud bod tynnu'r drwydded am ddim oddi wrth y bobl hynaf yn ein cymdeithas yn greulon. Dwi'n meddwl mai dyna sut bydd yn edrych." Polisi Cyfryngau*

*"Wel, wrth gwrs, mae'n diddymu'r budd cymdeithasol a oedd ynghlwm wrth sefydlu'r syniad yn y lle cyntaf. Yn yr ystyr hwnnw, mae'n gam dall yn ôl i'r hen drefn. Yn sicr, mae consesiynau penodol i bobl hŷn dros y deg mlynedd diwethaf wedi gwneud bywydau pensiynwyr yn haws o lawer." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Os ydych chi'n dlawd ac yn hen, ni ddylech fod yn talu'r ffi yn fy marn i. Mae'r BBC yn amlwg yn gwmnïaeth bwysig iawn i lawer o bobl hŷn, ac yn ffordd o gael gwybodaeth. Dwi ddim yn hoffi'r syniad bod pobl hŷn, sy'n methu fforddio, ddim yn gallu cael mynediad at y BBC, am resymau sy'n amrywio o gwmnïaeth i ddemocratiaeth." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Yn fy marn i, mae is-grŵp o bensiynwyr – yn enwedig y rhai llawer hŷn, rhai ohonyn nhw'n bur unig – sydd wir yn methu ei fforddio. Mae'r henoed yn arbennig yn mwynhau ac yn defnyddio llawer ar y BBC, yn enwedig gan mai dim ond y BBC sy'n darparu gwasanaeth radio llafar yn genedlaethol i bob pwrpas. Dwi'n meddwl y byddai'n beth gwael iawn. Felly dwi'n gwrthwynebu hynny'n llwyr." Diwydiant y Cyfryngau*

### Ymarferoldeb adfer y ffi gynhwysol

Y farn gyffredinol ymysg rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau oedd y byddai adfer ffi'r drwydded gynhwysol yn arwain at adwaith gwleidyddol sylweddol i'r BBC, ond roedden nhw'n rhanedig ynghylch a ydy hi'n risg sy'n werth ei chymryd.

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau yn tueddu i awgrymu bod risg uchel y byddai adfer ffi gynhwysol yn gwneud niwed gwleidyddol i'r BBC – petai'n dod i rym ar unwaith beth bynnag. Roedd y rheini a oedd â'r farn hon wedi rhoi dau ffactor a oedd yn golygu bod adfer ffi gynhwysol yn anymarferol yn wleidyddol: 1) dirywiad posib yng nghefnogaeth y cyhoedd i'r BBC (yn enwedig ymysg grwpiau hŷn); a 2) ymateb gwrthwynebus gan y Llywodraeth. Roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar y ffactor cyntaf, gan awgrymu y byddai angen i'r BBC asesu ymateb posib y cyhoedd cyn penderfynu adfer ffi gynhwysol; roedden nhw'n poeni y gallai statws y BBC ostwng petai'n cael ei weld yn cael gwared ar gonsesiwn i'r henoed. Roedd un neu ddau wedi canolbwyntio ar yr ail ffactor, gan awgrymu y byddai'r Llywodraeth naill ai'n ceisio rhwystro'r BBC rhag adfer ffi gynhwysol neu'n gosod rheoliadau neu gyfyngiadau ar y BBC yn y dyfodol a allai wneud niwed iddo yn y tymor hir.

*"Dwi'n amau na fyddai hynny'n ymarferol. Dyna pam dwi ddim yn meddwl mai dyma mae'r BBC yn mynd i'w wneud. Mae tynnu buddion oddi wrth grwpiau penodol o'r boblogaeth yn anoddach o lawer na'u creu yn y lle cyntaf, oherwydd bydd yn golygu creu grŵp penodol o ddefnyddwyr sydd o dan anfantais." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dwi'n meddwl y dylai'r BBC, mewn byd delfrydol, fod yn ceisio cael gwared ar y ddyletswydd benodol yma. Mae'n ymddangos yn ddyletswydd afresymol i'w gwthio ar y BBC. Mae'n amlwg bod gan y BBC - ac yn wir - y llywodraeth berthnasol ar y pryd, broblem o natur wleidyddol. O ystyried hefyd ein bod mewn cyfnod o gyni, cyfnod o bwysau, cyfnod lle mae pryderon am y bwlch cynyddol rhwng y tlawd a'r cyfoethog a lle mae pryderon am bobl o dan anfantais mewn pob math o ffyrdd, nid dim ond oed, mae'n amlwg yn anodd dros ben. Yr hen reoleiddiwr ynof fi sy'n dweud hynny. Byddwn yn gobeithio bod y BBC yn ddigon dewr i ddweud, 'Dydyn ni ddim yn dymuno bwrw ymlaen â'r consesiwn yma mwyach.' Yn fy marn i, mae dwy risg o wneud hynny. Y risg wleidyddol a thymor byr fyddai un. Byddai ffrae enfawr, a'r BBC fyddai'n cael y*

*bai. Ond, wrth gwrs, dydy'r BBC ddim yn anghymwys i ddadlau ei achos ei hun yn gyhoeddus, a dylai fod yn barod i wneud hynny." Polisi Cyfryngau*

*"Dwi'n meddwl y byddai ei ddileu'n llwyr ar unwaith yn niweidiol iawn, iawn. Bydd y wasg asgell dde yn cael llawer o hwyl, a dyna ydy'r rhan fwyaf o'r wasg yn y wlad yma. Byddan nhw'n cael modd i fyw ar draul y BBC. Dwi'n gallu gweld y byddai hynny'n niweidiol iawn i'r BBC yn wleidyddol. O ran unigolion, byddai rhai'n ymdopi. Byddent yn cwyno, ond byddent yn dal i ymdopi'n eithaf da. A byddai rhai wir yn ei chael hi'n anodd iawn, a dwi'n meddwl y dylen ni edrych arnyn nhw." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"O safbwynt gwleidyddol, mae'n annerbyniol. Dwi'n meddwl y byddai grwpiau lobïo ar gyfer yr henoed yn cwyno. Dwi o blaid, ond alla i ddim gweld hyn yn gweithio. Dydy hyn ddim yn bosib, mae'n annerbyniol yn wleidyddol. Hefyd, byddai'r BBC yn cael ei ystyried yn gybyddlyd ac yn ddi-hid, felly dwi ddim yn meddwl bod hyn yn ymarferol bosib." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dydy hyn ddim yn ymarferol bosib, oherwydd fyddai'r Senedd ddim yn caniatáu iddo ddigwydd. Fe wnaeth Jeremy Wright, yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Cyfryngau ar hyn o bryd, ddatganiad amwys iawn. Serch hynny, roedd dweud nad oedd yn disgwyl i'r BBC wneud y fath beth yn arwydd. Ei blaid ei hun oedd y bobl a wthiodd y BBC i'r sefyllfa yma yn y lle cyntaf, felly roedd yn rhagrithiol iawn ohono. Ond mae'n enghraifft o'r ffaith bod gwleidyddion yn fodlon wynebu dau gyfeiriad. Fydden nhw ddim yn cael unrhyw drafferth, felly na, dydy hynny ddim yn ymarferol i'r BBC mewn sawl ffordd. Byddai'n achosi dicter mawr yn gymdeithasol; byddai'n gwneud niwed, a byddai'r BBC yn pechu'r Senedd. Mae'n bosib y byddai hyd yn oed rhagor o waharddiadau yn cael eu cyflwyno yn y Senedd neu gan y rheoleiddiwr, Ofcom, a byddai'n peryglu trafodaethau'r BBC am ffi'r drwydded – y peth nesaf i'r BBC fydd ailbennu ffi'r drwydded mewn blwyddyn neu ddwy. Fydd y Siarter ddim yn cael ei hystyried am wyth mlynedd arall, ond bydd ffi'r drwydded yn cael ei hailbennu, a byddai hyn yn peryglu'r trafodaethau hynny." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Dwi'n meddwl mai dyna ddylai fod wedi digwydd yn y lle cyntaf, ond dwi ddim yn meddwl ei fod yn ymarferol o safbwynt gwleidyddol erbyn hyn. Ond mae hi'n gwbl amhriodol bod y BBC yn cael ei ddefnyddio fel rhan o bolisi cymdeithasol y Llywodraeth." Polisi Cyfryngau*

*"Y cwestiwn ydy, beth fyddai'r canlyniadau? Pryderon y cyhoedd dwi'n meddwl... dwi'n cymryd y byddai'n cael ei feirniadu cryn dipyn mewn rhai rhannau o'r wasg a gan rai gwleidyddion, y Llywodraeth o bosib, wn i ddim. A gan y cyhoedd o bosib, hyd at bwynt. Dwi ddim wedi gweld unrhyw arolygon diweddar sy'n dangos beth ydy barn pobl. Yn sicr, mae'n rhaid i hynny fod yn bryder allweddol mewn unrhyw asesiad risg: ydy hyn yn niweidiol i enw da a statws y BBC yn gyffredinol?" Diwydiant y Cyfryngau*

Roedd lleiafrif sylweddol yn cydnabod bod adwaith gwleidyddol yn bosib, ond yn teimlo bod adfer y ffi gynhwysol yn dal yn ddewis gwell na'r opsiynau eraill a oedd, yn eu barn nhw, yn fwy o fygythiad i iechyd y sefydliad yn y tymor hir. Doedden nhw ddim eisiau i'r BBC ysgwyddo unrhyw gost ychwanegol ar adeg pan fo'r BBC yn wynebu anawsterau ariannol yn barod yn eu barn nhw. Doedden nhw ddim chwaith eisiau dilyn y llwybr o weinyddu budd-daliadau cymdeithasol, dim ond y Llywodraeth ddylai wneud hynny yn eu barn nhw.

*"Dwi'n meddwl y dylai'r BBC fod yn barod i ymwroli, achos mae'n rhaid i rywun. Y dewis arall ydy, ac mae hyn yn risg enfawr, mai cefnogi'r gynulleidfa hŷn fydd y BBC yn ei wneud yn y pen draw, a chymryd nad ydy pawb arall yn mynd i wylio'r BBC. Mae hynny'n golygu nad oes angen ffi'r drwydded arnoch chi o gwbl mewn gwirionedd. Yna bydd y Llywodraeth yn darparu'r cymhorthdal i bobl dros 75 oed drwy'r BBC, a bydd yn rhaid i'r BBC ddod o hyd i'r arian mewn rhyw ffordd arall. Mae hynny'n syniad dychrynllyd, ond yn bosib ei ddychmygu." Polisi Cyfryngau*

*“Mae’n gwbl bosib yn ymarferol. Dwi’n meddwl mai’r opsiwn yma fydd yr un mwyaf ymarferol, gan ei fod yn safiad egwyddorol. Fe allwch chi ddweud ei bod yn amhriodol o ran egwyddor bod y BBC yn ariannu hyn drwy ddefnyddio ffi'r drwydded. O’r hyn dwi’n deall, mae ganddo hawl i wneud hynny o dan y setliad - y BBC piau’r dewis. Dwi’n meddwl ei fod yn ofnadwy mai’r BBC piau’r dewis, oherwydd fe ddylai’r BBC fod ar wahân i fyd gwleidyddiaeth, ac mae hwn yn benderfyniad mor wleidyddol. A dweud y gwir, os ydych chi’n rhoi egwyddor ar waith, dyma’r opsiwn hawsaf i’w ddewis oherwydd dyma’r un sy’n dangos egwyddor. Mae’r opsiynau eraill yn rhyw fath o gyfaddawd, heb fod yn un peth na’r llall.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Dyma’r opsiwn gorau, ond dyma'r anoddaf.” Polisi Cyfryngau*

*“Fyddai’r Llywodraeth ddim yn hapus iawn â’r BBC. Ac rydych chi’n gallu deall pam y byddai rhai pobl hŷn sy’n talu ffi’r drwydded yn siomedig dros ben, oherwydd maen nhw’n annhebygol o gael unrhyw help ychwanegol gan y Llywodraeth o ganlyniad i hyn. […]. Byddwn i’n dal i ffafrio [adfer ffi gynhwysol]. Dwi’n meddwl y byddai’n rhaid i’r BBC reoli hyn yn ofalus, ac mae’n siŵr y byddai’n rhaid i’r BBC fynd yn ôl at y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod y goblygiadau’n cael eu rheoli mor ofalus â phosib ar gyfer y grwpiau bregus sydd mewn perygl o fethu cael teledu a radio yn sgil hynny.” Polisi Cyfryngau*

*“Bydd llawer o anawsterau, oherwydd mae’n amlwg yn gofyn am arian gan bobl sydd ddim yn talu ar hyn o bryd, oni bai fod modd dod o hyd i ateb ar eu cyfer. Ond y prif fanteision ydy bod yr opsiwn yma’n cadw, neu o leiaf yn addo cadw, y lefel bresennol o ddarpariaeth gan y BBC. Ac mae’r ffaith na fydd yn ymddangos bod y BBC yn ymyrryd â pholisi cymdeithasol, a’i fod yn annibynnol ar y Llywodraeth, yn fantais ychwanegol.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“O safbwynt gwleidyddol, bydd y BBC yn cael ei feirniadu cryn dipyn. Ond dydy’r cwmnïau nwy a thrydan ddim yn talu’r cymhorthdal tanwydd, a does dim rheswm pam y dylai'r BBC fod yn talu am benderfyniad gwleidyddol i roi trwydded am ddim i bawb. Hefyd, mae’n swm enfawr o arian i’w drosglwyddo. Yn drydydd, mae’n swm aruthrol sy’n mynd i gynyddu bob blwyddyn, dros amser, a llyncu cyfran fwy a mwy o incwm y BBC. Yn olaf, mae’n trosglwyddo swm enfawr o incwm y BBC o’r genhedlaeth ifanc i’r genhedlaeth hŷn.” Diwydiant y Cyfryngau*

## Rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn

### Ymateb cyffredinol

Roedd adfer ffi'r drwydded gynhwysol yn hynod amhoblogaidd ymysg rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn.

### Gwrthwynebiad: annhegwch a thlodi ymysg pensiynwyr

Roedd gwrthwynebiad rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn yn seiliedig ar gred y byddai’n cyfrannu at dlodi ymysg y pensiynwyr hynny a fyddai’n dewis ei thalu, ac unigrwydd y rheini na fyddai’n ei thalu. Ac ystyried bod y BBC a theledu yn bwysig i grwpiau pobl hŷn, roedden nhw o’r farn y byddai rhai o’r bobl hŷn tlotaf dros 75 oed yn penderfynu gwario llai ar wres a bwyd er mwyn talu am ffioedd eu trwydded, ac eraill yn penderfynu peidio ag adnewyddu ffi eu trwydded ac mewn perygl felly o deimlo’n fwy unig. Ychwanegodd eraill bod y ffaith bod pensiynwyr wedi cyfrannu at y BBC drwy gydol eu bywydau ac yn haeddu cael eu gwobr yn ddiweddarach yn eu bywydau wedi gwneud yr opsiwn hwn yn fwy annheg fyth.

*“Mae'n annheg. Mae cymryd rhywbeth i ffwrdd bob amser yn anoddach. Mae gennym ni dystiolaeth fwy cadarn erbyn hyn i ddangos effeithiau unigrwydd ar bobl. I’r 3.9 miliwn hynny sydd byth yn mentro y tu allan i’r tŷ o gwbl, oherwydd nad ydyn nhw’n gallu, rhaid i ni gofio mai’r unig gysylltiad sydd ganddyn nhw â’r byd tu allan yw’r hyn maen nhw’n ei weld ar y newyddion ar y teledu a mathau eraill o raglenni.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rwy’n meddwl y gallwn ni ddweud bod pobl hŷn hynaf yn cychwyn yn 75 oed, ac rwy’n meddwl ei bod yn bwysig iawn, iawn i’r bobl hŷn hynaf allu cael gweld y teledu, ac ystyried proffil eu hiechyd, y potensial iddyn nhw fod yn unig, y potensial iddyn nhw fod yn gaeth i’r tŷ, y math o gymdeithas sydd gennym ni, a’r ffaith mai nhw sy’n gwylio teledu fwyaf yn y wlad. Yn gyffredinol, rwy’n meddwl y byddai tynnu’r drwydded am ddim oddi ar bobl hŷn unig yn niweidiol i les nifer enfawr ohonyn nhw. Dyna fy marn gyffredinol i.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rwy’n meddwl ei fod yn dipyn o ergyd i dynnu’r drwydded i ffwrdd, ac ystyried ei bod ar waith yn barod. Mae’n ymddangos bod nifer o bobl, neu ganran resymol o bobl yn y categori hwnnw, yn fwy caeth i’w cartrefi, oherwydd problemau symud a phroblemau’n ymwneud â mynd yn hŷn. Rwy’n meddwl efallai bod y teledu yn fwy o achubiaeth iddyn nhw nag i rai grwpiau oedran eraill, a bod yn onest, a dydyn nhw ddim yn cael hynny… Hefyd, y ffaith eu bod wedi byw gyda'r BBC ac wedi tyfu i fyny efo’r BBC yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae gan y bobl iau berthynas wahanol â'r BBC, a bydd yn rhaid i’r BBC ymateb i hynny. Rwy’n meddwl bod y genhedlaeth hŷn, y rhai dros 75 oed, wedi tyfu i fyny â'r BBC ac wedi ei werthfawrogi ac wedi aros gyda'r BBC. Rwy’n meddwl y byddai cymryd y drwydded oddi arnyn nhw’n awr braidd yn llym. Rwy’n deall yr angen yn ariannol, bod yn rhaid i’r BBC newid, a bob dim arall, ond os oeddech chi’n cael y drwydded ac wedyn yn gorfod talu amdani mwyaf sydyn, rwy’n meddwl y byddai canran o’r grŵp oedran hwnnw yn methu talu. Rwy’n meddwl y byddai’n anodd dros ben i’r rheini, dydw i ddim yn gwybod beth ydy’r ffigurau ond rwy’n meddwl y byddai’r ffigurau’n uwch ychydig i’r grŵp oedran hwnnw nag eraill, sy’n gwylio’r BBC, ond dydw i ddim yn gwybod. Mae’n siŵr bod gennych chi’r ffigurau.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Byddai hynny’n ofnadwy. Mae Age UK wedi cynhyrchu ystadegau’n barod, sy’n fuddiol dros ben, am faint o bobl fyddai’n dioddef, a byddai’n rhaid i bobl dlotach wneud penderfyniad ynghylch cadw eu set deledu neu fwyta llai o fwyd. Felly, mi fyddai hynny’n beth drwg iawn.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rwy’n meddwl bod y pendil yn mynd ormod i’r cyfeiriad arall. Fyddwn i ddim yn rhy hapus petai dim consesiynau o gwbl i neb.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rydych chi’n gweld llawer o bobl hŷn na fyddai’n talu ffi'r drwydded, felly fyddan nhw ddim yn defnyddio cynnyrch y BBC na’r teledu, a bydd hyn yn cael effaith fawr ar ba mor unig ac ynysig ydyn nhw. Hefyd, gallai hyn wthio pobl sy’n penderfynu talu am y drwydded sy’n golygu y byddan nhw’n ei chael hi’n anodd cael deupen llinyn ynghyd pan maen nhw ar incwm sefydlog yn barod. Felly, gallai hyn wneud tlodi ymysg pensiynwyr yn waeth neu mi fydd pobl yn dioddef drwy beidio â chael mynediad o gwbl.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Y peth cyntaf i’w ddweud yw y bydd hyn yn achosi llawer o ddryswch a thrallod i bobl hŷn a fydd ddim am deimlo eu bod yn torri’r gyfraith. Bydd cryn dipyn o bobl na fydd yn gallu talu, am un rheswm neu'r llall, hyd yn oed os bydd hyn yn cael ei orfodi. Mae bron i filiwn o bobl yn ein cymdeithas yn byw â dementia, maen nhw’n dirywio’n wybyddol, maen nhw yn y grŵp oedran hwn yn bennaf. Felly, fydd llawer o bobl ddim yn gallu talu am un rheswm neu’r llall, ac mi fydd hynny’n achosi problemau. Bydd rhai’n gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch a fyddan nhw’n talu’r bil yma, y bil ychwanegol yma o £155 y flwyddyn, neu’n rhoi’r gwres yn is yn y gaeaf pan fydd hi’n oer. Bydd hyn yn eu gwneud yn fwy unig a digalon, a hefyd yn cymryd rhywbeth o’u bywydau maen nhw’n ei fwynhau ar hyn o bryd.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mae unrhyw un dros 75 oed sydd â chynilon o hyd yn lwcus iawn! Oherwydd y ffordd mae'r cyni ariannol wedi taro pobl, maen nhw’n gorfod defnyddio eu cynilon drwy’r amser. Dyma’r genhedlaeth a ail-adeiladodd y wlad hon ar ôl y rhyfel. Roedden nhw’n gweithio’n galed iawn, fe wnaethon nhw greu cyfoeth economi gwlad a oedd yn fethdal ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedden ni’n fethdalwyr, roedd hi’n llwm iawn arnom ni ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Dydy'r wlad ddim yn fethdal nawr. Dyma’r bumed economi fwyaf yn y byd, ac os nad yw’n gallu gofalu am ei phobl fwyaf agored i niwed, y bobl a oedd yn gyfrifol am gael y wlad yn ôl ar ei thraed, y bobl a weithiodd, a gynilodd, a wnaeth popeth y gofynnwyd iddyn nhw ei wneud... Pan oeddwn i’n ifanc, roeddwn i’n gweithio fel roedd pobl yn dweud wrtha i am wneud, ‘Gweithia, cynila, oherwydd mae hyn ar gyfer pan fyddi di’n hŷn.’ Nawr fy mod i’n hŷn, beth*

*sy'n digwydd? Dim byd, felly ar ddiwedd y dydd, rydych chi'n sôn am y bobl fwyaf bregus a rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed sydd gennym ni yn y wlad hon." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Yn ein barn ni, mae llawer o bobl hŷn 75 oed a hŷn sy'n byw mewn tlodi, a byddai £150 y flwyddyn am drwydded deledu yn gryn dipyn o arian i rai o'r bobl hyn gael gafael arno. Heb os nac oni bai, bydd rhai pobl dros 75 oed yn gallu fforddio talu'r drwydded deledu heb drafferth. Does dim amheuaeth ynghylch hynny, ond mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth hefyd a fydd yn ei chael yn anodd. [...] Y drwydded deledu, i lawer o bobl hŷn a all fod yn teimlo'n unig ac yn ynysig, mae'r teledu yn ffynhonnell gyfathrebu ac yn gwmni iddyn nhw." Grwpiau Pobl Hŷn*

#### Ymarferoldeb adfer ffi'r drwydded gynhwysol

Roedd rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn o'r farn y byddai'n dechnegol bosib i adfer ffi'r drwydded gynhwysol ond y byddai'n anymarferol o ran yr effaith y byddai'n ei chael ar grwpiau pobl hŷn. Nid oedden nhw'n meddwl y dylid ystyried ymarferoldeb gweithredol heb ystyried yr effaith ehangach.

*"Rwy'n meddwl y bydden nhw'n amhoblogaidd iawn. Ni fyddai pobl yn hapus i weld y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael y cyflog mae'n ei gael ac i gyflwynwyr, fel John Humphrys, gael yr arian mae'n cael ei dalu allan o ffi trwydded pobl hŷn 75 oed sy'n dlawd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Wel, o safbwynt logistaidd, mae'n ymarferol bosib. Byddan nhw'n gallu gwneud hyn yn rhwydd iawn, ond rwy'n meddwl y byddai'r effaith yn enfawr ar bobl hŷn. Felly, y cwestiwn yw a yw'n foesol gywir i wneud hyn." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Wel, mae'n ymarferol bosib o ran ei fod yn gallu cael ei gyflwyno. Dyma ein barn ni unwaith eto: petai pawb yn talu cyfradd safonol o £150 am drwydded deledu, mae nifer sylweddol o bobl hŷn na fyddai'n gallu gwneud hynny mewn gwirionedd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae'n siŵr mai dyma'r opsiwn hawsaf iddyn nhw, ond o safbwynt gweithredol, dydw i ddim yn siŵr a fydd fy marn o werth ychwanegol i'r cwestiwn hwnnw. Byddai'n ymarferol bosib o'u safbwynt nhw; ond nid yn ymarferol o safbwynt y rhanddeiliaid." Grwpiau Pobl Hŷn*

## Diwygio'r consesiwn

### Rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau

#### Ymateb cyffredinol

Diwygio'r consesiwn oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd o blith y tri opsiwn cyffredinol ymysg rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau. O'r tri opsiwn diwygio posib a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori – gostyngiad o 50% ar ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed; codi'r trothwy oedran cymwys i 80; a phrawf modd yn defnyddio Credyd Pensiwn – prawf modd oedd y ffefryn amlwg ymhlith rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau.

#### Prawf modd gan ddefnyddio Credyd Pensiwn

Dywedodd y rheini a oedd o'r farn mai prawf modd oedd yr opsiwn gorau, mai dyma'r opsiwn tecaf a mwyaf rhesymol, a hefyd yr opsiwn a fyddai'n costio llai na'r opsiynau diwygio eraill. Roedden nhw o'r farn bod y consesiwn gwreiddiol wedi bod yn ffordd o geisio helpu i liniaru tlodi ymysg grwpiau pobl hŷn, ond nad oedd yn gweithio gystal erbyn hyn o feddwl fod llawer o bensiynwyr yn gefnog. Roedden nhw'n meddwl y byddai prawf modd yn helpu i fynd yn ôl at fwriad gwreiddiol y consesiwn a sicrhau bod cyn lleied â phosib o effaith negyddol ar ansawdd rhaglenni'r BBC ar gyfer talwyr eraill ffi'r drwydded. Roedden nhw'n gobeithio felly y byddai hyn yn osgoi'r adwaith gan y cyhoedd roedden nhw wedi'i ragweld pe byddai'r BBC yn adfer ffi trwydded gynhwysol.

Roedd rhai wedi darllen y papur ymgynghori'n llawn ac yn gwybod mai prawf modd gan ddefnyddio Credyd Pensiwn oedd yr opsiwn lleiaf costus o blith yr opsiynau diwygio. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl eraill yn anghyfarwydd â'r ffigurau, ond roedden nhw wedi cymryd mai prawf modd fyddai'r opsiwn

mwyaf cost effeithiol o blith yr opsiynau diwygio ac ystyried mai'r aelwydydd tlotaf fyddai hyn yn ei dargedu; oherwydd hyn, roedden nhw'n fwy tebygol o gefnogi hyn.

*"Y prawf modd, mae'n debyg, rwy'n meddwl. Rwy'n deall y pwynt bod y boblogaeth yn heneiddio, a phe byddai pawb dros 75 oed yn peidio â thalu ffi'r drwydded, byddai hyn yn golygu diffyg enfawr yn incwm y BBC. Rwy'n meddwl y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar eu cynnyrch a'r hyn y gallen nhw ei ddarparu i'r cyhoedd. Ond rwy'n deall hefyd mai'r rheswm dros ei gyflwyno yn y lle cyntaf yn 2000 oedd bod llawer o bobl dlawd dros 75 oed nad oedden nhw o reidrwydd yn gallu fforddio ffi'r drwydded, ac rwy'n deall rôl teledu o ran helpu i roi gwybodaeth i bobl, a helpu hefyd gydag unigrwydd. Felly, rwyf am i bobl sydd wir ddim yn gallu fforddio'r drwydded i gael y cyfle i wylio'r teledu, ond rwy'n meddwl bod llawer iawn o bobl dros 75 oed sy'n gallu fforddio hyn yn hawdd. Felly, rwy'n credu ei fod yn gwneud synnwyr i gynnal prawf modd ar gyfer pobl dros 75 oed. " Diwydiant y Cyfryngau*

*"Ers hynny, rydw i'n meddwl bod llawer o bobl yn teimlo nad oes angen gwneud hynny ac, mewn gwirionedd, mae pobl hŷn, llawer ohonynt, yn gallu fforddio talu ffi'r drwydded ac, yn wir, yn fodlon talu ffi'r drwydded. Rwy'n meddwl ei bod hi'n anodd oherwydd, yn amlwg, fe wnaeth y polisi hwn symud yr egwyddor o fod yn gynhwysol am y tro cyntaf. Roedd ffi'r drwydded yn arfer bod yn gynhwysol ac, yn sydyn, nid oedd yn gynhwysol mwyach. Yn sydyn, roedd trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed. Yn bersonol, rwy'n credu ei bod yn anffodus ei fod wedi'i gyflwyno fel cysyniad o gwbl oherwydd rwy'n meddwl ei fod yn gwanhau sefyllfa'r BBC. Ond rwy'n credu os bydd y BBC yn mynnu bod pawb dros 75 oed yn gorfod talu'n awr, y gallai hynny effeithio ar enw da'r BBC. Rwy'n credu y byddai'n anodd i'r pensiynwyr hynny sydd ddim yn gallu fforddio'i thalu, ac y byddai'n arwain at straeon newyddion negyddol ac, yn wir, sefyllfaoedd anodd i bobl sy'n cael Credyd Pensiwn. Felly, rwy'n meddwl bod y ffaith ei fod wedi bod ers 2010, byddai'n llawer gwell i'r BBC fynd am yr hyn a fydd yn cael ei weld fel ymateb teg gan y rhan fwyaf o bobl, sef bod pensiynwyr sy'n byw ar eu pen eu hunain ac yn cael Credyd Pensiwn yn cael cadw trwydded yn rhad ac am ddim ond bod pawb arall dros 75 oed yn talu". Diwydiant y Cyfryngau*

*"O blith y tri opsiwn, mae'n debyg mai'r prawf modd yw'r un gorau, am ddau reswm; a) oherwydd dyma'r opsiwn mwyaf rhesymol a'r opsiwn mwyaf graddol oherwydd y byddai'n cadw'r drwydded deledu am ddim i gartrefi sy'n wirioneddol dlawd, os ydyn nhw'n cael buddion pensiwn; b) dyma, fwy na thebyg, yw'r ffurf fwyaf ymarferol o brofi modd oherwydd mae unrhyw ffurf o brofi modd yn gofyn am broses fiwrocrataidd i weld pa gartrefi sy'n gymwys a pha rai sydd ddim. Bydd mynd ati fel hyn yn lleihau costau gweithredu profion modd oherwydd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwybod yn barod pa aelwydydd sy'n hawlio credyd pensiwn, felly rwy'n tybio y byddan nhw'n mynd i frig cronfa ddata sy'n bodoli eisoes i wneud hynny." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Er nad ydw i'n hoff iawn o'r prawf modd, pan fydd pethau'n anodd, dyma'r ffordd decaf. Mae Credyd Pensiwn yn un eithaf da [i'w ddefnyddio]. Mae'n un teg mewn gwirionedd, mae'n ymddangos bod y bobl sydd wirioneddol ei angen yn ei gael heb ormod o drafferth, yn wahanol i rai budd-daliadau eraill. Rwy'n credu mai dyma'r ffordd decaf os ydych chi am ddewis pwy sydd wirioneddol angen hyn." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Y prawf modd ar gredyd pensiwn yw'r system orau i bob golwg, ond dydw i ddim yn gwybod pam eich bod yn dewis pobl dlawd sy'n hen, yn hytrach na phobl sydd ar incwm isel." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Bydd yn rhaid iddyn nhw gynnal profion modd ar ei gyfer, rwy'n meddwl, oherwydd dydw i ddim yn meddwl ei bod yn iawn fod pobl gyfoethog iawn ddim yn talu am eu trwydded deledu. Dwi wir ddim, dwi erioed wedi. Dwi erioed wedi meddwl hynny. Felly, rwy'n meddwl i'r bobl hynny sydd wirioneddol ddim yn gallu - i'r bobl sydd â gwir angen, mae hyn yn hanfodol, ac mae'n eu cadw mewn cysylltiad, ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd, fydden nhw ddim yn gallu fforddio gwneud hynny pe byddai'n rhaid iddyn nhw ddechrau talu amdano. Yna dylai'r BBC dalu am eu costau,*

*ond rwy'n meddwl bod rhyw o ffordd o allu codi tâl ar bobl sy'n gallu ei fforddio, ac, a bod yn onest, mae llawer o bensiynwyr yn gallu ei fforddio. " Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n wirioneddol ffafrio rhyw fath o brawf modd. Mae'n torri dwy ran o dair o'r gost efallai, yn fy marn i. Os ydych chi'n mynd i ddiwygio, dyma'r ffordd decaf a'r fwyaf effeithiol." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dyma'r ffordd o'i wneud. Os ydych chi'n mynd i'w wneud, a dydw i ddim yn siŵr a ddylid ei wneud, ond os ydych chi'n mynd i'w wneud, yna dyma'r ffordd o'i wneud." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n poeni llawer am unigrwydd y pensiynwyr sydd â'r incwm isaf. Dydw i ddim yn gwybod pa mor ymarferol i'r BBC fyddai gweithio allan pwy yw'r boblogaeth sy'n cael Credyd Pensiwn. Mae hynny yn rhywbeth i'w ystyried wrth gwrs, a bydd hynny'n arwain at gostau ond, gan dybio ei bod yn hawdd cael gwybodaeth ar draws systemau, oherwydd bod mynediad i gofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau a phopeth arall, mae'n debyg y byddai'n arbed cryn dipyn o arian ac mae modd ei amddiffyn." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Yr hyn y mae Frontier wedi'i ddangos yw mai pensiynwyr, mewn gwirionedd, yw'r grŵp oedran lleiaf tebygol o fod mewn tlodi, ond mae llawer o bensiynwyr yn byw mewn tlodi. Felly, yr ateb priodol yw targedu'r consesiwn ar yr aelwydydd â phensiynwyr sy'n cael Credyd Pensiwn, ac mae hynny'n golygu bod 72% yn llai o golled i raglenni. Does yr un o'r polisïau hyn yn berffaith, ond o fewn yr hyn sy'n bosib, mae'n lleihau nifer y bobl dros 75 oed sy'n byw mewn tlodi ac yn talu am ffi'r drwydded. " Polisi Cyfryngau*

Roedd cyfuno'r consesiwn gyda Chredyd Pensiwn yn cael ei weld ar y cyfan randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau fel ffordd dda o weithredu'r prawf modd. Er nad oedd ganddyn nhw wybodaeth fanwl am sut y gallai hyn weithio'n ymarferol, roedd y sawl a oedd yn cefnogi hyn yn tybio y byddai'n gweithio'n dda am ddau reswm: a) roedden nhw'n meddwl y byddai'n targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen yn effeithiol, ac yn lleihau'r gost i'r BBC, a b) roedd y rhan fwyaf (ond nid pawb) yn tybio y byddai'r baich gweinyddol ar y BBC yn fach ac ystyried bod system yn bodoli eisoes y gellid ei defnyddio.

*"Dydw i ddim yn gwybod pa mor ymarferol i'r BBC fyddai gweithio allan pwy yw'r boblogaeth sy'n cael Credyd Pensiwn. Mae hynny yn rhywbeth i'w ystyried wrth gwrs, a bydd hynny'n arwain at gostau ond, gan dybio ei bod yn hawdd cael yr wybodaeth ar draws systemau, oherwydd bod mynediad i gofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae'n debyg y byddai'n arbed cryn dipyn o arian ac mae modd ei amddiffyn." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"A chymryd bod y Credyd Pensiwn wedi cael ei dargedu'n briodol, mae'n golygu ychydig iawn o fiwrocratiaeth ychwanegol, os o gwbl, oherwydd bod Credyd Pensiwn yn bodoli'n barod. Does dim angen sefydlu llawer o fesurau, a bydd gweithredu hyn ddim yn anodd iawn, oherwydd bod Credyd Pensiwn ar waith yn barod. Felly, i mi, dyma'r dewis gorau o bell ffordd, ac ystyried y sefyllfa, o ran ei fod yn lleihau'r golled i'r rhaglenni ar gyfer pawb, ond hefyd yn lleihau nifer y pensiynwyr sy'n 75 oed a throsodd sydd wir yn byw mewn tlodi ac y byddai cost ffi'r drwydded, ar ben eu costau eraill, yn effeithio er gwaeth arnyn nhw." Polisi Cyfryngau*

Serch hynny, roedd lleiafrif bach yn erbyn profion modd. Roedd hyn, gan amlaf, ar y sail y byddai'n ychwanegu baich gweinyddol sylweddol ar y BBC, ac nid oedd y rhanddeiliaid yn credu bod gan y BBC y seilwaith i ddelio â hyn. Cyfeiriodd eraill at y gyfradd gymharol isel o bobl hŷn oedd yn cael Credyd Pensiwn, gan ddadlau y byddai consesiwn ffi trwydded y BBC ar sail Credyd Pensiwn yn debygol o fethu llawer o'r bobl roedd yn ceisio ei dargedu.

*"Yr un gwaethaf yw prawf modd oherwydd bod llawer o broblemau'n codi gyda phrofion modd. Un, mae'n hunllef, ac yn fiwrocrataidd iawn; a dau: mae'n cyflwyno pob math o rwystrau a hefyd mae pobl*

*sy'n dda am roi arian mewn gwahanol bocedi yn cael trwyddedau am ddim pan nad oes ganddyn nhw hawl i hynny. Ac rydym ni i gyd yn gwybod nad yw pobl dlawd yn hawlio'r budd-daliadau mae ganddyn nhw'r hawl iddyn nhw. Mae pob math o ragfarn yn hyn, ac rwy'n meddwl y dylai'r BBC gadw'n glir." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae tua un rhan o bump o bensiynwyr yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ond ddim yn ei hawlio oherwydd y broses prawf modd. Mae'r budd cynhwysol o gael trwyddedau am ddim ar gael i bawb. Os byddwch chi'n defnyddio'r dull Credyd Pensiwn, byddai'n fwy costus, ac ni fyddai'n cyrraedd pawb a allai o bosib gael budd o hynny." Polisi Cyfryngau*

*"Mae profi modd yn swnio'n dda iawn mewn egwyddor, ond rwy'n gryf o blaid lleihau nifer y profion modd ar gyfer henoed. Dyma mae'r consensws trawsbleidiol ar ddiwygio pensiynau wedi'i fabwysiadu ers 2010. Oherwydd y problemau sy'n codi gyda phrofion modd o ran cymell/peidio cymell pobl i gynilo a pharatoi ar gyfer ymddeoliad pobl, mae anfanteision i brofion modd. Un o'r problemau hefyd yw bod angen prawf llawer mwy cymhleth na dim ond gofyn, 'gawsoch chi eich geni cyn neu ar ôl dyddiad penodol?' Felly, mae gwaith gweinyddol ynghlwm wrth hynny. Byddai manteisio ar y system Credyd Pensiwn yn gwarchod rhai o'r bobl dlotaf, ond yn amlwg, nid pob un ohonyn nhw, oherwydd mae cyfradd y bobl sy'n cael Credyd Pensiwn yn anghyflawn. Felly, mae'n debyg y byddai hyn yn lleihau'r gost yn sylweddol, oherwydd, o'i gymharu, dim ond cyfran fach o'r boblogaeth pensiynwyr sy'n cael Credyd Pensiwn. Nid yw'n ddi-gost." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Mae profi modd yn drafferthus iawn. Mae gennych chi enghraifft eisoes sef taliad tanwydd gaeaf nad yw'n seiliedig ar brawf modd, ar y sail y byddai'n rhy gymhleth i wneud hynny. Dydw i ddim yn gweld pam y byddai ffi trwydded y BBC yn llai cymhleth." Polisi Cyfryngau*

*"Sut mae hynny'n gweithio gyda'r sefyllfa bresennol lle mae un person dros 75 oed yn yr aelwyd, ydych chi'n golygu asesu pawb ar yr aelwyd honno? Mae'n swnio'n gymhleth dros ben ac yn ddrud." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae gen i dipyn o brofiad o'r broses profi modd a dwi'n meddwl ei fod yn hurt, y syniad y byddai'r BBC yn mynd am rywbeth fel hyn. Ers degawdau, mae llywodraethau wedi bod yn ceisio symleiddio'r system fudd-daliadau a'i symleiddio ar gyfer pobl sy'n cael budd-daliadau, ond hefyd i adrannau sy'n gweinyddu'r budd-daliadau hynny, yn enwedig budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd, sy'n gallu bod yn eithaf cymhleth. Felly, os oes unrhyw awgrym bod y BBC yn mynd i greu adran gyfan newydd i reoli budd-dal newydd sbon sy'n dibynnu ar brawf modd, bydd hynny ynddo'i hun yn gofyn am arbenigedd i'w reoli, a does gan y BBC ddim hynny. Mae'n mynd i fod yn ddrud iawn i'w weinyddu yn ogystal â thalu'r budd-daliadau hefyd, felly byddai hyn bron yn ganlyniad sy'n mynd yn groes i'r broses hon, er mae'n amlwg mai dyma'r opsiwn a fyddai'n arbed yr arian mwyaf rhag cael ei dorri o gyllideb y BBC." Polisi Cyfryngau*

### Codi'r trothwy oed i 80 oed

Roedd lleiafrif bychan o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau o blaid codi'r trothwy oed i 80. Er nad oedden nhw'n frwdfrydig iawn dros hyn, roedd y rheini a ddywedodd mai dyma'r opsiwn gorau yn credu ei fod yn gwneud synnwyr ac ystyried bod poblogaeth y DU yn byw'n hwy. Dywedon nhw fod yr oedran pensiwn yn cynyddu am yr un rheswm, ac roedden nhw'n teimlo ei fod yn gwneud synnwyr i'r trothwy oedran ddilyn yr un drefn ar gyfer rhai o'r budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag oed ar gyfer yr henoed (fel consesiwn ffi'r drwydded). Dywedodd ambell un bod hyn hefyd yn gwneud yr opsiwn yn dderbyniol i'r cyhoedd, oherwydd bod cynsail eisoes ar waith.

*"Mae hynny'n bosibilrwydd. Rwy'n meddwl mai dyma'r unig un, fwy na thebyg, sydd â dadl resymegol yn perthyn iddo, ac ystyried bod ein cymdeithas yn heneiddio ac yn byw'n hwy, yn gyffredinol. Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau.*

*“Mae cynyddu'r trothwy oed yn un amlwg. Mae hyn wedi digwydd gyda phensiynau oherwydd mae hynny’n amlwg yn fater ynghylch fforddiadwyedd i'r Llywodraeth, felly maen nhw wedi bod yn ei godi’n uwch ac yn uwch. Yn y pen draw, bydd yn cyrraedd 70 ac wedyn, 80 yn y pen draw, mae’n siŵr. Rydw i'n meddwl bod hynny'n gwbl resymol.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Mae Opsiwn B yn rhyw fath o weithio yn y tymor byr oherwydd bod disgwyliad oes wedi codi.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Ynghylch codi'r trothwy oed, rwy'n credu bod consensws eithaf rhesymol yn bodoli yn sgil adolygiad o oedran pensiwn y wladwriaeth, a phopeth sydd wedi mynd cyn hynny gyda'r Comisiwn Pensiynau ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon, ynghylch cynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth yn unol â hirhoedledd. Mae pawb yn mynd ar drywydd targed sy’n newid. Gallwch weld yr achos dros ddefnyddio’r rhesymeg honno. […] Fyddech chi’n bendant ddim eisiau gwneud hyn dros nos. Byddwch chi am wthio pawb yn ôl flwyddyn neu rywbeth.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Mae 80 yn ffigur rhesymol i anelu ato, mae’n siŵr. Os ydych chi'n dymuno cael rhywbeth fel ‘Brexit meddal’, dyma'r Brexit meddal cyfatebol. Mae'n swnio fel eich bod yn arbed rhywfaint o arian felly iawn, rydych chi'n gwneud y peth iawn o ran y trethdalwr yn gyffredinol, dydych chi ddim yn helpu gormod ar bobl hŷn, ond rydych chi'n cydnabod y gallai fod problem i bobl hŷn. Dyna fy Brexit meddal i; os ydych chi am werthu hyn, mae hwn yn un da i’w werthu.” Polisi Cyfryngau*

Nid oedd y rhan fwyaf, fodd bynnag, yn credu y byddai codi'r trothwy oed ar ei ben ei hun yn datrys rhai o'r problemau sylfaenol maen nhw wedi'u cael gyda'r consesiwn presennol, sef ei fod yn ddrud a ddim yn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Dywedon nhw, wrth i’r boblogaeth heneiddio, y byddai’n rhaid i’r BBC barhau i godi'r trothwy oed er mwyn atal cost y consesiwn rhag cynyddu'n anghymesur. Roedden nhw o’r farn hefyd nad oedd yr opsiwn hwn yn arbennig o gost-effeithiol i'r BBC. Ychwanegodd cwpl hefyd mai’r rheini sy'n tueddu i fyw'r hiraf yw’r rhai mwyaf cefnog, ac felly mewn llai o angen am gonsesiynau ariannol, fel arfer.

*“Ni fyddai ei godi i 80 yn arloesol, ac mae rhoi gostyngiad i aelwydydd cyfoethog yn dal yn aneffeithlon. Yr unig fantais yn hyn yw y bydd yn arafu'r cynnydd yng nghost ffi'r drwydded am ddim dros amser.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Mae hwn yn agwedd ddirmygus, neu beth fyddech chi'n gallu ei wneud heb i neb eich stopio. Rwyf yn erbyn ei wneud, felly dydw i ddim yn meddwl fy mod i'n gallu rhoi union oed sy’n well neu'n waeth nag 80 yn fy marn i.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Rydych chi'n cynyddu'r trothwy oed, yn osgoi gwneud penderfyniad pwysig, ac efallai, yn wir, gall hyn fod yn ffordd o ddelio â’r sefyllfa. Mae pobl yn dechrau dod i arfer â'r cynnydd yn yr oedran pensiwn, ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth. Mae cynsail yn bodoli ar gyfer hynny. Ni fyddai hyn mor wael. Byddai ychydig yn llai o anghydweld, byddai hyn ychydig yn llai amhoblogaidd, ond ni fyddai’n datrys y broblem sylfaenol. Mae hwn yn gyfle i ddatrys y broblem sylfaenol.” Polisi Cyfryngau*

*“Rwy’n meddwl, o ran y ffordd mae demograffeg yn mynd, gyda mwy a mwy o bobl hŷn, dydw i ddim yn siŵr. Fe fyddech chi’n gorfod gwneud rhywbeth arall eto mewn ychydig flynyddoedd, felly dydw i ddim yn siŵr bod codi’r trothwy bum mlynedd yn gwneud digon o wahaniaeth. Hefyd, efallai eich bod chi’n 78 oed ac yn dlawd iawn, a dydy hyn ddim yn help i chi. Felly, rwy'n teimlo braidd yn anghyfforddus gyda hyn.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Mae’n siŵr mai’r bobl sydd fwyaf mewn angen o’r drwydded am ddim yw’r bobl dlawd yn y lle cyntaf, a dydyn nhw ddim yn byw cyn hired â phobl gyfoethocach. Hefyd, maen nhw’n dioddef mwy o salwch ac anabledd yn y blynyddoedd diweddarach.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

### Gostyngiad o 50% i bobl dros 75 oed

Roedd lleiafrif bach o randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau o’r farn mai rhoi gostyngiad o 50% yn ffi'r drwydded i’r rheini sydd dros 75 oed oedd yr opsiwn diwygio gorau. Roedd cefnogwyr yn meddwl ei fod yn “gyfaddawd ymarferol”, ond roedd y rhan fwyaf o’r bobl eraill yn ei weld fel ymgais i “osgoi” heb roi sylw i'r pryderon sylfaenol ynghylch cost a thegwch. Roedden nhw’n teimlo bod y ffigur 50% yn fympwyol, a bod y dull gweithredu cyffredinol yn llai rhesymegol na phrawf modd neu godi'r trothwy oed, ac yn golygu bod gan y BBC gostau sylweddol o hyd hefyd.

*“Oni fyddai gostyngiad o 50%, mewn rhai ffyrdd, yn gyfaddawd ymarferol? Does dim llawer o sail resymegol i'r polisi presennol, ac os nad oes modd cael gwared ar y consesiwn yn llwyr, yna yr hyn rydych chi'n ei ddweud yw ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o sail dros leihau taliad.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Rhoi gostyngiad o 50% fyddai'r ail opsiwn i mi oherwydd mae £12.50 y mis yn llawer. Mae £6 yn dal yn llawer iawn i rai, ond byddai’r rhan fwyaf o bobl sydd wir yn gwerthfawrogi hyn yn gallu dod o hyd i'r arian hwnnw, ar yr amod eu bod yn ymwybodol o'r opsiwn hwnnw.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Mae'r cwestiwn yn dod yn ôl i pam rydych chi eisiau rhoi budd i bobl dros 75 oed?” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Byddwch chi’n dal i fod yn rhoi gostyngiad i lawer o gartrefi sydd ddim angen un oherwydd eu bod yn gallu fforddio. Byddai'n golygu bod swm penodol yn cael ei dynnu o’r gost gyffredinol, ond byddai'n dal yn gadael dyletswydd benagored fawr iawn dros amser.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Nid yw’r gostyngiad o 50% yn delio â'r broblem o hyd. Byddai'n golygu bod aelwydydd tlotach yn dal yn gorfod chwilio am arian, a'r cartrefi cyfoethocach yn cael consesiwn di-dreth, er mai dim ond £75 y flwyddyn fyddai hyn, a hynny’n cynyddu'n gyflym. Dydw i ddim yn meddwl y byddai’r opsiwn hwnnw’n gweithio go iawn. ” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Wel, mae’n amlwg bod darparu hyn ar sail gostyngiad, dyweder 50%, yn golygu eich bod yn cael 50% o'r holl effeithiau yn y naill gyfeiriad. Felly, byddwch chi’n cael hanner y toriadau, ond ar y llaw arall, byddwch yn cael hanner yr effaith ar bobl dros 75 oed sy’n dlotach.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Rydych chi'n dal yn rhoi gostyngiad i bawb pan mai dim ond lleiafrif o'r bobl sydd wirioneddol ei angen”. Polisi Cyfryngau*

*“Mae hyn yn ei wneud yn llai gwael, ond mae'n ei wneud yn bolisi rhatach, ond mae’n dal i fod yn ddrud ac yn targedu’n wael.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“O ran gostwng ffi'r drwydded, mae rhyw elfen o osgoi gwleidyddol yma. Fyddwn i ddim yn synnu pe bydden ni’n gweld rhywbeth fel hyn yn y diwedd, ond mae'n fy nharo i, unwaith eto, fel rhywbeth anfoddhaol. Mae’n fater y mae angen rhoi sylw iddo nawr.” Polisi Cyfryngau*

*“Mae’r annhegwch yn dal i fodoli: pobl sy'n gallu fforddio yn talu cwpl o gannoedd o bunnoedd am ffi'r drwydded, sy'n dal yn werth anhygoel.” Polisi Cyfryngau*

## Rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn

### Ymateb cyffredinol

Dim ond lleiafrif o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn oedd am weld opsiwn diwygio'r consesiwn. O'r tri opsiwn diwygio posib a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori, profi modd oedd yr un a fyddai’n achosi'r rhwyg fwyaf, a chafodd yr opsiwn codi'r trothwy oedran neu ostwng ffi'r drwydded gefnogaeth weddol.

### Codi'r trothwy oed i 80 oed

Gan ystyried yr ail ddewis gorau, codi'r trothwy i 80 oed oedd yr opsiwn diwygio mwyaf poblogaidd ymhlith rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn. Roedd y rheini oedd yn cefnogi hyn yn fwy nag opsiynau eraill yn dweud ei fod yn gwneud synnwyr rhesymegol, gan fod disgwyliad oes yn uwch na'r adeg y cafodd y

consesiwn ei gyflwyno, a bod pobl hŷn yn dueddol o fod yn iachach ar oedrannau hŷn nag yr oedden nhw yn y gorffennol. Roedd hyn felly yn lleihau'r angen am gefnogaeth a chymhorthdal ariannol. Ychwanegodd rhai hefyd y byddai'r bobl hynaf – sy'n aml yn dueddol o fod y fwyaf ynysig ac mewn perygl o wynebu problemau iechyd – yn parhau i gael eu cynnwys yn y consesiwn. Ond dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn, a oedd yn cefnogi'r opsiwn hwn, y byddai'n well ganddyn nhw bod y consesiwn ar gael i'r rheini sydd dros 75 oed, yn hytrach nag 80 oed.

*Ni fyddwn i'n gwrthwynebu iddo gynyddu i 80. Gyda 75, mae mwy o bobl yn byw yn hirach ac yn hŷn. Mae mwy o bobl yn byw yn y categori hwnnw. Wyth deg ydy'r 70 newydd neu beth bynnag rydych chi eisiau ei alw! Felly, rwy'n meddwl y byddai'n eithaf teg." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl pe bydden nhw am wneud rhywbeth, yna codi'r trothwy i 80 fyddai'r opsiwn lleiaf poenus mae'n siŵr, ond rwy'n credu bod 75 yn oed synhwyrol, a dydw i ddim yn meddwl y dylen nhw wneud un o'r ddau arall. Dylai pobl hŷn, fregus sydd wedi'u hynysu gael mynediad at deledu yn rhad ac am ddim, fel maen nhw wedi'i wneud yn y gorffennol, oherwydd mae'n hanfodol iddyn nhw. Mae llawer o bobl yn eu 70au canol sydd wedi'u hynysu ac yn gaeth i'r tŷ, a ddim yn mynd allan ryw lawer, ac mae'r teledu yn hanfodol iddyn nhw. Felly, mae'n ymddangos i mi y dylen nhw gadw at 75 oed, ond os mai 80 yw'r unig ffordd maen nhw'n meddwl sy'n bosib, yna dyna'r dewis gorau o'r gwaethaf." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Rwy'n meddwl mai'r opsiwn mwyaf derbyniol o blith yr opsiynau hynny siŵr o fod yw codi'r trothwy i 80, efallai oherwydd bod pobl yn iachach erbyn hyn, ac yn byw yn hirach ac yn ymddeol yn hwyrach yn eu bywydau. Felly, mewn gwirionedd, mae pobl yn llawer iachach ac yn fwy heini pan maen nhw'n hŷn. O ran ffordd o fyw, efallai bod pobl 80 oed heddiw yn debycach i bobl 75 oed 10 mlynedd yn ôl, os yw hynny'n gwneud synnwyr. Felly, codi'r trothwy bum mlynedd, siŵr gen i, fyddai'r opsiwn mwyaf derbyniol o blith y tri opsiwn hyn, ond dydw i ddim wir yn hoffi unrhyw un ohonyn nhw. Efallai mai dyma'r hawsaf i bobl ei ddeall, mai dim ond codi'r oedran fydd yn digwydd, fel bod y bobl fwyaf agored i niwed ac ynysig yn bendant yn elwa, oherwydd os ydyn nhw'n bum mlynedd yn hŷn maen nhw o bosib yn mynd i fod yn fwy bregus ac yn fwy dibynnol ar eu set deledu." Grwpiau Pobl Hŷn*

### Prawf modd gan ddefnyddio Credyd Pensiwn

Roedd lleiafrif o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn o blaid prawf modd, gan awgrymu mai dyma'r ffordd decaf a symlaf, i bob golwg, o wneud yn siŵr bod y rhai mwyaf bregus ymysg pobl dros 75 oed a'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ariannol yn gallu parhau i gael consesiwn yn ffi'r drwydded.

*"Rwy'n meddwl y dylid cael prawf modd. Dydych chi ddim eisiau gorgymhlethu pethau. Dylai pobl sy'n cael credyd pensiwn allu hawlio ffi'r drwydded am ddim , os ydyn nhw dros oed penodol." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Rwy'n credu bod y prawf modd yn deg. Cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn iawn. Os yw'n syml a ddim yn rhy ddrud i'w wneud, byddwn o blaid hynny, o blaid profi modd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Manteision prawf modd yw y byddai'r rheini sydd dan anfantais [yn dal i allu] dibynnu ar deledu am gwmnïaeth, ar gyfer adloniant ac i gael gwybodaeth, waeth beth fo oedran hefyd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Asesiad modd mwy penodol fyddai'r ffordd decaf. Pa un ai fod hyn wedi'i raddio fel bod y rheini sy'n uwch na lefel benodol yn talu'r cyfan; y rheini sydd mewn rhyw fath o fand canol yn talu 50%; a'r rheini sydd leiaf abl yn ariannol, yn talu dim a bod ffi'r drwydded am ddim iddyn nhw, neu ba bynnag ddull y byddwch chi'n ei ddefnyddio. Mae'n ymddangos fel un a ddylai wneud synnwyr." Grwpiau Pobl Hŷn*

Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif bychan o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn mai prawf modd oedd yr opsiwn diwygio roedden nhw'n ei ffafrio leiaf. Roedd llawer o'r rheini'n gryf yn ei erbyn. Roedd dau brif reswm dros hyn. Yn gyntaf, roedden nhw o'r farn ei fod yn llawer mwy costus na'r hyn a dybiwyd

ac yn faich gweinyddol ar y BBC, pa un ai a bod hyn yn cael ei wneud drwy'r system Credyd Pensiwn neu beidio. Roedden nhw wedi cael gwybod ar lafar yn aml fod costau cudd gyda phrofion modd, hyd yn oed os nad oedd ganddyn nhw brofiad uniongyrchol o weinyddu hyn eu hunain. Felly, roedden nhw'n annhebygol o gefnogi hyn oni bai fod y BBC yn gallu sicrhau na fyddai'r costau yn mynd yn uwch na'r gyllideb. Roedden nhw'n teimlo hefyd y byddai'n anodd o safbwynt gweithredol, gan greu llawer iawn o waith gweinyddol i'r BBC.

*"Dydw i ddim yn cytuno gyda'r prawf modd. [Rwyf wedi cael gwybod bod] costau profion modd mor anghymesur o ran y swm y byddwch chi'n ei arbed, nad ydyn nhw byth yn dewis y llwybr hwnnw, ac mae eu dadl wedi fy argyhoeddi nad dyma'r ffordd ymlaen. Dydw i ddim yn cytuno â'r prawf modd. Fel rwyf wedi dweud wrthych chi, mae'n costio cymaint i'w wneud. Rwy'n tybio y byddai'n rhaid i'r BBC ei wneud hefyd. Rwy'n siŵr na fyddai'r Llywodraeth am wneud hyn, ac y byddai'n costio mwy na'r hyn maen nhw'n mynd i geisio ei arbed. I mi, felly, dydy hyn ddim yn opsiwn". Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae profi modd yn ddrud ac yn anodd iawn, ac ni ddylid annog hyn." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Credwch neu beidio, mae cynnal prawf modd yn ddrud iawn. Rwyf wedi gweld ffigurau ei bod yn costio deg gwaith yn fwy i gynnal prawf modd na'i gyflwyno yn gyffredinol, ei wneud yn fudd os ydych chi'n deall beth rwy'n ei olygu. Dydw i ddim yn gwybod a yw'r ffigur 'deg gwaith' yn gywir, ond mae llawer o waith yn gysylltiedig â phrofi modd, a bydd hynny'n eitem gost, faint bynnag y bydd yn ei gostio. Felly, na, dydw i ddim o blaid profi modd." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dwi'n meddwl y byddai hynny'n syniad gwirion. Yn syml, oherwydd a ydy'r BBC am dreulio'i amser yn plismona hynny? Na, dydy o ddim. Mae costau cudd wrth brofi modd bob amser, oherwydd y fiwrocratiaeth a'r gwaith gweinyddu sydd ei angen i wneud y prawf, ac yna'r dadleuon ynghylch p'un ai dyma yw'r prawf priodol, neu fod y prawf yn un anghywir, neu a oes angen i chi addasu'r prawf. Felly, fedra i ddim dychmygu pam y byddai'r BBC yn awyddus i wneud hynny iddyn nhw eu hunain. Felly, dwi ddim yn meddwl y bydd hwnna'n gweithio o gwbl." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dydw i ddim yn gwybod sut mae hynny'n ymarferol na sut mae modd ei gyflawni. Nid gwaith i'r BBC mo hynny. Nid dyna beth yw rôl a chyfrifoldeb y BBC, i ddechrau gweithio allan pwy sy'n gymwys ar gyfer beth yn seiliedig ar ryw fath o asesiad modd neu asesiad o anghenion. Felly, mae'n ymddangos yn gwbl anymarferol – heb sôn am fod yn annerbyniol. Mae'n siŵr hefyd fod rhai materion yn ymwneud â diogelu data, heb sôn am ofynion deddfwriaethol. Mae fel cael morthwyl i dorri cneuen, yn y bôn." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Rwy'n credu bod profion modd yn fethiant o'r cychwyn. Biwrocratiaeth weinyddol ydyn nhw. Mae'n siŵr y byddai'r profion modd yn costio cymaint fel eu bod yn wrthgynhyrchiol o ran yr hyn y bydden nhw'n ei arbed. Fy mhwynt blaenorol - fydd y bobl sydd ei angen fwyaf ddim yn cymryd rhan." Grwpiau Pobl Hŷn*

Yn ail, roedd rhai rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn yn erbyn profion modd gan ddefnyddio Credyd Pensiwn ar y sail bod llawer o bobl hŷn sydd â hawl i gael Credyd Pensiwn ddim yn ei hawlio ar hyn o bryd (dyfynnodd rhai ffigur yr Adran Gwaith a Phensiynau o 40%), naill ai oherwydd nad oedden nhw'n gwybod sut, neu nad oedden nhw'n gwybod eu bod yn gymwys, neu'n teimlo'n rhy falch i'w cymryd. Byddai hyn, medden nhw, yn arwain at lawer o bobl hŷn agored i niwed yn colli allan ar gonsesiwn ffi'r drwydded ac a fyddent, fel arall, yn gymwys i gael un. Byddai hyn yn golygu bod yr opsiwn prawf modd yn methu cyflawni'r hyn mae'n bwriadu ei wneud.

*"Byddai hyn wir yn taro'r aelwydydd incwm isel fwyaf oherwydd bod llawer o bobl hŷn sydd â'r hawl i Gredyd Pensiwn ond ddim yn ei hawlio. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif bod tua 40% o bobl sy'n gymwys ddim yn hawlio, felly rydych chi'n siarad am bobl sy'n bobl hŷn agored iawn i niwed a fyddai'n ei chael yn anodd iawn i dalu ffi'r drwydded. Hefyd, mae'n werth i'r BBC ystyried y costau gweinyddol a'r baich o orfod delio â gwybodaeth bersonol." Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rydym ni’n gwrthwynebu profion modd yn chwyrn. O’r holl gynigion yn y ddogfen, dyma’r un rydym ni ei gasáu fwyaf. Y rheswm syml iawn am hyn yw bod y prawf modd yn swnio'n deg wrth edrych arno, ond a chofio bod 40% o'r bobl hŷn sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn ddim yn ei gael, byddai hynny'n golygu bod cyfran sylweddol o'r pensiynwyr tlotaf ar eu colled. Ni fyddai’n gwneud yr hyn roedd yn anelu i’w wneud, sef sicrhau bod y bobl dlotaf yn cael cymorth ariannol. Mae hon yn hen broblem gyda Chredyd Pensiwn, sef y prif fudd-dal sy’n dibynnu ar brawf modd ar gyfer pobl hŷn. Credir bod nifer o resymau pam nad yw pobl hŷn yn ei gael. Mae llawer o bobl hŷn yn cymryd yn ganiataol nad ydyn nhw'n ddigon tlawd i'w gael, a dydy rhai ohonyn nhw ddim wedi clywed amdano. Mae’r broses ar gyfer ei hawlio yn eithaf cymhleth, mae’n ffurflen hir ac mae hynny’n aml yn ddigon i bobl beidio â’i hawlio. Mae rhai pobl hŷn, fel mater o egwyddor, yn dewis peidio cymryd rhywbeth maen nhw'n teimlo ei fod yn eu brandio’n dlawd neu'n dangos eu bod yn ei chael yn anodd, felly dyna pam y byddan nhw’n cymryd hawl gyffredinol oherwydd eu bod yn teimlo bod ganddyn nhw'r hawl iddo, ond nid i rywbeth maen nhw’n gorfod ei hawlio. Mae yna lawer iawn o resymau pam, dros nifer o flynyddoedd rydym wedi methu, yn llywodraeth ac yn sefydliadau eraill, i wneud unrhyw wahaniaeth o bwys yn y nifer sy’n hawlio. Am y rheswm hwnnw, rydym ni'n casáu hyn go iawn.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mewn egwyddor, mi alla i weld sut byddai prawf modd sy’n gysylltiedig â Chredyd Pensiwn yn gweithio, ond rwy’n gwybod o brofiad nad yw pobl o reidrwydd yn mynd am y Credyd Pensiwn hyd yn oed os dylen nhw. Mae’r syniad yn dal i fodoli mai arian yw hyn na ddylen nhw ei gael.” Grwpiau Pobl Hŷn*

### Gostyngiad o 50% i bobl dros 75 oed

Roedd lleiafrif o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn yn cefnogi rhoi gostyngiad o 50% yn ffi'r drwydded fel cyfaddawd effeithiol sy’n hawdd ei weithredu, a fyddai'n well nag adfer ffi’r drwydded, ond ychydig iawn o frwdfrydedd oedd i hyn ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd fawr o resymeg y tu ôl iddo, a byddai angen i bobl dros 75 oed dalu ffi sylweddol bob blwyddyn, a fyddai'n effeithio fwyaf ar y bobl dlotaf. Doedd neb, fodd bynnag, yn gwrthwynebu'r opsiwn hwn yn chwyrn.

*“Mae'n bosib mai'r ffordd hawsaf mewn nifer o ffyrdd o wneud hynny yw rhoi gostyngiad safonol o 50%.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Fel cael cerdyn teithio’n rhatach ar drên er enghraifft, fe allwch chi gael traean oddi ar bris eich tocyn os oes gennych chi’r cerdyn hwn. Rydw i bob amser yn ceisio credu y gallwn ni ddysgu o fathau eraill o waith sydd wedi'i wneud a rhoi rhai o'r egwyddorion ar waith. Rwy'n credu bod angen cyfaddawdu drwy edrych ar – dydw i ddim yn dweud bod ffordd gywir nac anghywir ond drwy edrych ar ostyngiad, neu dalu hanner tuag at y ffi neu efallai ffordd dros dro o leihau'r swm gan y Llywodraeth. Dydw i ddim yn meddwl y dylen nhw ei gymryd i ffwrdd i gyd ar unwaith.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rwy'n meddwl bod torri’r swm yn ei hanner yn edrych fel penderfyniad ariannol llwyr, heb fod yn edrych y tu hwnt i hynny. Dydw i ddim yn meddwl bod hynny'n gwneud llawer o synnwyr.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Lliniaru'r sefyllfa yn unig fyddai 50%, fyddai hyn ddim yn helpu go iawn.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Roeddem ni’n gweld yr opsiwn hwn yn un negyddol. O’r hyn y gwnaethom ni ei ddeall o ddadansoddiad Frontier Economics, ni fyddai hyn yn codi digon o arian ar gyfer y BBC beth bynnag, a byddai'n dal i achosi mwy o straen ar gyllid unigolyn. Dydw i ddim yn siŵr pwy fyddai'n elwa o’r opsiwn hwnnw.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Rydym ni'n gwrthwynebu bod pobl hŷn yn gorfod talu unrhyw beth arall o gwbl. Felly, o'r safbwynt hwnnw, dydyn ni ddim yn hoff iawn o’r opsiwn yma, ond fyddech chi ddim yn disgwyl i ni. Efallai ei fod yn ychydig yn well na chael gwared ar y cyfan gyda'i gilydd ond, yn y bôn, fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae'n dal i fod yn swm o arian y bydd rhai pobl yn ei chael yn anodd ei ffforddio”. Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mae’n amlwg yn opsiwn, ond rwy’n berson du a gwyn ac rwy’n meddwl y byddai’n well gen i weld penderfyniad i naill ai: gofyn i bobl dalu; neu, fod y rheini sydd ddim yn gallu talu yn cael y drwydded am ddim. Mae hyn yn golygu y bydd y rheini sydd ym mhen isaf y raddfa'n dal yn gorfod talu’r hyn sydd ddim yn llawer o arian i chi a fi efallai, ond mae £70, £80, £90 ar gyfer trwydded yn dal yn faich ychwanegol i'r rheini sy'n ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd bob mis.” Grwpiau Pobl Hŷn*

## Opsiynau ac ystyriaethau eraill

### Ail-drafod gyda'r Llywodraeth

Wrth holi a ddylai’r BBC ystyried unrhyw opsiynau eraill fel rhan o’r broses ymgynghori, pwysleisiodd sawl rhanddeiliad o bob un o’r grwpiau rhanddeiliaid y dylai’r BBC fynnu bod y Llywodraeth yn parhau i dalu'r consesiwn neu’n derbyn cyfrifoldeb dros y canlyniadau wrth gael gwared ar y consesiwn i bobl dros 75 oed. Roedd y bobl hyn yn teimlo y dylai’r BBC fod wedi sefyll yn fwy cadarn yn erbyn y Llywodraeth yn ystod camau cynharach y broses ac yn meddwl bod gan y BBC gyfle o hyd i ddod o’r sefyllfa mae ynddi. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn pa mor bwysig yw'r consesiwn llawn i bobl hŷn sy’n aml yn gaeth i’r tŷ ac sy’n dibynnu ar y teledu a'r radio i osgoi teimlo’n unig ac yn ynysig.

*“Yn y pen draw, rwy’n meddwl y byddai llawer o bobl yn dweud, ‘polisi’r llywodraeth yw hwn a dylai fynd yn ôl i’r Llywodraeth’. Rwy’n gallu gweld y byddai anawsterau i’r BBC o gael gwared ohono’n gyfan gwbl, ond rwy’n meddwl y byddai rhai o’r aelodau’n dweud hynny. Bydden nhw’n dweud, ni ddylen nhw dalu hyn, ar sail egwyddor.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Efallai y dylai’r BBC fynd yn ôl at y Llywodraeth a dweud, 'Edrychwch, mae'r dasg hon yn amhosib, ac mae’n rhaid i chi helpu i rannu’r baich', ac efallai y dylai’r BBC fod yn gyfrifol am 50 y cant o’r gost a’r Llywodraeth am y 50 y cant arall, neu ryw ffordd arall o’i reoli. Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Ddylai hyn ddim bod yn digwydd, a ddylen nhw ddim cael eu rhoi mewn sefyllfa lle maen nhw’n gofyn cwestiynau amdano. Penderfyniad y Llywodraeth yw ffi'r drwydded. Does dim byd yno’n mynnu bod y BBC yn dod yn gangen sy’n ystyried lles ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd, yn y bôn, yn benderfyniad ynghylch lles. Nid yw'n benderfyniad ynghylch gwneud rhaglenni. Cafodd y BBC ei greu i wneud rhaglenni. Rhaglenni radio ac wedyn rhaglenni teledu. Chafodd o mo'i greu i wneud penderfyniadau ynghylch lles.” Polisi Cyfryngau*

*“Rwy’n meddwl bod llawer o feirniadaeth wedi bod am yr hyn ddigwyddodd y tro diwethaf a’r ffordd y cafodd y BBC ei orfodi. Ddim yn siŵr a oes lle i feddwl o’r newydd am hynny cyn i ni gyrraedd y pwynt, fwyaf sydyn, lle mae’n amser i drafod ffi'r drwydded unwaith eto, ond rwy’n meddwl y byddai’n iach pe byddai’r BBC yn rhagweithiol ynghylch hynny.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Rwy’n meddwl y dylai'r BBC fynd yn ôl at y Llywodraeth a dweud bod eu hymgynghoriad wedi dangos bod hyn yn rhywbeth gwael iawn ac y dylai’r Llywodraeth ysgwyddo’r cyfrifoldeb. Cytunodd y Llywodraeth yn 2000 pan oedd Gordon Brown yn ganghellor ar y pryd, y dylai hyn ddod yn ôl mewn. Roedd yn boblogaidd iawn, doedd neb yn gwrthwynebu, a dylai’r Llywodraeth ysgwyddo cyfrifoldeb i gymryd y cyfrifoldeb eto. Dylai’r BBC fagu asgwrn cefn i fynd yn ôl atyn nhw a dweud hynny.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Fe allwch gael dadl ddilys ynghylch a allai ac a ddylai'r Llywodraeth drethu rhai o'r buddion hyn neu eu tynnu oddi ar y trethdalwyr sy’n talu cyfradd uwch. Nid materion i’r BBC yw'r rhain, maen nhw’n rhan o waith gweinyddu ein system dreth. Mater i’r Llywodraeth, i’r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Trysorlys yw hyn yn bendant. Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw beth ar gael i’r BBC i’w tynnu o’r sefyllfa hon. Rwy’n meddwl bod y cyfan yn eithaf ofnadwy pa bynnag ffordd edrychwch chi ar y sefyllfa, a bod yn onest.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mae ein hymgyrch yn canolbwyntio’n llwyr ar gael y Llywodraeth i gymryd y consesiwn hwn yn ôl. Fe aethon nhw ati i wneud hyn heb ymgynghori, a dydyn ni ddim yn meddwl bod ganddyn nhw’r hawl i’w*

*roi i'r BBC nac unrhyw gorff arall heb ei ethol, o ran hynny. Rôl y llywodraeth yw hyn. Mae lles yn un o rolau'r llywodraeth, mae mor syml â hynny." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Bydden ni'n troi'n ôl at farn ein sefydliad bod y sefyllfa hon yn un na ddylai'r BBC fod ynddi, ac mai'r Llywodraeth ddylai fod yn y sefyllfa hon, ac a ddylai barhau i ddarparu'r consesiwn." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dydw i ddim yn meddwl bod digon o ymwybyddiaeth wedi bod am hyn ymysg y cyhoedd. Dydw i ddim yn meddwl bod y BBC na'r Llywodraeth wedi pwyso a mesur hyn yn iawn. Rwy'n meddwl y dylai hyn gael ei drafod a'i ystyried eto." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Er mwyn pwysleisio pa mor fuddiol yw hyn. I lawer o bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn sy'n teimlo'n unig, wrth i chi fynd yn hŷn ac wrth i'ch cylch ffrindiau leihau a'ch iechyd a'ch gallu i symud ddirywio, yn ogystal â'ch gallu i fynd allan, mae eich dibyniaeth ar deledu yn bwysig iawn. Dyma eich ffrind yng nghornel yr ystafell. Mae'n tynnu sylw rhywun. Nid yw'n syniad da tynnu hynny oddi ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed gan ddweud mai ceisio gwneud y model busnes yn fwy llwyddiannus ydych chi." Grwpiau Pobl Hŷn*

Heblaw am ail-drafod â'r Llywodraeth, dywedodd ychydig o randdeiliaid y grŵp pobl hŷn y dylai'r BBC ystyried ffyrdd eraill o dalu am y consesiwn, gan gynnwys cyflwyno codi tâl am hysbysebu neu godi ffi'r drwydded i'r rheini mewn cymdeithas sy'n gallu fforddio hynny.

## Ffyrdd eraill o edrych ar fodel ffi'r drwydded

Awgrymodd sawl un o'r rhanddeiliaid hefyd y dylai'r BBC, wrth feddwl am y tymor hir, ystyried edrych ar ffyrdd eraill yn lle model cyfredol ffi'r drwydded, a oedd yn hen ffasiwn yn eu barn nhw gan fod y ffordd mae pobl yn defnyddio cynnwys yn fwyfwy amrywiol erbyn hyn. Roedden nhw'n awgrymu y dylai'r BBC ystyried model yn seiliedig ar danysgrifio, lle roedd y ffi yn gymesur â faint roedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio.

Hefyd, roedd nifer fechan o bob grŵp rhanddeiliaid am weld y BBC yn ystyried defnyddio hysbysebion i gynyddu refeniw, ond yn gweld hyn fel rhywbeth i'w ystyried yn barhaus yn y dyfodol, yn hytrach nag yn bryder i roi sylw iddo yn syth fel rhan o'r broses ymgynghori bresennol.

*"Yn y bôn, rwy'n meddwl mai'r unig ddadl dros gonsesiwn ar gyfer pobl yw lle mai dim ond pobl dros 75 oed sydd yn yr aelwyd. Dyma fy safbwynt polisi i erioed. Ar hyn o bryd, pe byddai fy mam yn dod i fyw gyda mi, fyddai dim rhaid i mi dalu fy nhrwydded deledu er bod incwm yr aelwyd yn chwe ffigur. Mae'n wirion. Mae'n wirion. Mae'n wirion. Hanerwch y gost i hen bobl sy'n byw gyda hen bobl eraill yn unig. Dyna ddatrys y broblem." Polisi Cyfryngau*

*"Ac ystyried mai dyma'r math o thesis sy'n sail i fodolaeth fy sefydliad, rydym ni, ar y cyfan yn erbyn buddion cynhwysol sy'n targedu ar sail oedran yn llwyr, oherwydd dydyn ni ddim yn meddwl bod achos cryf dros roi budd-dal lles i bawb sydd dros oed penodol heb ystyried eu hamgylchiadau materol. Felly, rydym ni'n gwrthwynebu'r drwydded deledu ar ei ffurf bresennol, a byddem ni'n dadlau dros ddiwygio sylweddol." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Nid dyna'r cwestiwn iawn yn fy marn i. Yn bersonol, mae gennyf barch mawr at y BBC ond rwy'n ymwybodol iawn bod y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar ddarllediadau yn newid yn ddramatig. Dydw i ddim yn meddwl bod y mater ynghylch a ddylen ni gynnig trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed yn wahanol i'r ffordd rydym ni'n defnyddio dulliau cyfathrebu y dyddiau hyn ac yn enwedig pobl iau. Mae gen i deimlad ofnadwy bod y model cyfan yn hen ffasiwn ac mai ryw fân addasu'r holl beth ydy hyn, mewn gwirionedd. Fan leiaf, rwy'n meddwl bod yn rhaid edrych ar hyn yn y cyd-destun hwnnw. Dydw i ddim yn meddwl y gall hwn fod yn ateb tymor hir, pa bynnag ffordd yr ewch chi, ac rwy'n meddwl bod y ffordd gyfan o drwyddedu, y ffordd mae'r BBC yn cael ei ariannu drwy drwydded, yn mynd i ddiflannu'n naturiol oherwydd fydd pobl ifanc ddim yn gwneud hyn. Ychydig o amser sydd, yn fy marn i.*

*Mewn ffordd, dyna pam rwy'n dweud nad ydw i'n siŵr bod y cwestiwn iawn wedi'i ofyn. Ond os ydw i'n ateb yr un cwestiwn hwnnw, rwy'n pryderu y bydd llawer o bobl 75 oed yn gallu talu am drwydded heb drafferth ac yn fwy tebygol, efallai, o wylio'r BBC na phobl iau sydd ddim yn gallu fforddio'r drwydded ac yn llai tebygol o wylio'r BBC. Rwy'n meddwl bod y BBC mewn perygl o golli'r gronfa o gwsmeriaid os bydd y drwydded yn parhau yn ei ffurf bresennol. Dydw i ddim yn gwybod pa mor ddefnyddiol yw hynny, ond dyna fy marn i." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl mai'r broblem yw bod hyn wedi newid cymaint yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod pobl wedi gallu ffrydio cymaint o raglenni fel bod gwerth ffi'r drwydded yn rhywbeth sydd wedi lleihau ym marn y bobl, oherwydd bod modd dewis cymaint ar-lein. Os ydych chi'n deall beth sydd gen i dan sylw. Efallai bod angen i'r BBC gyflwyno neu fod wedi cyflwyno'r achos yn gryfach er mwyn cynnal a chadw'r system ddarlledu gyhoeddus sy'n cael ei hariannu gan ffi'r drwydded." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Yr ail risg, sy'n ymddangos yn fwy o risg yn fy marn i, yw bod tynnu'r consesiwn yn gwanio'r ddadl ychydig dros gadw ffi'r drwydded. I mi, mae'r ymgynghoriad ynghylch ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed bron â bod yn rhyw fath o ymarfer ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd wrth adnewyddu'r siarter, os caiff y siarter ei adnewyddu, a dyfodol ffi'r drwydded. I mi, mae hyn yn ymddangos yn fater o bryder mawr." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl efallai y dylai'r model busnes geisio cynyddu incwm gan garfan ddemograffig mewn cymdeithas sy'n gallu fforddio hynny." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Dydw i ddim yn gwybod a ydy peidio â chael hysbysebion yn sacrosanct, ond mae'n rhaid i ni symud ymlaen weithiau. Rwy'n meddwl y dylen ni ystyried hysbysebion i gael mwy o refeniw, a dylai hyn wedyn ganiatáu iddyn nhw gadw'r [consesiwn] cynhwysol i bobl dros 75 oed." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Mae'n well gen i ateb y cwestiwn fel hyn. Pe bydden nhw'n edrych, er enghraifft, ar ffynonellau eraill o incwm, yr un amlwg sy'n dod i'r meddwl yw hysbysebu ynte?" Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Maen nhw wedi siarad am wneud i'r BBC weithredu yn yr un ffordd â darlledwyr masnachol; cael hysbysebion. […] Mae'n swnio'n syniad da. Mabwysiadu system taliadau hyblyg fwy modern. Lleihau cyflogau pobl sy'n ennill llawer a cheisio cael cyfraniad gan y Llywodraeth. Mae'r cyflogau mawr iawn yn achosi drwgdeimlad beth bynnag." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Y BBC i ddweud wrth y Llywodraeth am fynd i'r diawl a'i fod am fynd yn annibynnol a rhedeg ei hun ar wasanaeth tanysgrifio, ac wedyn mi fydd yn gallu gwneud ei reolau ei hun, neu fe ddylai allu gwneud ei reolau ei hun, o leiaf. Dylai hynny weithio ond, fel arall, dydw i ddim wir yn gweld pam bod yn rhaid i ni gael darlledwr sy'n cael ei dalu gan Dreth y Pen yn y bôn. Mae'n warthus, pa un ai eich bod yn ei wylio neu beidio, neu waeth faint rydych chi'n ei wylio, a does neb arall yn defnyddio'r model hwnnw, felly pam rydym ni'n gwneud hynny? Mae'n mynd yn ôl i 1932." Polisi Cyfryngau*

*"Mae'n ddigon posib y byddai modd datrys y broblem hon dros y tymor hwy efallai drwy ail-feddwl am ffi'r drwydded, yn gyffredinol. Y BBC yn cyflwyno ffioedd i aelwydydd, unigolion, sy'n defnyddio mwy neu'n cael mynediad at fwy o gynnwys y BBC ac efallai byddai modd rhoi gostyngiadau i grwpiau agored i niwed fel pobl hŷn. Yn amlwg, mae hynny'n fwy o brosiect tymor hwy gyda phob mathau o systemau newydd yn y BBC ond gall fod yn un ffordd o roi rhyw fath o ostyngiad i grwpiau hŷn yn ogystal â moderneiddio ffi'r drwydded." Polisi Cyfryngau*

*"Mi fyddwn i wedi meddwl efallai, pe bydden nhw am ddewis y llwybr hwnnw, y byddai codi rhyw fath o ffi defnyddiwr yn decach na chynyddu ffi'r drwydded ar aelwydydd mwy cefnog, ond dydw i ddim yn gwybod, ac mae hyn wedyn yn amlwg yn creu dadleuon am y BBC yn cystadlu â'r gwasanaethau eraill hyn." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Rwy'n meddwl y dylai'r BBC a'r Llywodraeth ystyried lefel y tanysgrifiad ar gyfer rhai o'r gwasanaethau lleiafrifol. Unwaith eto, rydw i'n synnu nad oes llawer am hynny yn y ddogfen ymgynghori. Does dim rheswm pam na ddylid cael elfen o danysgrifio. Fyddwn i ddim am weld hyn fel y*

*brif ffynhonnell ariannu, ond gallaf weld bod dadl yma, yn enwedig wrth i ni symud mwy a mwy i'r oes ddigidol, i rai gwasanaethau gael eu hariannu ar sail taliad personol." Polisi Cyfryngau*

*"Yn anffodus, yn y farchnad fodern, mae'n golygu nad yw'n dal i fyny gyda'r arian sydd ar gael ar gyfer y cwmnïau ffrydio mawr. Rwy'n credu bod rhaid i ni feddwl am ffyrdd newydd o dalu am y BBC os yw am barhau i fodoli. Rwy'n meddwl y gallech chi gael tanysgrifiadau rhyngwladol. Mae marchnad enfawr i'w chael ar gyfer y BBC ac fe ddylen ni ddechrau manteisio ar hynny go iawn." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl y bydd yn rhaid ailfeddwl yn llwyr am sut mae'r BBC yn cael ei ariannu, gan gynnwys meddwl am hysbysebion. Mae gan wledydd eraill system ffi'r drwydded nad yw mor ddrud â system y wlad hon, ond mae refeniw hysbysebion yn cyfrannu ati. " Diwydiant y Cyfryngau*

## Toriadau i wasanaethau a rhaglenni

Wrth holi pa sianeli neu wasanaethau y gallai'r BBC eu torri pe byddai'n gorfod ariannu consesiwn ffi'r drwydded ar gyfer pobl dros 75 oed yn llawn neu'n rhannol, roedd yr ymatebion yn amrywio yn ôl math o randdeiliaid.

Dywedodd rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau nad oedden nhw'n meddwl ei bod yn bosib lleihau unrhyw wasanaethau o gwbl, yn enwedig pe byddai'r BBC yn ariannu'r consesiwn yn llawn. Dywedon nhw ei fod eisoes yn ei chael yn anodd cystadlu yn erbyn cystadleuwyr a hwythau wedi gwneud llawer o doriadau'n barod. Roedden nhw'n teimlo y byddai unrhyw ddirywiad yn safon y rhaglenni a gynigir gan y BBC yn annerbyniol. Roedd y rheini a oedd â'r farn hon naill ai'n cefnogi'r broses o adfer ffi'r drwydded gynhwysol neu pa un bynnag oedd yr opsiwn diwygio lleiaf costus. Roedd eraill yn amharod i nodi meysydd a ddylai wynebu toriadau yn eu barn nhw oherwydd nad oedden nhw am i'r penderfyniadau hynny gael eu dylanwadu gan ddewisiadau personol rhanddeiliaid y BBC yn hytrach na'i chynulleidfa eang o bobl sy'n talu ffi'r drwydded. Roedden nhw'n awgrymu y dylai'r BBC ymgynghori â'r cyhoedd i gael barn am ansawdd a gwerth am arian ei wasanaethau amrywiol cyn gwneud unrhyw doriadau.

*"Does dim modd iddyn nhw wneud toriadau yn un man. Maen nhw wedi cael eu torri dros flynyddoedd lawer. Gwelwyd toriadau o 20% yn 2010. Maen nhw'n dal yn ceisio rheoli toriadau 2010. Felly, dydw i ddim wir yn fodlon enwi meysydd a ddylai wynebu toriadau oherwydd nid mater o dorri tamaid fan hyn a thorri tamaid fan draw ydy hyn. Rydym ni'n sôn am chwarter biliwn o bunnoedd y flwyddyn hon, fel rwy'n deall." Polisi Cyfryngau*

*"Byddai hyn yn werth bron i un rhan o bump o gyllideb gyfan y BBC, sy'n fwy na'r hyn mae'r BBC yn ei wario ar radio'r BBC i gyd. Mae'n gyfystyr â radio'r BBC i gyd a darn mawr o BBC Ar-lein. Fel dywedais i, mae'n ddyletswydd benagored, felly mi fydd yn parhau i fynd yn ddrutach ac mi fydd yn gyfran fawr o gyllideb y BBC yn y blynyddoedd a'r degawdau i ddod, a chymryd y bydd popeth yn aros yr un fath. Awgrymwyd toriadau i wasanaethau'r BBC i dalu am hyn. Rydym ni o'r farn nad oes modd gweithredu hyn yn ymarferol, oni bai fod y cyhoedd yn fodlon derbyn y bydd maint ac ansawdd cynnwys y BBC yn llai o lawer." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Os bydd hyn yn achosi toriadau yn eu gwasanaethau, rwy'n credu y byddai hyn yn druenus, oherwydd maen nhw'n cystadlu yn erbyn yr holl gwmnïau masnachol hyn nawr, ac rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf ohonon ni'n teimlo bod y BBC yn rhywbeth y dylen ni ei warchod." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Dydw i ddim yn meddwl bod hyn yn fforddiadwy. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn gynaliadwy nac yn fforddiadwy wrth symud i'r dyfodol oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio. Rwy'n meddwl mai dyma'r pwysau sy'n wynebu'r BBC." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Rhesymau ariannol yn bennaf oedd yn gyfrifol am ddod â BBC Three i stop fel sianel ddarlledu a'i rhoi ar-lein yn unig, ac fel y rhagwelwyd yn llwyr, diflannodd y gynulleidfa, er bod y gwylwyr iau y mae'r*

*sianel yn eu targedu, yn gwylio cryn dipyn o deledu a fideos ar-lein. Felly, rwy'n meddwl mai'r cwestiwn hwn yw un o'r cwestiynau mawr y dylai'r BBC ei ofyn, ac y dylen nhw ei ofyn yn benodol ac yn gyhoeddus, gan ddweud 'Yn ôl ein cyfrifiadau, dyma rai o'r opsiynau, tri neu bedwar opsiwn, ar gyfer talu cost lawn trwyddedau teledu am ddim i unrhyw aelwyd sydd ag o leiaf un person 75 oed a throsodd. Pe bydden ni'n talu'r gost lawn, dyma'r cyfuniadau o wasanaethau a fyddai'n wynebu toriadau gennym ni.' Wedyn, dylen nhw gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall ar hyn, neu o leiaf gynnal ymchwil fanwl iddo." Polisi Cyfryngau*

*"Mae pobl bob amser yn cyfeirio at y gwasanaethau nad ydyn nhw'n gweld gwerth ynddyn nhw. Rwy'n gwylio arlwy benodol iawn ar y BBC, ac rwy'n ymwybodol iawn felly y gallai rhywun arall wrthwynebu'r hyn rwy'n ei ddweud. Wrth gwrs, does neb byth yn dweud, 'Beth am gau Radio 4 neu Radio 3,' oherwydd mae pobl ddylanwadol yn hoffi'r rheini." Polisi Cyfryngau*

Wrth holi'n fanylach, awgrymodd rhanddeiliaid eraill pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau ddau brif faes lle gallai'r BBC arbed arian, er nad oedd consensws clir ynghylch hyn. Roedd ychydig ohonyn nhw'n teimlo efallai y byddai'r toriadau roedden nhw wedi'u hawgrymu'n amhendant yn ddymunol mewn gwirionedd, gan ddweud eto eu bod yn siomedig gyda sefyllfa'r BBC.

Y maes cyntaf a awgrymwyd gan randdeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau oedd radio adloniant. Roedden nhw o'r farn bod sianeli radio'r BBC – Radio 2 yn enwedig – yn cynnig adloniant a oedd yn debyg i'r hyn a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y sector preifat, ac felly hwn oedd y maes mwyaf amlwg i wynebu toriadau'r BBC.

*"Rwy'n meddwl efallai y dylen nhw gael gwared ar farchnad sy'n dod i ben yn araf bach: rhai o raglenni Radio 2 a'i hyn sy'n cyfateb iddo ar y teledu. Un peth sy'n peri dryswch i mi yw'r holl bwysau yma i symleiddio pethau i bobl ifanc. Roeddwn i'n meddwl ein bod i fod i gael mwy o addysg dyddiau hyn na'r hyn oedd gennym ni yn y gorffennol. Dydw i ddim yn deall y pryder hwn i symleiddio pethau ar gyfer pobl ifanc. Gadewch hynny i'r sector masnachol." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

*"Pe byddai'n fater o gael gwared ar raglenni… Mae'n anodd gwybod y dyddiau hyn oherwydd yn yr hen ddyddiau byddwn i wedi dweud, 'Reit beth am gael gwared ar yr adloniant. Pam ddylai'r BBC ddefnyddio arian y trethdalwyr i gynhyrchu adloniant?' Wrth gwrs, erbyn hyn, mae pethau fel rhaglenni dogfen yn elfen sefydlog o deledu prif ffrwd ac mae sianeli ar gyfer rhaglenni dogfen yn unig, felly mae pobl yn gwneud arian o hynny. Mae'n anodd gwybod beth i'w awgrymu, ond rwy'n meddwl, fwy na thebyg, y sianeli adloniant, radio yn enwedig. Rwy'n meddwl bod cyfran helaeth ar y radio yn cael ei ailgynhyrchu gan BBC erbyn hyn a dweud y gwir." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl, pe byddwn i'n rheoli'r BBC, byddwn i'n edrych yn fanwl ar rywbeth fel Radio 2 yn hytrach na'r targedau traddodiadol BBC 3 neu BBC 6. Rhywbeth lle gallech chi ddadlau y gallai'r sector masnachol ei ddarparu, felly gallai fod yn Radio 1 neu'n Radio 2, er enghraifft." Polisi Cyfryngau*

*"Mwy na thebyg rhai o'r sianeli radio, a rhai o'r hyn y byddwn i'n eu galw'n ddarlledwyr gwasanaethau heb fod yn gyhoeddus sy'n digwydd ar BBC One, Two a beth bynnag arall." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

Yr ail brif faes, a nodwyd gan rai rhanddeiliaid, oedd cyflogau talentau ar y sgrin a'r uwch reolwyr. Roedd y rheini a soniodd am hyn yn dueddol o fod â llai o gydymdeimlad tuag at y BBC nag eraill ac yn fwy tebygol o fod o blaid copïo'r consesiwn presennol. Fe wnaethon nhw gyfeirio at sylw a roddwyd ar y newyddion yn ddiweddar i gyflogau cyflwynwyr sydd wedi bod gyda'r BBC ers amser hir a chyflogau uwch aelodau staff hefyd. Ond roedd eraill yn beirniadu'r ddadl y gallai'r BBC arbed arian drwy ostwng cyflogau (codwyd hyn heb unrhyw gymhelliant), gan awgrymu bod y swm y byddai angen ei godi i dalu am y consesiwn yn llawer mwy nag unrhyw arbedion yn sgil lleihau cyflogau.

*“Efallai y dylid adolygu faint o arian maen nhw'n ei daflu at bobl. Rwy'n deall elfen gystadleuol hynny oherwydd, yn amlwg, os na fyddan nhw'n taflu’r arian at y bobl, yna bydd pobl eraill, cystadleuwyr eraill yn gwneud hynny. Ond byddwn i’n edrych yn hir ac yn galed ar eu polisi taliadau i gychwyn, oherwydd fy mod i'n meddwl bod arbedion enfawr i'w gwneud yno. Efallai y dylid rhoi mwy o gyfleoedd posib i bobl yn hytrach na thalu llawer o arian i bobl sydd wedi bod o gwmpas ers amser maith ac wedi cynyddu eu cyflog dros gyfnod o amser a chadw'r lefelau cyflog hynny, beth bynnag.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Mae’n siŵr y bydd pobl eraill yn dweud hyn hefyd, ond rwy'n meddwl ei bod hi'n amlwg bod yna le i arbed costau gyda chyflogau swyddogion gweithredol a chyflogau rhai o'r sêr hefyd. Storïau newyddion tabloid yw’r rhain, a dydw i ddim wir wedi edrych ar faint o effaith maen nhw’n ei chael.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Beth gallen nhw fyw hebddo? Efallai y dylen nhw gael gwared ar y pethau drud iawn. Gary Lineker. Cyflwynwyr drud. Dylen nhw fod yn ‘gwasanaethu'r cyhoedd’. Mae dramâu cyfnod yn rhy ddrud hefyd.” Polisi Cyfryngau*

*“Does dim llawer o amser wedi bod ers i haen uchaf y BBC roi bonws mawr iddyn nhw eu hunain, os ydw i'n cofio’n iawn. Gwelais ddarn yn y Guardian yn hwyr y llynedd a oedd yn cyfeirio at 30% o fonws. Dydw i ddim yn meddwl y bydd hi’n hawdd iawn i’r BBC bledio eu bod yn dlawd, felly byddai'n rhaid iddo fynd yn ôl at y Llywodraeth a chael cefnogaeth y gwrthbleidiau, byddai’n rhaid iddo wneud hyn beth bynnag, gan gyflwyno achos sy'n cynnwys rhai toriadau i’w gyllideb ei hun efallai, bod gormod ar lefel y rheolwyr canol. Mae 30% o fonws yn yr hinsawdd bresennol yn anghywir ac yn anaddas yn wleidyddol”. Polisi Cyfryngau*

*“Mae'r ffantasïau hyn sy'n dweud, ‘O wel, gallai'r BBC dderbyn hynny a lleihau ei orbenion,’ dydy’r rhifau ddim yn cyd-fynd â hynny. Dydyn nhw ddim yn dod yn agos at gyd-fynd â hynny. Maen nhw eisoes wedi colli Chris Evans ac yn y blaen. Ni fyddai'r un busnes masnachol yn meddwl bod hynny'n ateb synhwyrol. Yr unig ffordd fyddai torri gwasanaethau.” Polisi Cyfryngau*

O’i gymharu â rhanddeiliaid pontio'r cenedlaethau a'r cyfryngau, roedd rhanddeiliaid y grŵp pobl hŷn yn teimlo nad oedden nhw’n gallu rhoi sylwadau ar sut byddai’r BBC yn talu consesiwn ffi'r drwydded, gan ddweud nad oedden nhw’n gwybod digon am gostau sefydliadol y BBC. Roedd y rheini a oedd yn cefnogi copïo'r consesiwn presennol yn awgrymu na fyddai angen toriadau i raglenni a gwasanaethau. Fe wnaeth ychydig ddweud y byddai cyflogau ar gyfer uwch reolwyr a'r dalent ar y sgrin yn faes lle gellid gwneud toriadau.

*“Pan dydych chi ddim yn gweithio i sefydliad, mae'n anodd dweud ymhle y gellid arbed costau. Fel arfer, o fod yn Brif Swyddog Gweithredol sefydliad arall, yr hyn rydych chi am ei wneud yw ceisio lleihau eich costau sefydlog os yw hynny’n bosib, ac efallai y bydda’n rhaid edrych ar eich staff neu ar dreuliau fel rhan o hynny. Efallai ei fod yn ymwneud â'r ffioedd a delir i bobl sydd ar eich llyfrau. Efallai y bydd llai o arian i dalu ffioedd rhai o’r bobl sy’n ennill llawer. ” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Gallen nhw dorri cyflogau mawr swyddogion gweithredol y BBC, gallen?” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mae rhai o gyflwynwyr y BBC yn cael ychydig o dan £2 miliwn, fel Gary Lineker. Mae nifer o bobl yn cael cyflogau mawr iawn. Rwy’n meddwl y dylid edrych ar hyn.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Mae llawer o bobl yn teimlo bod y staff a'r swyddogion gweithredol yn cael gormod o gyflog, ac y dylid torri'n ôl ar hynny. Dyna oedd y thema a oedd yn codi fwyaf o ran torri costau: lleihau cyflogau'r rheini sy’n ennill llawer, boed hynny’n staff neu’n berfformwyr, ond yn enwedig perfformwyr.” Grwpiau Pobl Hŷn*

*“Fedra i ddim meddwl am wasanaethau y dylid eu torri, ond dydw i ddim yn credu mai talu cyflogau enfawr i enwogion gyflwyno pethau, er enghraifft, yw’r ffordd orau o ddefnyddio arian y BBC.” Grwpiau Pobl Hŷn*

Soniodd rhanddeiliaid o bob un o'r holl grwpiau rhanddeiliaid am feysydd y dylai'r BBC, yn eu barn nhw, eu diogelu rhag unrhyw doriadau yn y dyfodol. Y rhain, gan amlaf, oedd newyddion, drama deledu, rhaglenni dogfen, a chynnwys wedi'i anelu at bobl ifanc. Roedd y rheini a ddywedodd y dylai’r BBC ddiogelu ei gynnwys newyddion yn meddwl bod darparu'r cyhoedd ym Mhrydain â newyddion cywir, diduedd, a chynhwysfawr yn fwy pwysig erbyn hyn gan fod mwy o ‘newyddion ffug’ a gwybodaeth anghywir. Dywedodd y rheini, a oedd yn datgan y dylid amddiffyn dramâu teledu a rhaglenni dogfen, mai’r rhain oedd cryfderau penodol y BBC a’u bod yn helpu i gadw’i enw da am gynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel yn y DU a thramor. Roedd dau reswm pam oedd rhai’n dweud y dylid gwarchod cynnwys sydd wedi'i anelu at bobl iau: a) roedden nhw’n teimlo y byddai'n annheg effeithio ar gynnwys ar gyfer pobl ifanc os mai grwpiau oedran hŷn fyddai’n cael help gyda’r drwydded deledu, a b) roedden nhw'n dweud nad oedd cynulleidfaoedd iau (a fyddai'n dod yn fwyfwy pwysig o ran sefyllfa’r sefydliad yn yr hirdymor) yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC.

*“Rwy'n meddwl o ran democratiaeth, fod ei arlwy newyddion cyffredinol yn rhywbeth y byddwn am ei ddiogelu, yn ogystal â faint o bobl mae’r newyddion yn ei gyrraedd, a'r gallu i gynnwys yr hyn mae'n rhoi sylw iddo yn fyd-eang.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Rwy'n meddwl y gallai'r BBC gynnal ei safonau o ran ei ddarpariaeth newyddion gyda mwy na’r hyn mae’n ei wneud ar hyn o bryd. Byddwn yn hapus i’r arian gael ei wario ar gyfres ddrama dda, byd natur, pethau y mae'r BBC yn ei wneud yn dda, a/neu edrych eto ar ei ddarpariaeth newyddion ac adfer ei hygrededd, am wn i”. Polisi Cyfryngau*

*“Mae gwahaniaeth rhwng lle dwi'n meddwl y byddan nhw’n torri'n ôl a lle byddwn i’n hoffi iddyn nhw dorri'n ôl. Yr hyn rwy’n ei ofni yw y byddan nhw’n torri'n ôl ar ansawdd, a bydd hyn yn effeithio ar raglenni drama, rhaglenni gwreiddiol, rhaglenni natur, sy’n ddrud i'w gwneud, dybiwn i. Yr holl bethau mae gennym ni feddwl mawr ohonyn nhw mewn gwirionedd, ac sy'n gwneud y BBC yn wahanol.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

*“Rhaid i'r BBC gadw ei wasanaethau poblogaidd. Rhaid i'r BBC gadw ei wasanaethau o ansawdd uchel. Mae yna ddadl glasurol ynghylch diffyg yn y farchnad: rhaid i'r BBC ddarparu'r hyn na wnaiff y sector masnachol, ond ni fydd y BBC yn gallu darparu hynny, oni bai ei fod hefyd yn herio ac yn cystadlu yn erbyn y sector masnachol i ddenu cynulleidfaoedd eang.” Polisi Cyfryngau*

*“Petaen nhw’n gorfod gwneud y toriadau, yna rwy'n credu bod angen i'r toriadau effeithio ar wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau ar gyfer gwylwyr iau yn cael eu diogelu. Mae anghydbwysedd sylfaenol ar y cyfan, ac mae pobl yn y BBC wedi siarad am hyn – nad oes digon o gynnwys ar gyfer pobl ifanc. Oed cyfartalog cynulleidfa'r sianel yw 50 oed a throsodd, 60 oed a throsodd yn aml, felly mae pobl dros 50 oed yn amlwg yn cael mwy o werth gan y BBC na'r hyn y mae pobl o dan 50 oed yn ei gael, ac yn enwedig pobl o dan 35 oed. Pe byddech chi’n gorfod gwneud toriadau, ac os ydych chi’n trin talwyr ffi’r drwydded yr un fath, yna yn naturiol, mae angen i chi dorri’r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio mwy gan wylwyr hŷn.” Diwydiant y Cyfryngau*

## Pwyso a mesur setliad ffi'r drwydded yn 2015

Roedd llawer o randdeiliaid yn flin am setliad ffi'r drwydded yn 2015. Ar y pryd, roedd nifer wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch y cytundeb – mae hyn wedi tawelu yn y blynyddoedd diwethaf – ond mae eu hanniddigrwydd wedi'i aildanio yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y teimlad hwn yn fodd i randdeiliaid edrych ar y mater ynghylch pobl dros 75 oed – a chlywyd hyn dro ar ôl tro mewn sgyrsiau.

Roedd dwy feirniadaeth o setliad ffi'r drwydded. Yn gyntaf, roedd rhanddeiliaid yn anghytuno'n llwyr â'r ffordd y gwnaethpwyd y cytundeb a pha mor gyflym y gwnaethpwyd hynny. Fe wnaethon nhw gyhuddo'r Llywodraeth o ‘fwlio’r’ BBC drwy gynnal sgyrsiau y tu ôl i ddrysau caeedig, rhuthro'r

cytundeb, a rhoi wltimatwm annheg i’r BBC, heb ddadl na thrafodaeth. Yn y pen draw, roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod y BBC wedi cael ei roi mewn sefyllfa amhosib, heb ddewis o gwbl ond derbyn y telerau a roddwyd gan y Llywodraeth. Roedd llawer yn gweld gweithredoedd Canghellor y Trysorlys bryd hynny, George Osborne, a Chadeirydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, John Whittingdale, fel tystiolaeth o'r agenda ehangach i wanhau a lleihau'r BBC.

*“Dydw i ddim yn siŵr mod i’n cytuno â'r hyn a wnaeth y Llywodraeth o ran rhoi’r hyn a oedd yn benderfyniad polisi cyhoeddus i'r BBC ei wneud.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Dydw i ddim yn meddwl y dylai hyn fod wedi cael ei drosglwyddo i'r BBC o gwbl, ac mae’n fy synnu’n fawr iawn bod y BBC wedi derbyn hyn yn y lle cyntaf, gan mai taliad lles yw hyn a mater i'r Adran Gwaith a Phensiynau, os yw hynny'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth ar gyfer darparu cymorth i bobl hŷn. Dydw i ddim yn meddwl mai cyfrifoldeb y BBC yw hyn o gwbl.” Polisi Cyfryngau*

*“Y sefyllfa ddelfrydol i mi fyddai bod y BBC heb gytuno o gwbl i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn! Cawson nhw eu dal yn annisgwyl gan wleidyddion a oedd yn awyddus i arbed arian o ba le bynnag roedden nhw’n gallu oherwydd y cyni ariannol, ond eu bod, yn y bôn, yn torri’r sector cyhoeddus. Hefyd, does dim dwywaith bod rhywfaint o elyniaeth tuag at y BBC ar ochr dde gwleidyddiaeth, felly bydd rhai wedi'i weld fel ffordd o daro’r BBC hefyd.” Polisi Cyfryngau*

*“Dydw i ddim yn hoffi bod y BBC wedi derbyn yr ymrwymiad i wneud hyn, ac felly mae'r setliad a wnaed yn ôl yn 2015 pan ysgwyddodd y BBC y cyfrifoldeb dros hynny, roeddwn i’n meddwl bod y Llywodraeth wedi croesi'r llinell, oherwydd yr hyn y mae'r BBC yn gorfod ei wneud yn awr yw rheoli budd-dal. Nid darparwr budd-daliadau, budd-daliadau cymdeithasol yw’r BBC. Darlledwr cyhoeddus yw’r BBC. […] Yr hyn oedd yn fy mhoeni, wrth gwrs, oedd y pryder ynghylch demograffeg. Mae’n ddyletswydd heb unrhyw derfyn sy’n mynd yn fwy ac yn fwy, ac mae’r Llywodraeth wedi rhoi’r BBC mewn sefyllfa sy’n gwneud iddyn nhw edrych yn wael ar y diwedd, oherwydd pwy fyddai eisiau colli budd-dal? Roeddwn i’n nerfus iawn ynglŷn â'r hyn y byddai hyn yn ei olygu yn ariannol, mewn perthynas â chyfran gynyddol ffi'r drwydded sy’n cael ei gosod yn erbyn hyn, yn ogystal â’r ideoleg ynghylch a ddylai'r BBC fod yn gwneud y math yma o beth o gwbl. A dweud y gwir, mae cyfnod poenus o’n blaenau, ac rwy wir yn meddwl y dylai’r BBC dynnu’n ôl o'r ymrwymiad hwn yn llwyr.” Polisi Cyfryngau*

*“Rwy'n credu mai dau wleidydd gychwynnodd hyn, pob un ohonyn nhw ag agenda wleidyddol tymor byr eu hunain, a does yr un ohonyn nhw’n elyn penodol i’r BBC o be wela i, ond yr hyn sydd gennym ni ar y diwedd yw’r consesiwn hwn sy’n ddrud dros ben ac wedi'i dargedu’n wael.” Polisi Cyfryngau*

*“Y llywodraeth ddylai fod yn gyfrifol am hyn. Mae mor syml â hynny. Roedd y BBC wedi cael eu gorfodi i wneud y consesiwn hwn y tro diwethaf i ffi'r drwydded gael ei hadnewyddu, ac ni ddylai hyn fod wedi bod yn gynnig o gwbl i'r Llywodraeth roi'r cyllid hwnnw i … mae’n fudd cymdeithasol. Nid trafod cyllideb y BBC rydym yma ond, ar ba lefel bynnag y mae angen i'r gyllideb honno fod, nid diben y gyllideb yw ariannu ffioedd y drwydded. Mae hynny’n mynd i'r trysorlys, nid i’r BBC. Rwy'n siŵr bod 99 y cant o bawb arall wedi dweud yr un peth, gobeithio. Mater o synnwyr cyffredin ydy hyn, ar ddiwedd y dydd.” Diwydiant y Cyfryngau*

*“Wel, rwyf o’r farn bod y sefyllfa hon yn un o ddiystyrwch, oherwydd mae’r Llywodraeth, yn fy marn i, wedi rhoi llawer o bwysau ar y BBC i dderbyn, fel rhan o'i delerau busnes newydd, y weithred gymdeithasol ychwanegol hon fel rhan o'i fargen. Rwyf yn erbyn hyn yn llwyr.” Diwydiant y Cyfryngau*

Roedd y rhanddeiliaid yn feirniadol o'r ffordd y cafodd setliad ffi'r drwydded ei wneud yn 2015, ond roedd ganddyn nhw bryderon difrifol hefyd ynghylch ei gynnwys, a chraidd y cynnwys oedd y rhwymedigaeth ar y BBC i ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros gyllido a’r ddyletswydd i ymgynghori ynghylch dyfodol trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed. Roedd eu pryderon yn canolbwyntio ar ddwy elfen o'r polisi.

Yn gyntaf, roedd rhanddeiliaid yn anghytuno'n llwyr â'r syniad o gael BBC annibynnol gyda'r ddyletswydd i wneud penderfyniadau am yr hyn a oedd yn cyfateb i bolisi cymdeithasol yn eu barn nhw. Yn eu barn nhw, rôl y Llywodraeth, fel corff etholedig, oedd penderfynu a ddylai pobl dros 75 oed dalu ffi'r drwydded ac, os felly, ar ba lefel. Roedden nhw'n honni ei fod yn 'annemocrataidd' i gorff heb fod yn gorff etholedig, heb fawr o brofiad ym maes polisi cymdeithasol, i wneud y penderfyniadau hyn. Daeth y rhanddeiliaid hyn i'r casgliad bod y rhwymedigaeth hon yn mynd yn groes i ddiben y BBC, yn tanseilio Siarter y BBC, ac yn newid natur y berthynas rhwng BBC annibynnol a'r bobl sy'n talu ffi'r drwydded.

Yn ail, roedd rhanddeiliaid yn chwyrn yn erbyn y syniad bod y BBC yn gorfod ariannu'r trwyddedau am ddim. Fel mater o egwyddor, roedd llawer yn teimlo'n anniddig bod y BBC yn gorfod talu am fudd ymarferol o'i gyllideb ei hun, ac ar lefel ymarferol roedd ganddyn nhw bryderon difrifol ynghylch effaith y gost o wneud hynny ar ffi'r drwydded sydd eisoes dan bwysau. Yn ôl y rhanddeiliaid hyn, roedd pob un o'r dulliau a gynigiwyd yn arwain at fil mawr na allai'r BBC ei fforddio heb wneud toriadau sylweddol i amrywiaeth neu ansawdd yr allbwn.

*"Yr hyn maen nhw wedi llwyddo i'w wneud yw gwthio cyfrifoldeb ar y Gorfforaeth na ddylai ei gael o gwbl, ac na ddylai'r BBC yn sicr fod wedi cytuno iddo. Mae hen egwyddor yn bodoli –dim trethu heb gynrychiolaeth – ac mae hynny'n golygu mai gwleidyddion ddylai fod yn gyfrifol os oes trethi yn cael eu codi." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n anghytuno'n gryf iawn â'r ffaith bod y pwnc llosg hwn wedi'i daflu at y BBC i benderfynu yn ei gylch. Mater o drethu yw ffi'r drwydded, ac mae trethu yn rhywbeth sy'n cael ei benderfynu gan lywodraethau sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd. Felly os yw'r Llywodraeth yn awyddus i newid y ffordd mae ffioedd y drwydded yn cael eu dyrannu, rwy'n meddwl mai'r Llywodraeth ddylai gwneud y penderfyniad ei hun ac nid ei drosglwyddo i'r BBC wneud penderfyniad." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Rwy'n gwrthwynebu'r prosiect yn y lle cyntaf, bod y Llywodraeth, pa bynnag liw, wedi defnyddio pwnc ariannu'r BBC fel rhan o deilwra cymdeithasol, a dydw i ddim yn meddwl y dylen nhw fod wedi cynnwys y BBC yn hynny. Dydw i ddim yn meddwl y dylai'r BBC fod wedi cytuno." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl ei bod yn glir iawn mai mater o bolisi cymdeithasol yw hyn a ddylai gael ei ariannu drwy drethi cyffredinol." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae'r eithriad i bobl dros 75 oed yn fudd-dal lles ac mae'n gwbl amhriodol i ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ysgwyddo cyfrifoldebau ariannol a pholisi'r budd-dal lles hwnnw. Mae'n newid natur y berthynas sydd gan y sawl sy'n talu ffi'r drwydded â'u darlledwr gwasanaeth cyhoeddus." Polisi Cyfryngau*

*"Nid yw'n briodol i'r BBC fod yn y sefyllfa o wneud penderfyniadau sy'n benderfyniadau polisi gwleidyddol ynghylch pwy ddylai gael beth, wrth rannu pot ar gyfer cymhorthdal. Mae'n mynd yn gwbl groes i rwymedigaethau'r Siarter ac mae perygl y bydd hyn yn tanseilio perthynas y BBC â'r cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, a oedd yn mynd i ddigwydd beth bynnag oherwydd na all y BBC fforddio cynnal y cymhorthdal fel y mae ar hyn o bryd. Mae hynny'n amlwg ohono'i hyn heb wneud niwed anhygoel i'r gorfforaeth." Diwydiant y Cyfryngau*

*"Mae fy marn i'n eithaf syml ac mewn dwy ran. Dydw i ddim yn credu ei bod yn briodol cynnwys y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig wrth drafod tlodi a lles. […] Mater i'r Llywodraeth a'r adran lles yw penderfynu ydyn nhw am roi cymhorthdal yn y wladwriaeth les i dalu am hynny." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n meddwl y dylai'r Llywodraeth dderbyn cyfrifoldeb dros hyn a pheidio â'i drosglwyddo i'r BBC." Grwpiau Pobl Hŷn*

*"Nid sefydliad lles ydyn nhw. Dydy hyn ddim yn eu dyletswyddau ffurfiol. Dydyn nhw ddim yn gymwys i wneud hyn. Yr hyn rwy'n ei olygu yw nad oes ganddyn nhw ffordd ffurfiol o wneud hynny – nid gweinyddiaeth y llywodraeth ydyn nhw. Dydyn nhw ddim yn gymwys i wneud penderfyniadau o'r fath. Ddylen nhw ddim cael eu gwthio i lawr y llwybr hwnnw. Llwybr gwleidyddol yw'r un sy'n penderfynu pa*

*fudd-daliadau lles a ddylai fod ar gael, felly byddwn i'n dadlau nad oes croeso i hyn a'i fod yn anarferol ac yn amhriodol." Polisi Cyfryngau*

*"Wel, rwy'n meddwl, yn anffodus, bod y BBC wedi gorfod codi busnes y llywodraeth a gwneud gwaith budr y llywodraeth drosti. Mae gan y BBC broblem anodd iawn ar ei ddwylo. Mae'r Llywodraeth wedi dweud yn ddi-flewyn-ar-dafod na fydd yn torri buddion cynhwysol ar gyfer pobl hŷn, ond erbyn hyn mae bron fel petai'n gwneud i'r BBC dorri'r budd-dal penodol hwn ar ei rhan." Grwpiau Pontio'r Cenedlaethau*

Er bod y rhan fwyaf wedi beirniadu'r Llywodraeth am 'orfodi'r fargen' ar y BBC, roedd lleiafrif o'r farn bod y BBC ar fai hefyd am ymrwymo i'r setliad. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn siomedig nad oedd y BBC, i bob golwg, wedi 'brwydro', gan nodi bod yr arweinyddiaeth wedi cael cyfle i negodi bargen well neu wrthod y setliad. Roedd y grŵp hwn yn derbyn y gall fod goblygiadau ariannol neu gysylltiadau cyhoeddus wrth wrthod y fargen, ond byddai'r rhain wedi bod yn well nag ariannu'r consesiwn ar gyfer pobl dros 75 oed. Roedd rhai rhanddeiliaid yn mynnu bod cytundeb y BBC yn ei gwneud yn anoddach fyth i'r BBC ofyn i'r Llywodraeth ailystyried y trefniant.

*"Rwy'n credu bod y BBC ar ei wannaf pan ddigwyddodd hyn, oherwydd ei fod yng nghanol y trafodaethau am ffi'r drwydded, ac rwy'n credu ei bod wedi bod yn well ildio i John Whittingdale heb frwydro. Wrth edrych yn ôl, mae'n anffodus iawn na wnaeth y BBC frwydro mwy ar y pryd, oherwydd dydy'r cyhoedd ym Mhrydain ddim yn gwybod beth oedd y bygythiad i'r BBC yn sgil y polisi hwn." Polisi Cyfryngau*

*"Y Canghellor sydd â'r holl bŵer yn y diwedd, ond gallen nhw fod wedi cwyno am hyn o leiaf. Wnaethon nhw ddim ac mae hynny'n ei gwneud yn llawer anoddach iddyn nhw ddadlau eu hachos. Dydw i ddim yn dweud nad oes ganddyn nhw achos da, ond mae'n mynd i fod yn anodd iawn dadlau ynghylch hyn am na wnaethon nhw gwyno ar y pryd. Roedden nhw'n hapus i fynd â chynnydd y RPI yn ffi'r drwydded, a dyma'r pris am hynny, a wnaethon nhw ddim cwyno … Mae'n eithaf anodd iddyn nhw." Polisi Cyfryngau*

*"Rwy'n teimlo'n bryderus iawn fod y BBC wedi cytuno i hyn […] Fe wnaeth y Llywodraeth Geidwadol daflu'r polisi ar y BBC er mwyn tynnu hyn oddi ar y Trysorlys. Roedd yn bolisi gwael yn y lle cyntaf, ac yn llwfrdra gwleidyddol, nad oedden nhw am ei dynnu oddi ar y bobl, ond yn hytrach ei daflu at y BBC. Rwy'n drist iawn bod y BBC wedi penderfynu ei dderbyn. Byddai'n dda petaen nhw heb wneud hynny, efallai nad oedd modd ei osgoi. Mae'r Llywodraeth yn mynnu, yn eithaf plwmp a phlaen, bod y BBC wedi addo parhau â'r taliad, ond rwy'n deall nad yw hyn yn wir; na wnaeth y BBC addo cadw at yr un drefn, o'r hyn rwy'n ei ddeall. Ond mae'r Llywodraeth mewn sefyllfa'n awr lle mae'n gallu dweud, 'Fe roddon ni arian ychwanegol i'r BBC; fe roddon ni ffi'r drwydded wedi'i mynegeio am bum mlynedd a'r gymwynas am hyn oedd eu bod yn cymryd yr awenau." Polisi Cyfryngau*

*"Dydw i ddim yn deall y ffigurau'n iawn, ond mae gen i deimlad cryf y bydd cynnal y consesiwn yn cael effaith fawr iawn, iawn ar y BBC." Polisi Cyfryngau*

*"Ynghylch cymryd yr awenau gyda'r budd-dal ar gyfer pobl dros 75 oed, rwy'n credu ei fod yn benderfyniad ofnadwy. Ni ddylai hyn fod wedi'i dderbyn gan dîm Gweithrediaeth y BBC sy'n amlwg yn teimlo'n gryf iawn mai dyma'r fargen orau roedden nhw'n gallu ei chael o dan yr amgylchiadau. […] Rwy'n cydymdeimlo'n llwyr â'r ffaith eu bod yn gwneud hynny oherwydd eu bod, yn fy marn i, o dan bwysau. Rwy'n meddwl bod y galwadau ffôn neu'r cyfarfodydd wedi digwydd tuag wythnos, fwy neu lai, cyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd. Dyma fyddai'r cyfle cyntaf i'r BBC weld beth oedd gan y Llywodraeth a'r Ysgrifennydd Gwladol, John Whittingdale, mewn golwg i Siarter newydd y BBC. Roedd hwn yn gyfnod o bryder a sefyllfa gwirioneddol fregus, felly rwy'n meddwl ei bod yn ddigon teg i mi ddweud, yn fy marn i, bod y BBC wedi gwneud y penderfyniad o dan bwysau, a'u bod wedi gwneud y penderfyniad i dderbyn y cyfrifoldeb hwn dros daliadau trwydded i bobl dros 75 oed." Polisi Cyfryngau*

*“Mae gen i feddwl mawr iawn o'r BBC. Ond rwy’n meddwl na ddylai byth fod wedi cael ei hun yn y sefyllfa hon lle roedd yn gorfod derbyn hyn ac yn gorfod gwneud y penderfyniad hwn.” Grwpiau Pontio’r Cenedlaethau*

# Atodiad 1: canllaw trafod

<u>Cyflwyniad: pwrpas, tawelu ofnau ynghylch cyfrinachedd</u>

Mae Populus wedi cael ei gomisiynu gan y BBC i ymgymryd â darn o waith ymchwil ansoddol manwl gyda chroestoriad eang o randdeiliaid a grwpiau cymdeithas i asesu agweddau tuag at y BBC. Gan fod y BBC yn ymgynghori ynghylch Polisi Ffi'r Drwydded Deledu ar sail Oed, bydd adran fanwl ar gael yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori. Bydd cyfle i roi sylwadau mwy cyffredinol ar y BBC ar y diwedd.

Bydd yr adran honno yn sail i adroddiad y bydd y Bwrdd yn cael ei wahodd i'w ystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y broses. Bydd yr adroddiad yn cynnwys sylwadau heb fod wedi'u priodoli i neb. Felly, mae'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn cael ei annog hefyd i gymryd rhan yn ffurfiol fel rhan o'r broses ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod barn sefydliadau rhanddeiliaid hefyd yn cyrraedd ar ffurf y gellir ei phriodoli.

Ymgynghoriad ynghylch ffi'r drwydded

Cyd-destun (crynodeb o'r ddogfen ymgynghori)

Faint ydych chi'n ei wybod am ymgynghoriad y BBC i benderfynu ar ddyfodol trwyddedau teledu ar gyfer grwpiau oedran hŷn?

*[Os oes angen]* Heddiw, mae gan bob aelwyd sydd yn cynnwys rhywun dros 75 oed hawl i dderbyn trwydded deledu am ddim. Llywodraeth y DU sydd wedi bod yn talu am gost y cynllun yma. Yn 2020 bydd y cynllun yma yn dod i ben, ynghyd ag arian y Llywodraeth ar gyfer ei ariannu. Bydd y BBC yn ymgynghori ac yn penderfynu ar gynllun newydd a ddaw i rym o fis Mehefin 2020 er mwyn darparu consesiynau mewn perthynas â thrwyddedau teledu ar gyfer grwpiau oedran hŷn, ac yna yn ariannu hynny. Y cwestiwn sydd yn wynebu'r BBC nawr yw: pa gonsesiynau, os o gwbl, ddylid eu sefydlu ar gyfer pobl hŷn o fis Mehefin 2020?

Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r BBC yn egluro sut mae'n rhagweld dyfodol ei raglenni a'i wasanaethau a'i sefyllfa ariannol. Mae'n ddyletswydd arno i ddarparu cenhadaeth y gwasanaeth cyhoeddus fel y nodir yn ei Siarter Brenhinol. Byddai unrhyw gonsesiwn ar sail oed yn golygu y byddai gan y BBC lai o arian, a fyddai'n golygu llai o raglenni a gwasanaethau. Nid oes gan y BBC y grym i godi ffi'r drwydded i dalu am gostau consesiwn newydd.

Gofynnodd y BBC i gwmni ymgynghoriaeth economaidd allanol, Frontier Economics, ddarparu dadansoddiad manwl a helpu'r BBC i ddeall goblygiadau'r gwahanol opsiynau. Mae eu gwaith yn nodi'r costau i'r BBC ar gyfer amrywiaeth o opsiynau diwygio: newid yr oed cymhwyso, profi modd neu roi gostyngiad ar drwydded yn hytrach nag un am ddim. Mae'n edrych hefyd ar adfer ffi drwydded gynhwysol, h.y. dim consesiwn yn y dyfodol.

Dywedodd Frontier wrthym pe byddai'r BBC yn parhau i ddarparu trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed, cyfanswm y gost fyddai £745m – mae hyn yn cyfateb i un rhan o bump o gyllideb bresennol y BBC – erbyn 2021/22 a byddai'n parhau i godi wedi hynny. Ffordd y BBC o feddwl ar hyn o bryd, er mwyn talu am y gost yma, yw y byddai'n rhaid i'r BBC wneud arbedion, cau gwasanaethau presennol a lleihau allbwn yn sylweddol.

Cyflwynwyd y consesiwn er mwyn helpu i liniaru tlodi ymysg pensiynwyr, sydd yn dal yn broblem i rai pobl hŷn. Rydym hefyd yn cydnabod arwyddocâd rhaglenni a gwasanaethau'r BBC fel ffynhonnell bwysig o fwynhad a chwmnïaeth i'r henoed. Ond mae adroddiadau Frontier Economics yn egluro hefyd fod aelwydydd hŷn yn gyffredinol wedi gweld gwelliant amlwg yn eu safonau byw. Hefyd mae yna ddadl gynyddol ynghylch newid mewn cyfleoedd ac amgylchiadau economaidd pobl ifanc, a'r safbwynt mai pobl ifanc sydd wedi cael eu taro waethaf gan ddigwyddiadau economaidd diweddar (megis yr argyfwng ariannol a'i effeithiau).

Ffordd o edrych ar gonsesiwn ffi'r drwydded deledu

Yn gyffredinol, yn eich barn chi, beth yw'r dull cywir o ddelio â chonsesiwn ffi'r drwydded deledu ar gyfer grwpiau oedran hŷn?

Yn fwy penodol, mae'r papur ymgynghori yn nodi nifer o ddulliau y gallai'r BBC fynd amdanyn nhw. Hoffem gael eich barn am rai o'r rhain.

(Ar gyfer pob un o'r isod, gallech sôn am y gwasanaeth sy'n cyfateb i'r naill opsiwn a nodir yn y ddogfen a'r costau)

Copïo'r consesiwn presennol

*Mae copïo'r consesiwn presennol yn golygu y byddai pob aelwyd sydd yn cynnwys rhywun dros 75 oed yn derbyn trwydded deledu am ddim. Ond er mwyn talu am gost hyn, rydym yn credu y byddai'n rhaid i'r BBC wneud nifer fawr o doriadau i raglenni a gwasanaethau presennol.*

Beth yw eich barn chi am y dull hwn?

Pa mor deg yw'r dull?

Mae'r BBC yn dweud y bydd hyn yn cael effaith ariannol a fyddai'n golygu bod toriadau i raglenni a gwasanaethau yn angenrheidiol. Pe byddai sianeli neu wasanaethau yn gorfod mynd o'r herwydd, beth, yn eich barn chi, fyddai'r BBC yn gallu gwneud hebddo?

Pa mor ymarferol bosib fyddai hyn, yn eich barn chi?

Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw'r opsiwn hwn, yn eich barn chi?

Adfer y ffi gynhwysol

*Mae adfer ffi'r drwydded gynhwysol yn golygu na fyddai unrhyw drwyddedau teledu am ddim ar gael i grwpiau oedran hŷn. Byddai'n rhaid i aelwydydd sy'n cynnwys rhywun dros 75 oed dalu ffi'r drwydded fel pob aelwyd arall. Er y byddai yna gost o hyd i'r BBC, rydym yn credu mai'r canlyniad cyffredinol fyddai dim toriadau arwyddocaol i wasanaethau'r BBC o ganlyniad i'r opsiwn yma.*

Beth yw eich barn chi am y dull hwn?

Pa mor deg yw'r dull?

Pa mor ymarferol bosib fyddai hyn, yn eich barn chi?

Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw'r opsiwn hwn, yn eich barn chi?

Diwygio'r consesiwn (nodi pob opsiwn)

*Mae diwygio'r consesiwn yn golygu y byddai yna ryw fath o gonsesiwn trwydded deledu o hyd ar gyfer grwpiau oedran hŷn, ond byddai'n wahanol i'r hyn sydd yn bodoli heddiw. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys rhyw fath o ostyngiad yng nghost y drwydded i aelwydydd hŷn, neu newid yr oedran ar gyfer dechrau derbyn trwyddedau teledu am ddim, neu ganolbwyntio ar yr aelwydydd hŷn hynny sydd yn fwyaf anghenus. Rydym yn credu y byddai pob un o'r opsiynau yma yn arwain at lai o doriadau i raglenni a gwasanaethau'r BBC, o'i gymharu â chopïo'r consesiwn presennol o drwyddedau am ddim i bob aelwyd sydd yn cynnwys rhywun dros 75 oed.*

Yn y ddogfen ymgynghori, mae'r BBC yn disgrifio tair ffordd bosib o ddiwygio:
Rhoi gostyngiad o 50% yn ffi'r drwydded i'r rheini sydd dros 75 oed
Codi'r trothwy oed i 80 oed er mwyn bod yn gymwys
Profi modd aelwydydd hŷn gan ddefnyddio Credyd Pensiwn

Beth yw eich barn chi am y dulliau hyn? Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gallen nhw lwyddo h.y. ar bwy ddylai consesiwn ganolbwyntio? Fyddech chi'n dewis gostyngiad uwch neu is? Ar ba oedran (dros 65) fyddech chi'n dechrau'r consesiwn?

Pa mor deg yw'r rhain?

Effaith ariannol:
Po leiaf fo'r swm y mae aelwydydd hŷn yn ei dalu am eu trwyddedau teledu, y mwyaf o doriadau y bydd yn rhaid i'r BBC eu gwneud i dalu am y gost yma
Po isaf yr oedran, y mwyaf o bobl fyddai'n derbyn trwydded deledu am ddim, ond byddai'n rhaid i'r BBC wneud mwy o doriadau i dalu am y gost yma.
Pe byddai sianeli neu wasanaethau yn gorfod mynd o'r herwydd beth, yn eich barn chi, fyddai'r BBC yn gallu gwneud hebddo?

Pa mor ymarferol bosib fyddai'r opsiynau diwygio hyn, yn eich barn chi?

Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw'r opsiynau diwygio hyn, yn eich barn chi? Pa un fyddai eich dewis cyntaf chi? Ac a oes gennych chi ail ddewis? Trydydd?

Yn gyffredinol

O'r tri dull rydym ni wedi sôn amdanyn nhw (copïo /adfer/ diwygio), pa un fyddai eich dewis cyntaf chi? Ac a oes gennych chi ail ddewis? Trydydd?

Dulliau eraill

Rydym ni'n ymgynghori hefyd ynghylch a oes dulliau eraill y gallem eu defnyddio – er enghraifft, efallai y gellid cyfuno rhai o'r opsiynau diwygio.

A oes unrhyw ddulliau eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried?

A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu'n gyffredinol? Efallai bod gennych rywbeth arall i’w ddweud am eich dewisiadau yn gyffredinol neu’r opsiynau diwygio, neu efallai bod gennych syniad arall ynglŷn â diwygio’r consesiwn.